- work for peace, stability and an inclusive settlement in Syria and Iraq; and pursue a comprehensive political and military strategy to defeat ISIL
- uphold the sovereignty, integrity and capacity of Ukraine, and continue to reject Russia's illegal annexation of Crimea
- stand shoulder to shoulder with our NATO allies, reassuring all its members – especially those closest to Russia – of their security, and continue to support the Euro-Atlantic path for Western Balkan nations
- ensure that the significant achievements of our Armed Forces in Afghanistan are maintained; and support the Government of Afghanistan in ensuring that the country remains stable and never again becomes a haven for international terrorists
- support a two-state solution to the Israeli-Palestinian conflict, robustly defending the right of Israel to protect its security, while continuing to condemn illegal settlement building, which undermines the prospects for peace
- protect global security by helping to lead international efforts to prevent Iran from obtaining a nuclear weapon; and work to ensure that North Korea ends its development of nuclear weapons.

### We will help make you better off

Over the last five years, we have used foreign policy to boost our prosperity. UK exports to China have more than doubled since 2009. We will do more, using the new embassies and diplomatic posts we have opened to connect

Britain to the fastest-growing economies in the world. We will push for freer global trade, concluding major trade deals with the US, India and Japan and reinvigorating the World Trade Organisation. As part of our drive to attract more investment into the UK and increase British exports, we will:

- build on our strong relationship with India, push for an ambitious EU-India trade deal and support India's bid for permanent representation on the UN Security Council
- strengthen our economic links with China, doubling support for British firms selling goods there and championing an EU-China trade deal.

### We will stand up for British values

Our long-term security and prosperity depend on a stable international system that upholds our values. Over the last five years, we have stood up for what we believe in: intervening to stop a massacre in Libya, leading the world in tackling sexual violence in conflict, and helping women and children who have fled violence in Syria. We will continue this leadership. We will stand up for the freedom of people of all religions – and non-religious people – to practise their beliefs in peace and safety, for example by supporting persecuted Christians in the Middle East. We will strengthen the Commonwealth's focus on promoting democratic values and development. We will drive forward the Preventing Sexual Violence in Conflict Initiative. We will support global processes on arms control. And we will continue to support universal human rights. We will:

- uphold our Special Relationship with the USA and further strengthen our ties with our close Commonwealth allies, Australia, Canada and New Zealand
- uphold the democratic rights of the people of Gibraltar and the Falkland Islands to remain British, for as long as that is their wish, and protect our Overseas Territories

- stand up for the rule of law and human rights in Zimbabwe
- support a democratic transition in Burma
- promote reconciliation and human rights in Sri Lanka, including through supporting the UN

## Keeping Britain safe

### Our plan of action:

#### We will protect our nation

We will continue to keep our Armed Forces strong so they can continue to keep you safe. Conservatives will maintain a strong defence footprint within Wales and will continue to recognise and support the historic contribution of forces personnel within Wales. We will maintain the size of the regular armed services and not reduce the army to below 82,000. We will retain the Trident continuous at sea nuclear deterrent to provide the ultimate guarantee of our safety and build the new fleet of four Successor Ballistic Missile Submarines – securing thousands of highly-skilled engineering jobs in the UK. We will work closely with our allies to continue to strengthen NATO – supporting its new multi-national rapid response force. We will maintain our global presence, strengthening our defence partnerships in the Gulf and Asia. Later this year, we will hold a National Security Strategy and Strategic Defence and Security Review to plan for the future.

#### We will maintain a balanced defence budget and give our Armed Forces the cutting-edge equipment they need

We can only have strong, well-funded Armed Forces by continuing to build a stronger economy. We have the second largest defence budget in NATO and the largest in the EU. We are meeting NATO's two targets: that each country should spend two per cent of its gross national income on defence, and of that spending 20 per cent should go on major equipment. We have made commitments for the equipment plan to be funded at one per cent above inflation for the next Parliament. We plan to invest at least £160 billion in new military equipment over the next decade:

investigation into war crimes, which the Prime Minister was instrumental in securing following his historic visit to Jaffna

- actively support Cypriots to find a peaceful and lasting settlement to reunite their island.

as well as our six new Type 45 destroyers, we will build a class of seven Astute submarines and buy the Joint Strike Fighter, Scout armoured vehicles, Type 26 frigates and new Apache attack helicopters. We will bring both of our new Aircraft Carriers – HMS Queen Elizabeth and HMS Prince of Wales, the largest vessels the Royal Navy has ever possessed – into service, so we have one available for use at all times. We will continue to seek value for money in defence procurement, recognising the important contribution that the UK defence industry makes to our prosperity.

#### We will maintain strong, modern Armed Forces

Modern, flexible Armed Forces need strong reserve capacity, alongside strong regular forces. We have invested significantly in our reserves, and we will deliver on our commitment to expand them to 35,000. We will continue to invest in our cyber defence capabilities. We will also provide more opportunities for talented people from all communities and walks of life to serve their country. We will ensure our Armed Forces overseas are not subject to persistent human rights claims that undermine their ability to do their job.

#### We will continue to honour the Armed Forces Covenant

We have honoured our commitment to enshrine the Armed Forces Covenant in law and done much to support our service men and women. We have delivered better accommodation for service families, helped service men and women buy their own home, and ensured that children of members of the Armed Forces benefit from the pupil premium. We have delivered proper mental health support and priority access to medical treatments for veterans. To ensure that those who serve can enjoy

greater economic security, we have boosted allowances and tax reliefs. We have protected pensions for our service men and women. We have ensured that injured service men and women have access to the latest prosthetics and world-class rehabilitation facilities. And we have used £450 million of LIBOR fines to support the Armed Forces community. The money has been used to support a wide range of charities and good causes, from providing better play facilities for the children of service families, to helping rehabilitation through sport for injured veterans. We pressed for the introduction of the Arctic Star medal – for veterans of the Arctic Convoys – and

Bomber Command Clasp, to ensure proper recognition for those who risked their lives to keep us free. We will build on this proud record, implementing Lord Ashcroft's recommendations on the way the nation fulfils its obligations to veterans. We will work to address hearing loss among veterans. And we will continue to support the unsung heroes of the Armed Forces community: the partners and families of those who serve.

## Tackling global challenges to make you safer and more prosperous

### Our plan of action:

#### *We will continue to honour our commitments*

Tackling global poverty is both the right thing to do and in Britain's interests. We have delivered on our promises to meet the UN target of spending 0.7 per cent of national income as aid and to enshrine this in law. We will continue to meet the 0.7 per cent target, maintain an independent Department for International Development and keep aid untied. Our aid budget meets the OECD aid rules, and we will actively engage in international discussions to ensure that these rules fully reflect the importance of peace, stability and effective institutions for reducing poverty. We will insist that every government and organisation we fund fully meets global transparency standards.

#### *We will save lives*

By 2020, we will save 1.4 million children's lives, by immunising 76 million children against killer diseases. We will help at least 11 million children in the poorest countries gain a decent education, improve nutrition for at least 50 million people, who would otherwise go hungry; and help at least 60 million people get access to clean water and sanitation, to stop terrible diseases. We will continue to lead the response to humanitarian emergencies, and establish a means to respond rapidly to crises. Our leading role in dealing with the recent outbreak of Ebola in West Africa is a good example of how our aid programme helps protect Britain from serious threats, while also helping countries tackle major emergencies which put their stability at risk. We will lead a major new global programme to accelerate the development of vaccines and drugs to eliminate the

world's deadliest infectious diseases, while investing to save lives from malaria and working to end preventable child and maternal deaths. We will expand payment by results and ensure all money to governments is clearly earmarked for specific purposes.

#### *We will tackle the causes of poverty*

We will push for new global goals to eradicate extreme poverty by 2030 and promote human development, gender equality and good governance. We will work to prevent climate change and assist the poorest in adapting to it. As the route out of poverty is about much more than just aid, we will boost growth and jobs, making it easier for people to start up businesses and trade freely with each other. We will continue to promote the golden thread of democracy, the rule of law, property rights, a free media and open, accountable institutions. We will promote girls' education, encourage equal access to property rights and work to achieve access to family planning for everyone who wants it. We will continue to lead efforts to tackle violence against women and girls, end FGM and combat early and forced marriage, both at home and abroad.

#### *We will help you fight poverty*

Our International Citizen Service has given thousands of young Brits the opportunity to volunteer abroad. We will triple it in size. We will also double our successful Aid Match scheme, which matches donations to charity from the aid budget. We will boost partnerships between UK institutions and their counterparts in the developing world, and help people in the UK give or lend money directly to individuals and entrepreneurs around the world.



## ***Conclusion***

### **SO THIS IS OUR DETAILED PLAN FOR BRITAIN.**

Our plan to entrench the progress of the past five years. Our plan for you and your family, at every stage of your life.

### **IT IS UNDERPINNED BY SOME SIMPLE CONSERVATIVE VALUES.**

Those who work hard and do the right thing must be rewarded. Everyone should be able to rise as high as their talents and effort will take them. We measure our success not just in how we show our strength abroad, but in how we care for the weakest and most vulnerable at home.

### **ABOVE ALL, RUNNING THROUGH THIS PLAN IS A TRUE BELIEF IN BRITAIN.**

In the past five years, as so often before in our history, we have once again defied the expectations of the world to rise up and meet our challenges. The British character is renewed every day by the millions who work hard, raise their families, care for those who need help, who do the right thing – and make this country what it is.

### **THIS MANIFESTO IS ABOUT IMPROVING THE LIVES OF EACH AND EVERY ONE OF THESE PEOPLE.**

Together we have come so far. If we stick to our long-term plan, we can secure a better future for you and your family. So let us keep moving forward; and set our sights on making our great country greater still.



# ARWEINYDDIAETH GREF CYNLLUN ECONOMAIDD CLIR DYFODOL MWY SICR A GWELL I GYMRU



Ceidwadwyr  
Cymreig | Welsh  
Conservatives

# Cynnwys

<b>RHAGAIR</b>	gan David Cameron – Arweinydd y Blaid Geidwadol.....	7
	Y Ceidwadwyr Cymreig: Uchelgeisiol dros Gymru, cyflawni dros Gymru.....	9
<b>1. CYNLLUN ECONOMAIDD I'CH HELPU CHI A'CH TEULU</b>		
	Economi gref i'ch helpu chi a'ch teulu.....	11
	Gwell ffyrdd, trenau a chyfathrebu modern.....	15
<b>2. SWYDDI I BAWB</b>		
	Swyddi i bawb.....	19
<b>3. TORRI EICH TRETHI, GWNEUD LLES YN DECACH A RHEOLI MEWNFUDO</b>		
	Torri eich trethi a chreu system les decach.....	25
	Rheoli mewnfudo sydd o fudd i Brydain.....	27
<b>4. YR YSGOLION A'R YSBYTAI GORAU I CHI A'CH TEULU</b>		
	Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'ch plentyn.....	31
	Diogelu a gwella ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol.....	33
	Eich galluogi i fwynhau ein treftadaeth, creadigrwydd a chwaraeon.....	35
	Eich helpu i adeiladu'r Gymdeithas Fawr.....	36
	Sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithio'n well i chi.....	38
<b>5. CARTREF A CHYMDogaeth sicr</b>		
	Eich helpu i brynu eich cartref eich hun .....	41
	Gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol.....	43
	Gwarantu cyflenwadau ynni glân, fforddiadwy a sicr i chi.....	44
	Ymladd yn erbyn troseddau ac amddiffyn dioddefwyr.....	47
	Atal terfysgaeth a gwrthod eithafiaeth.....	51
<b>6. URDDAS WRTH YMDEOL</b>		
	Urddas wrth ymddeol.....	55
<b>7. CADW EIN GWLAD YN DDIOGEL</b>		
	Yn gryfach gyda'n gilydd: Undeb ar gyfer yr 21ain ganrif.....	57
	Newid gwirioneddol yn ein cydberthynas â'r Undeb Ewropeaidd.....	59
	Prydain uwch ei bri yn y byd.....	63
	Llais cryfach i'n cenedl ar y llwyfan byd-eang.....	64
	Cadw Prydain yn ddiogel.....	65
	Mynd i'r afael â heriau byd-eang er mwyn sicrhau eich bod yn fwy diogel ac yn fwy llewyrchus.....	66
<b>CASGLIAD</b>	.....	69



## ***Mae gennym gynllun ar gyfer pob cam o'ch bywyd:***

### **I GAEL Y DECHRAU GORAU MEWN BYWYD**

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwario mwy ar y GIG yng Nghymru ac yn ei gwneud yn haws i chi weld eich meddyg teulu – fel eich bod yn gwybod y gallwch bob amser gael gafael ar wasanaeth iechyd am ddim o'r radd flaenaf pan mae ei angen arnoch fwyaf.

### **I'CH BLYNYDDOEDD YSGOL**

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn ariannu ysgolion yng Nghymru yn uniongyrchol, gan rymuso rhieni, athrawon a llywodraethwyr – er mwyn sicrhau bod gennych y sgiliau sydd eu hangen arnoch i lwyddo.

### **I GAEL EICH SWYDD GYNTAF**

Byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw un sy'n ennill llai na £12,500 yn talu unrhyw Dreth Incwm o gwbl ac yn deddfu i sicrhau bod gennym 'Isafswm Cyflog Di-dreth'; ac yn parhau i greu system les decach lle caiff budd-daliadau eu capio i'r lefel sy'n gwneud i waith dalu – fel eich bod yn cael eich gwobrwyd am weithio'n galed a gwneud y peth iawn.

### **WRTH I CHI FAGU EICH TEULU**

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn eich helpu i gamu ar yr ysgol dai a'i dringo – fel eich bod yn gallu gweithio tra bod gennych y sicrwydd o gael eich cartref eich hun i fagu eich teulu ynddo.

### **WRTH I CHI FYND YN HŶN**

Ni fyddwn yn cynyddu TAW, cyfraniadau Yswiriant Gwladol na Threth Incwm ond byddwn yn cynyddu'r trothwy Treth Incwm 40c i £50,000 ac yn sicrhau nad yw cartref y teulu yn cael ei drethu drwy gynyddu'r trothwy Treth Etifeddiaeth ar gyfer parau priod a phartneriaid sifil i £1 filiwn – fel eich bod yn gallu cadw mwy o'ch incwm a'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

### **A PHAN FYDDWCH YN YMDEOL**

Byddwn yn parhau i gynyddu Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth 2.5 y cant o leiaf drwy'r clo triphlyg, yn rhoi'r rhyddid i chi ddefnyddio eich cynillion pensiwn fel y dymunwch a'u trosglwyddo'n ddi-dreth a byddwn yn capio'r swm y gellir ei godi am eich gofal preswyl - fel y gallwch fwynhau'r urddas a'r sicrwydd rydych yn eu haeddu yn eich henaint.

***Bydd y Llywodraeth Geidwadol nesaf yn sicrhau dyfodol gwell i chi, eich teulu a Phrydain.***



## Rhagair

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi sicrhau bod ein gwlad ar y trywydd iawn unwaith eto. Bum mlynedd yn ôl, roedd Prydain ar y dibyn. Fel y dywedodd Gweinidog y Trysorlys ymadawol y Blaid Lafur yn gwbl ddiffuant, 'does dim arian'. Ers hynny, rydym wedi trawsnewid y sefyllfa.

Erbyn hyn, mae Prydain yn un o'r economiâu mawr sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Rydym yn llwyddo i gael ein cyllid cenedlaethol o dan reolaeth unwaith eto. Rydym wedi haneru ein diffyg fel cyfran o'n heconomi. Mae mwy o bobl mewn gwath nag erioed o'r blaen. Mae Prydain yn ôl ar ei thraed, yn gryf ac yn tyfu'n gryfach bob dydd.

Nid drwy ddamwain y mae hyn wedi digwydd. Mae o ganlyniad i benderfyniadau anodd a gweithio drwy ein cynllun economaidd hirdymor yn amyneddgar. Yn anad dim, mae'n ffrwyth ymdrech genedlaethol glodwiw, lle mae pawb wedi gwneud aberth a chwarae eu rhan.

Mae'r Ceidwadwyr yn credu'n gryf mai nid drwy gamau llywodraeth yn unig y mae ein gwlad yn cyrraedd yr uchelfannau, ond drwy allu, dyfeisgarwch a gwaith caled pobl Prydain - ac felly y bu'r pum mlynedd diwethaf.

Gallwn fod yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd hyd yma ac yn hynod falch, wrth i ni wneud penderfyniadau anodd ar wariant cyhoeddus, ein bod wedi diogelu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gyda 9,500 yn fwy o feddygon a 6,900 yn fwy o nyrsys, ac wedi sicrhau bod cynnydd hael ym Mhensiwn y Wladwriaeth.

Mae ein cyfeillion a'n cystadleuwr dramor yn edrych ar Brydain ac yn gweld gwlad sy'n rhoi trefn ar bethau, gwlad sydd ar gynnydd. Maent yn gweld gwlad sy'n credu ynddi'hun. Ond mae ein hadferiad cenedlaethol yn dal i fynd rhagddo. Mae'n sefyllfa fregus a gallai'r penderfyniadau anghywir wrthdroi hynny'n hawdd.

Felly'r cwestiwn canolog yn yr etholiad hwn yw: sut rydym yn cynnal ein hadferiad economaidd, y mae ein huchelgeisiau ar gyfer ein gwlad yn dibynnu arno? A sut rydym yn sicrhau bod yr adferiad o fudd i bob un o'n dinasyddion, ar bob cam o'u bywydau?

Mae'r Maniffesto hwn yn amlinellu ein cynllun i wneud hynny. Mae'n gynllun er dyfodol gwell - i chi a'ch teulu. Mae'n gynllun ar gyfer pob cam o'ch bywyd. I'ch baban bach newydd, bydd y gofal meddygol gorau yn y byd. I'ch plentyn, bydd lle mewn ysgol ragorol. Wrth i chi chwilio am eich swydd gyntaf, rydym yn creu economi iach sy'n cynnig gyrfa dda i chi ag incwm boddhaol. Wrth i chi chwilio am eich cartref cyntaf, byddwn yn sicrhau bod y Llywodraeth yno i'ch helpu. Wrth i chi fagu teulu, byddwn yn eich helpu gyda gofal plant. Wrth i chi fynd yn hŷn, byddwn yn sicrhau bod gennych urddas wrth ymddeol. Drwyddi draw, byddwn yn sicrhau, os byddwch chi neu eich teulu yn mynd yn sâl, y byddwch bob amser yn gallu dibynnu ar ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol annwyl i roi'r gofal gorau posibl i chi.

Ac, mewn byd sy'n fwyfwy peryglus ac ansicr, byddwn yn cyflawni dyletswydd fwyaf sylfaenol llywodraeth - amddiffyn ein gwlad a'i chadw'n ddiogel.

Ond mae'r holl bethau hyn yn dibynnu ar economi gref sy'n tyfu. Felly, wrth i chi ystyried sut i bleidleisio, gobeithio y byddwch yn gofyn y cwestiwn hwn: pa blaid sydd yn y sefyllfa orau i gadw ein heconomi yn gryf? Y tîm sy'n gyfrifol am yr economi hon sy'n tyfu a welwn heddiw, a wnaeth greu mwy o swyddi ers 2010 na'r Undeb Ewropeidd i gyd gyda'i gilydd; neu'r blaid a adawodd economi yn deilchion dim ond bum mlynedd fer yn ôl?

Nawr yw'r amser i adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud, nid ei roi yn y fantol. Mae'r Maniffesto hwn yn gynllun gweithredu - cynllun i fynd â'n gwlad wych ymhellach. Yn anad dim, mae'n gynllun i chi.

Gobeithio y byddwch yn ei gefnogi, fel ein bod, gyda'n gilydd, yn gallu gorffen y gwaith rydym wedi'i ddechrau.



## Y Ceidwadwyr Cymreig: Uchelgeisiol dros Gymru, cyflawni dros Gymru

Ar 7fed Mai, bydd pleidleiswyr ledled Cymru yn lleisio barn yn yr Etholiad Cyffredinol pwysicaf ers cenhedaeth. Ni fu mwy yn y fantol i'n cenedl erioed.

Bum mlynedd yn unig ar ôl i ni sefydlu Llywodraeth, mae Cymru wedi profi trowynt. Heddiw, mae ein heconomi yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw ran arall o'r DU y tu hwnt i Lundain. Mae'r buddsoddiad a wneir mewn busnesau yn uwch na'i anterth cyn y dirwasgiad ac mae 22,400 o fusnesau newydd wedi cael eu creu.

Mae pobl ledled Cymru yn dechrau gweld yr adferiad economaidd yn dwyn ffrwyth go iawn. Mae cyflogau'n cynyddu, mae mwy nag 1.2 miliwn yn fwy o bobl yn cadw mwy o'u henillion ac nid oes yn rhaid i 150,000 o'r rheini ar yr incymau isaf yng Nghymru dalu unrhyw dreth incwm mwyach. Mae mwy o blant yn tyfu i fyny gan weld model rôl yn mynd allan i weithio bob dydd ac mae miloedd yn fwy o deuluoedd yn cael budd o dawelwch meddwl a sicrwydd cyflog rheolaidd. Mae mwy i'w wneud o hyd, ond diolch i'r penderfyniadau anodd a chyfrifol a wnaed gennym i ailgydbwys ein heconomi nôl yn 2010, mae Cymru ar y trywydd iawn.

Ac felly mae dewis clir yn wynebu pobl Cymru fis Mai: aros gyda'r Ceidwadwyr Cymreig a'n cynllun hirdymor uchelgeisiol i Gymru sy'n gweithio, neu roi'r cyfan yn y fantol gydag anhrefn ac ansefydlogrwydd Llywodraeth Ed Miliband a gynhelir gan yr SNP.

Rydym yn gwybod beth mae'r Blaid Lafur yn ei olygu i Gymru. O dan 13 mlynedd o Lywodraethau Llafur esgeulus yn San Steffan a Bae Caerdydd, gwnaeth economi Cymru ddirywio: cynyddodd diweithdra'n sylweddol, dirywiodd busnesau a diwydiannau yng Nghymru ac aeth Cymru yn dlotach. Cymerodd y Blaid Lafur Gymru yn ganiataol a phobl Cymru a wnaeth ddioddef. Oherwydd, pan ddaw hi'n ben, nid yw Cymru byth yn golygu digon i'r Blaid Lafur.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi dangos pa mor gryf yw ein hymrwymiad i Gymru. Rydym wedi buddsoddi mwy o arian mewn prosiectau sealwaith mawr yng Nghymru nag erioed. Daethom ag uwchgynhadledd NATO ac uwchgynhadledd buddsoddi rhyngwladol i Gymru. Gwnaethom frwydro i drydaneiddio llinellau De Cymru a'r Cymoedd a gwnaethom amlinellu'r pecyn mwyaf cadarn ac uchelgeisiol o ddatganoli pellach i Gymru mewn cenhedaeth. Dro ar ôl tro, o ran y materion mawr sy'n bwysig i Gymru, dim ond siarad y mae'r Blaid Lafur yn ei wneud, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gweithredu.

Y Ceidwadwyr Cymreig sydd â'r record dda. Ni sydd â'r tîm. Ni sydd â'r weledigaeth a'r uchelgais. Y Maniffesto hwn yw ein cynllun i Gymru gan wir Blaid Cymru.

Dim ond y Ceidwadwyr Cymreig a all gyflawni'r cynllun hwn i sicrhau dyfodol Cymru. Gobeithio y byddwch yn aros gyda ni ac yn ein helpu i sicrhau bod Cymru yn cyflawni ei thynged i fod yn llwyddiant disgair.

*Stephen Crabb  
Andrew RT Davies AC*

Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb (dde) ac Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Andrew RT Davies AC (chwith).



## Economi gref i'ch helpu chi a'ch teulu

### Ein hymrwymiad i chi:

*Eich swydd, eich cartref, y morgais rydych yn ei dalu, yr ysgol y mae eich plant yn mynd iddi, eich ysbtyt lleol, eich pensiwn – mae pob un ohonynt yn dibynnu ar economi gref. Felly byddwn yn parhau i weithio drwy ein cynllun economaidd hirdymor er mwyn sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gweld budd yr adferiad economaidd. Byddwn yn:*

- *cadw ein heconomi'n ddiogel drwy sicrhau gwarged er mwyn i ni ddechrau talu ein dyledion*
- *cynyddu'r Lwfans Personol di-dreth i £12,500 a'r trothwy Treth Incwm 40c i £50,000*
- *ymrwymo i gadw TAW, cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Threth Incwm yn ddigfnewid*
- *atal achosion o efadu treth ac osgoi treth yn ymosodol a sicrhau bod y rheini sy'n gallu fforddio talu'r symiau mwyaf yn gwneud hynny*
- *ailgydbwys ein heconomi, fel bod Cymru yn llwyddiant economaidd disgair*
- *cyflawni ein huchelgais i fod yr economi fawr fwyaf ffyniannus yn y byd erbyn y 2030au.*

Ein cynllun economaidd hirdymor yw trawsnewid economi Prydain. Bum mlynedd yn ôl, roedd Prydain mewn sefyllfa fregus yn sgil Dirwasgiad Mawr y Blaid Lafur ac ni chafwyd effaith fwy ysgytvol nag yng Nghymru. Yn 2014, y DU oedd yr economi ddatblygedig fawr a oedd yn tyfu gyflymaf a Chymru oedd y rhan o'r DU a oedd yn tyfu gyflymaf y tu hwnt i Lundain. Bum mlynedd yn ôl, roedd y diffyg yn y gyllideb yn fwy na 10 y cant o gynnrych domestig gros (GDP), yr uchaf erioed yn ystod cyfnod o heddwch yma, ac roedd y ddyled genedlaethol yn mynd allan o reolaeth; heddiw, mae'r diffyg wedi haneru a bydd dyled fel cyfran o incwm cenedlaethol yn dechrau gostwng yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae diwydiannau yn cael eu hadfywio. Mae cwmniau yn camu i farchnadoedd newydd. Mae gweithgynhyrchwyr yn dychwelyd yma. Mae mwy o gwmniau technoleg yn cael eu sefydlu yma nag yn unman arall yn Ewrop ac mae Cymru yn meithrin enw da fel canolfan ragoriaeth o ran uwch dechnoleg. Mac'r DU wedi rhagori ar Ffrainc fel y cynhyrchwr ceir mwyaf namyn dau yn Ewrop ac, yng Nghymru, mae 22,400 yn fwy o fusnesau nag yn 2010, gan ddarparu swyddi a chreu cyfoeth ledled ein cenedl.

Yn lle'r Dirwasgiad Mawr, rydym bellach yn gweld yr Adfywiad Mawr, sy'n creu 1,000 o swyddi newydd bob dydd ar gyfartaledd: mwy na gweddill Ewrop gyda'i gilydd. Nid damwain mohoni. Mae'n ffrwyth gwaith caled pobl ym mhob rhan o'r wlad a llwyddiant ein cynllun economaidd hirdymor. Drwy haneru'r diffyg, rydym wedi helpu i adfer hyder yn yr economi. Drwy gadw disgyblaeth ariannol, rydym wedi helpu i gadw cyfraddau morgeisi yn is nag y byddent fel arall. A thrwy sefydlu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol, rydym wedi sicrhau - yn barhaol - na all gwleidyddion ffugio cyfrifon er budd gwleidyddol ar draul y wlad. Gyda chwyddiant ar ei lefel isaf erioed, mae rhagamcanion diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y bydd safonau byw yn uwch yn 2015 nag yn 2010 a bwriedir iddynt dyfu'n gryf bob blwyddyn am weddill y degawd gyda'r teulu cyffredin £900 yn well ei fyd. Dim ond drwy dyfu ein heconomi, ymdrin â'n dyledion a chreu swyddi y gallwn barhau i wella safonau byw. Mae hynny'n golygu glynw wrth ein cynllun economaidd hirdymor; mae Prydain ar y trywydd iawn, mae Cymru ar y trywydd iawn.

Oherwydd rydym yn gwybod nad yw cyflawni ffyniant economaidd gwirioneddol i Gymru ond yn golygu troi'r cloc yn ôl i'r cyfnod cyn y Dirwasgiad Mawr. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi mynd ati i ailgydbwys ein heconomi yn sylfaenol fel nad yw twf ond yn digwydd yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr fel yr oedd o dan y Blaid Lafur. Rydym yn uchelgeisiol dros Gymru ac mae gennym gynllun economaidd hirdymor i weld Cymru yn dod yn llwyddiant economaidd disgrair yn y Deyrnas Unedig. Drwy fuddsoddi yng Nghymru a hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang, rydym wedi helpu i sicrhau bod economi Cymru ar y trywydd iawn eto.

Ond nid yw'r dasg wedi'i chwblhau. Mae cymylau ar y gorwel rhwngwladol. Mae heriau mawr i'w hwynebu o hyd gartref. Rydym wedi torri'r diffyg mwyaf erioed a etifeddwyd gennym i 5 y cant o GDP, ond mae'n dal yn rhy uchel. Mae masnach y DU ag economiâu sy'n dod i'r amlwg i fyny, gydag allforion i Tsieina wedi mwy na dyblu ers 2009, ond, ar y cyfan, rydym yn dal i fod yn orddibynnol ar farchnadoedd Ewropeaidd araf eu twf. Mae buddsoddiad mewn busnesau yn cynyddu, ond rydym yn dal i danfuddsoddi o gymharu â gwledydd eraill. Mae cynhyrchiant yn rhy isel o hyd. Ac er bod ffyniant yn lledaenu ledled y wlad bellach, mae ein twf economaidd yn dal i fod yn anghytbwys ac yn orddibynnol ar wasanaethau ariannol.

Byddwn yn gorffen y dasg a ddechreuwyd gennym mewn ffordd gytbwys. Y rheini â'r ysgwyddau mwyaf llydan sydd wedi cyfrannu fwyaf at leihau'r diffyg - y rheswm pam mae anghydraddoldeb wedi lleihau a bod tloidi plant yn is - a byddant yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn rheoli gwariant, yn dileu'r diffyg, ac yn dechrau cynhyrchu gwarged. Byddwn yn mynd o fod yn y coch i fod yn y du unwaith eto. Drwy adeiladu ar y sylfeini rydym wedi'u gosod, byddwn yn gweld adferiad gwirioneddol genedlaethol ac yn gallu mynd ati i gyflawni ein huchelgais i sicrhau mai Prydain yw'r brif economi fwyaf ffyniannus yn y byd erbyn y 2030au.

Os na llynwn wrth ein cynllun economaidd hirdymor, byddwn yn llithro'n ôl eto, gan ddadwneud y cynnydd a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae mwy o fenthyca - a'r llog dyled ychwanegol sy'n deillio o hynny - yn golygu bod llai o arian ar gael i'w wario ar ysgolion ac ysbytai. Mae mwy o wario yn golygu trethi uwch i bobl sy'n gweithio'n galed, a chyfraddau llog sy'n uwch nag y

byddent fel arall - gan gosbi perchenogion tai, niweidio busnesau a rhoi swyddi yn y fantol.

A byddai methu â rheoli ein dyled yn fwy na methiant economaidd; byddai'n fethiant moesol - gan adael ein plant a'n hwyrion â dyledion na allent fyth eu had-dalu.

Felly mae gennych ddewis clir. Cymhwysedd economaidd, gyda David Cameron yn Brif Weinidog y DU, gan gyflawni ein cynllun economaidd hirdymor i Gymru. Neu anhhrefn economaidd o dan y Blaid Lafur, gyda threthi uwch, mwy o ddyled, dim cynllun i Gymru a dim cynllun i unioni'r sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus, creu swyddi na chreu economi fwy cadarn.

## Ein cynllun gweithredu:

### *Byddwn yn gorffen y gwaith drwy ddileu'r diffyg er mwyn cadw ein heconomi'n gadarn a chadw eich trethi a'ch taliadau morgais i lawr*

Mae ein cynllun economaidd hirdymor yn adlewyrchu ein gwerthoedd: ni ddylem ni, fel cenedl, fod yn cynyddu ac yn trosglwyddo lefelau anfforddiadwy o ddyled i'r genhedlaeth nesaf. Byddwn yn dileu'r diffyg mewn ffordd synhwyrol a chytbwys a fydd yn ein galluogi i barhau i wario mwy ar y GIG yn Lloegr a thorri Treth Incwm i 30 miliwn o weithwyr.

Mae ein cynllun i leihau'r diffyg wedi'i rannu'n ddwy. Bydd y rhan gyntaf yn ein gweld yn parhau i leihau gwariant y Llywodraeth 1 y cant y flwyddyn mewn termau real dros y ddwy flwyddyn ariannol lawn gyntaf yn y Senedd nesaf, yr un gyfradd â'r pum mlynedd diwethaf. Mae hynny'n golygu arbed £1 y flwyddyn am bob £100 y mae'r Llywodraeth yn ei wario. Nid ydym yn credu bod busnes na allai wneud hynny - ac nid ydym yn credu y dylai'r Llywodraeth, pan ei bod yn gwario eich arian, fod yn wahanol.

Er mwyn gwneud hynny, bydd angen £30 biliwn arall o gyfuno cyllidol dros y ddwy flynedd nesaf, ar ben y £120 biliwn a nodwyd ac a gyflawnwyd gennym eisoes yn ystod y Senedd hon. Byddwn yn dod o hyd i £13 biliwn o arbedion effeithlonrwydd adrannol, yr un gyfradd leihau ag yn y Senedd hon. Byddwn yn dod o hyd i £12 biliwn o arbedion lles, ar ben y £21 biliwn o arbedion a

gyflawnwyd yn y Senedd hon. A byddwn yn codi o leiaf £5 biliwn drwy barhau i drechu achosion o efadu treth ac osgoi treth a chynlluniau treth ymosodol, gan adeiladu ar y £7 biliwn o arbedion blynnyddol a gyflawnwyd gennym yn y Senedd hon. Mae'r £30 biliwn hwn o gyfuno pellach yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod dyledion yn parhau i leihau fel cyfran o GDP a chyflwyno cyllideb gyfredol strwythurol gytbwys yn 2017-18, gan gyflawni'r mandad ariannol newydd y gwnaeth y Senedd bleidleisio arno yn gynharach eleni.

Mae ein hymrwymiad yn mynd ymhellach na hyn. Nid yw cyllideb gyfredol gytbwys yn ddigon i gyflawni gostyngiad dibynadwy yn ein lefel o ddyled genedlaethol, sy'n dal i fod yn llawer rhy uchel mewn byd â heriau economaidd parhaus. Mae tystiolaeth ryngwladol a dadansoddiad y Trysorlys yn dangos mai'r unig ffordd o sicrhau bod ein heconomi yn aros yn gadarn yn y dyfodol yw dileu'r diffyg yn gyfan gwbl a dechrau cynnal gwarged. Byddai unrhyw beth yn llai na hynny yn anwybyddu gwersi'r gorffennol.

Dyna pam, ar ail gam ein cynllun i leihau'r diffyg gan ddechrau yn 2018-19, y byddwn yn symud i mewn i warged, gydag incwm y Llywodraeth yn fwy na'i gwariant am y tro cyntaf mewn 18 mlynedd. Mae hynny'n golygu y gallwn ddechrau talu ein dyledion yn iawn a lleihau graddau taliadau llog blynnyddol - gan sicrhau bod y DU yn llai agored i risgau pellach drwy drwsio'r to tra bod yr haul yn gwenu. Byddwn yn cyflawni hyn drwy barhau i reoli gwariant y Llywodraeth yn 2018-19, heb ei leihau mewn termau real mwyach ond ei gynyddu'n unol â chwyddiant yn lle hynny. Yng Nghymru, byddwn yn gosod terfynau gofalus ar ddyled newydd Llywodraeth Cymru er mwyn helpu'r DU i gynnal sefyllfa ariannol gref a sefydlog.

O 2019-20, ar ôl cyflawni gwarged, bydd gwariant yn tyfu yn unol â GDP. Bydd egwyddor sylfaenol newydd o ran polisi ariannol, a gaiff ei monitro gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol, yn sicrhau, mewn cyfnodau economaidd arferol, pan fo'r economi yn tyfu, y bydd y Llywodraeth bob amser yn cynnal gwarged er mwyn lleihau ein dyled genedlaethol a chadw ein heconomi'n gadarn, gyda gwladwriaeth nad yw'n llai nag sydd ei hangen arnom nac yn fwy nag y gallwn ei fforddio. Rhagwelir y bydd cyfanswm gwariant y Llywodraeth fel cyfran o'n hincwm cenedlaethol ar ddiweddu y Senedd nesaf fymryn yn uwch nag yn 2000, y flwyddyn cyn i'r Blaid Lafur golli pob rheolaeth o wariant pan ddechreuwodd

y ddyled genedlaethol gynyddu i'r graddau mwyaf a welwyd mewn cannoedd o flynyddoedd.

Rydym am ganolbwytio ar leihau gwariant gwastraffus, gwneud arbedion lles, a pharhau i atal achosion o efadu treth ac osgoi treth yn ymosodol. Mae hyn yn golygu y gallwn ymrwymo i beidio â chynyddu TAW, Treth Incwm nac Yswiriant Gwladol. Byddai cynyddu trethi gweithwyr yn niweidio ein heconomi, yn gostwng safonau byw ac yn rhoi swyddi yn y fantol. Yn lle hynny, wrth i ni leihau'r diffyg, byddwn yn torri Treth Incwm, fel yr ydym wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf: yn ystod y Senedd nesaf, byddwn yn cynyddu'r Lwfans Personol di-dreth i £12,500 a'r trothwy cyfradd uwch i £50,000 fel eich bod yn gallu cadw mwy o'ch arian haeddiannol.

### *Byddwn yn ailgydbwys ein heconomi er mwyn sicrhau bod Cymru yn llwyddiant economaidd disgrair*

Rydym yn benderfynol o gau'r bwlc rhwng perfformiad economaidd Cymru a gweddill y DU. Fel rhan o'n cynllun economaidd hirdymor i Gymru gyfan byddwn yn parhau i gefnogi cyfleoedd twf ledled y genedl, gan gynnwys y carchar mawr newydd yn Wrecsam, gorsaf ynni niwclear Wylfa ar Ynys Môn, prosiect y Morlyn Llanw yn Abertawe a'r Cynnig i Ddinasoedd newydd i Gaerdydd. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith a thrafnidiaeth yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cael budd o dwf Pwerdy Gogledd Lloegr. Byddwn yn parhau i roi hwyl i allforion o Gymru a mewnfuddsoddiad drwy'r UKTI, gan hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang.

### *Byddwn yn parhau i greu system fanci gryfach, mwy diogel a mwy cadarn sy'n gwasanaethu ei chwsmeriaid ac yn sicrhau bod busnesau yn cael yr arian sydd ei angen arnynt i dyfu a chreu swyddi*

Byddwn yn sicrhau mai ein diwydiant gwasanaethau ariannol yw'r un a reoleiddir orau yn y byd gyda'n system oruchwyliau newydd a arweinir gan Fanc annibynnol Lloegr. Bydd ein Pwyllgor Polisi Ariannol newydd yn monitro ac yn rheoli twf dyledusrwydd ac anghydbwysedd drwy'r economi gyfan - tasg hanfodol a gafodd ei hanwybyddu'n gyfan gwbl yn y cyfnod yn arwain at yr argyfwng ariannol. Bydd ein Hawdurdod Ymddygiad

Ariannol llym newydd yn diogelu defnyddwyr ac yn sicrhau bod marchnadoedd ariannol yn gweithio er budd yr economi gyfan. Er mwyn diogelu trethdalwyr sy'n gweithio'n galed rhag argyfngau bancio yn y dyfodol, byddwn yn gorffen y gwaith o glustnodi canghennau stryd fawr banciau o'u breichiau buddsoddi erbyn 2019 fan bellaf. Er mwyn sicrhau bod strwythurau cyflog newydd bancwyr yn ailennyn hyder ac yn lleihau agwedd fyrdymor, byddwn yn sicrhau bod Prydain yn parhau i weithredu'r gyfundrefn fwyaf llym o ran gohirio bonybau ac adfachu o blith unrhyw ganolfan ariannol. Byddwn yn parhau i werthu cyfranddaliadau'r Llywodraeth yn y banciau a'r cymdeithasau adeiladu a achubwyd er mwyn rhoi gwerth am arian i drethdalwyr a chefnogi'r economi. Gwnaeth trethdalwyr sy'n gweithio'n galed gefnogi'r banciau yn ystod yr argyfwng ariannol ac, felly, dylai'r banciau eu cefnogi nhw yn ystod yr adferiad - dyna pam y byddwn yn cadw'r ardoll banciau ac yn cyfyngu ar allu banciau sefydledig i dalu llai o deth drwy wrthbwys eu helw yn erbyn colledion blaenorol.

#### *Byddwn yn gwneud i'r banciau weithio i chi*

Ein cynllun yw sicrhau bod banciau yn helpu i gyflawni ein hadferiad a chefnogi busnesau i greu swyddi a chyflawni twf yn ein heonomi. Gwnaethom roi cap ar fenthycwyr diwrnod cyflog, ei gwneud yn haws i chi newid eich cyfrif banc a byddwn yn parhau i gefnogi undebau credyd wrth wneud gwasanaethau ariannol yn fwy hygyrch. Byddwn yn parhau â'r cynllun Cyllid i Fenthyc a llwyddiannus i mewn i 2016. Byddwn yn helpu banciau her newydd a phresennol i gyflwyno cystadleuaeth newydd i'r farchnad o ran cyfrifon cyfredol personol, morgeisi a benthyciadau busnes, gan gynnwys drwy'r British Business Bank, tra'n cefnogi'r chwyldro technoleg ariannol. Byddwn yn gwella'r

gefnogaeth a roddwn o ran buddsoddi mewn busnesau newydd ac yn cyflwyno ein cynllun Helpu i Dfyf arloesol, a fydd yn cau bwlc ariannol o £1 biliwn i gwmniâu sydd am ehangu, buddsoddi a chyflogi mwy o bobl.

#### *Byddwn yn parhau i arwain y byd o ran treth a thyloywder*

Mae trechu achosion o efadu treth ac osgoi treth a chynlluniau treth ymosodol yn rhan bwysig o'n cynllun economaidd hirdymor. Byddwn yn cynyddu'r taliadau treth blynnyddol a delir gan y rheini â statws dibreswyl, gan sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad teg i leihau'r diffyg, ac yn parhau i drechu achosion o gamddefnyddio'r statws hwn. Byddwn yn arwain ymdrechion rhyngwladol i sicrhau bod cwmniâu byd-eang yn talu eu cyfran deg o deth, fel y gwnaeth David Cameron yn Uwchgynhadledd yr G8 yn 2013 yng Ngogledd Iwerddon, a sicraodd grym gynnydd rhyngwladol o ran rheolau treth mwy teg, a thyloywder llawn o ran pwy sy'n berchen ar gwmniâu mewn gwirionedd.

Byddwn yn pwysu ar bob gwlad i ymuno â'r Fenter Tryloywder Diwydiannau Echdynol; yn adolygu'r broses o weithredu'r rheolau adrodd ar deth fusol gwlad rhyngwladol newydd, ac yn ystyried yr achos dros gyhoeddi'r wybodaeth hon ar sail amlochrog. Byddwn yn sicrhau bod gwledydd datblygol yn cael mynediad llawn i systemau cyfnewid gwybodaeth am deth awtomatig byd-eang ac yn parhau i feithrin capaciti awdurdodau treth mewn gwledydd datblygol. Rydym hefyd yn ei gwneud yn drosedd os bydd cwmniâu yn methu â chyflwyno mesurau i atal troedd economaidd, fel efadu treth, yn eu sefydliadau ac rydym yn sicrhau bod y sancsiynau yn ddigon mawr i'w cosbi a'u hatal.

## Gwell ffyrdd, trenau a chyfathrebu modern

#### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Rydych yn dibynnu ar seilwaith ar bob cam o'ch bywyd: i fynd i'r ysgol, i fynd i'r gwaith, i aros mewn cysylltiad â'ch wyrion. Mae gennym gynllun gweithredu ar gyfer newidiadau sy'n gwneud synnwyr cyffredin a fydd yn gwella eich ffyrdd, eich rheilffyrdd a'ch cysylltiadau rhyngrywd a ffonau symudol. Byddwn yn:*

- *buddsoddi mewn seilwaith er mwyn denu busnesau a swyddi da ledled Cymru*
- *buddsoddi yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cael budd o dwy y Pwerdy yng Ngogledd Lloegr*
- *gwneud eich bywyd yn haws, gyda mwy o drenau cyflymach, gwell ffyrdd a thollau rhatach*
- *cyflwyno band eang cyffredinol a gwell cysylltiadau ffonau symudol, er mwyn sicrhau bod pawb yn rhan o'r economi ddigidol.*

O dan y Blaid Lafur, ni fuddsoddwyd mewn ffyrdd na rheilffyrdd, ac arhosodd gormod ar ochr anghywir y rhaniad digidol. Roedd yr economi yn ofnadwy o unochrog o blaid Llundain a De-ddwyrain Lloegr ac roedd Cymru ar ei cholled. Mae'r gwaith o ddatrys y problemau hyn yn cymryd amser.

Ond am ein bod wedi gwneud arbedion mewn mannau eraill, rydym wedi llwyddo i wneud buddsoddiadau sylweddol yn y seilwaith hanfodol sydd ei angen ar Gymru. Rydym yn ariannu'r buddsoddiadau mwyaf mewn rheilffyrdd ers oes Fictoria, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni gwelliannau mawr i'n rhwydwaith ffyrdd ac rydym yn buddsoddi miliynau o bunnoedd er mwyn sicrhau bod band eang Cymru ymhli y cyflymaf yn Ewrop.

Ynghyd â chynnal gwarged, byddwn yn ymrwymo i gynyddu ein 'gwariant cyfalaf' - buddsoddi mewn seilwaith - o leiaf yn unol â'n hincwm cenedlaethol. Rydym wedi amlinellu cynllun i fuddsoddi dros £100 biliwn yn ein seilwaith dros y Senedd nesaf.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y seilwaith hanfodol sydd ei angen ar ein gwlod ac yn sicrhau bod Cymru yn parhau i gael budd o Fformiwlau Barnett ac ychwanegu cyllid gwaeladol.

#### **Ein cynllun gweithredu:**

*Byddwn yn gwario mwy ar seilwaith, er mwyn gwella eich ansawdd bywyd*

Ar y cyfan, bydd buddsoddiad cyhoeddus yn uwch ar gyfartaledd dros y degawd hwn, fel canran o GDP, nag o dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf dros y cyfnod i gyd. Byddwn yn cyflawni ein Cynllun Seilwaith Cenedlaethol ac yn ymateb i adroddiad terfynol y Comisiwn Meysydd Awyr.

*Byddwn yn trawsnewid ein rhwydwaith rheilffyrdd*

Byddwn yn buddsoddi £38 biliwn yn ein rhwydwaith rheilffyrdd dros y pum mlynedd hyd at 2019. Mae trydaneiddio'r rheilffyrdd yn rhan allweddol o'n raglen fuddsoddi a byddwn yn gorffen y gwaith o drydaneiddio prif linell y Great Western i Abertawe a llinellau'r Cymoedd. Byddwn hefyd yn cefnogi'r achos busnes dros drydaneiddio prif linell Gogledd Cymru, gan wella cysylltiadau ymhob rhan o'n cenedl a chysylltu Gogledd Cymru â'r ganolfan High Speed 2 newydd yn Crewe.



*Byddwn yn cefnogi modurwyr ac yn buddsoddi yn ein ffyrdd, er mwyn arbed amser ac arian i chi*

Gwnaethom ddiddymu cymal codi treth tanwydd y Blaid Lafur ac, yn ei le, rewi'r dreth tanwydd, gan arwain at rewi'r dreth am y cyfnod hiraf mewn 20 mlynedd. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni gwelliannau mawr i'r M4 a ffyrdd strategol eraill yng Nghymru, gan gynnwys yr A55 a'r A40. Byddwn yn gostwng y tollau ar Bont Hafren er mwyn lleddfu'r baich ar fusnesau bach a chefnogi gweithgarwch ar draws y ffin.

*Byddwn yn gwneud moduro yn wyrddach er mwyn diogelu eich amgylchedd*

Ein nod yw sicrhau bod bron pob car a fan yn gerbyd heb allyriadau erbyn 2050 - a byddwn yn buddsoddi £500 miliwn dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni hynny.

*Byddwn yn cyflwyno rhyngrywd cyflymach, er mwyn eich helpu i weithio a chyfathrebu'n haws*

Byddwn yn sicrhau bod band eang cyflym iawn yn cael ei gyflwyno mewn ardaloedd trefol a gwledig fel bod 95 y cant o'r DU wedi'i chysylltu erbyn diwedd 2017, a byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl drwy ddarparu cymhorthdal ar gyfer gosod gwasanaethau lloeren galluog cyflym iawn yn yr ardaloedd mwyaf anodd eu cyrraedd. Byddwn hefyd yn rhyddhau mwy o sbectwm o ddefnydd y sector cyhoeddus er mwyn rhoi gwell mynediad i'r sector preifat. Ac rydym wedi pennu uchelgais i fand eang cyflym iawn fod ar gael i bron pob eiddo yn y DU cyn gynted ag yw'n ymarferol.

*Byddwn yn gwella cysylltiadau ffonau symudol, fel eich bod yn gallu aros mewn cysylltiad*

Byddwn yn sicrhau bod gweithredwyr ffonau symudol yn glynw wrth eu cytundeb cyfreithiol-rwymol newydd i sicrhau bod gan 90 y cant o dirfas y DU gysylltiadau llais ac SMS erbyn 2017. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith ffonau symudol er mwyn darparu cysylltiadau galwadau llais a negeseuon testun ar gyfer y 0.3-0.4 y cant o eiddo'r DU sydd heb hynny ar hyn o bryd. Byddwn yn sicrhau bod Prydain yn achub ar y cyfle i arwain y byd wrth ddatblygu 5G, gan chwarae'r rôl allweddol wrth ddiffinio safonau'r diwydiant.



## Swyddi i bawb

### Ein hymrwymiad i chi:

*Ble bynnag y byddwch wedi cyrraedd yn eich bywyd - p'un a ydych yn chwilio am eich swydd gyntaf ar ôl gorffen yr ysgol, neu'n cyrraedd diwedd eich gyrrfa - byddwn yn gweithio i'ch helpu i fwynhau boddhad a gwobrau swydd foddaol. Byddwn yn:*

- **helpu busnesau i greu dwy filiwn o swyddi newydd, fel ein bod yn cyflawni cyflogaeth lawn**
- **rholi'r trethi mwyaf cystadleuol o blith unrhyw economi fawr i fusnesau.**

Os ydych am fyw yn y wlad fwyaf ffyniannus a dynamig yn y byd, yna mae'r etholiad hwn yn bwysig. Dim ond y Ceidwadwyr sydd â'r weledigaeth, yr optimistiaeth, yr uchelgais a'r ddisgyblaeth i drawsnewid Prydain. Y rheswm dros hynny yw ein bod yn gwybod mai swydd foddaol yw'r amddiffyniad gorau rhag tlodi a'r ffordd orau o roi sicrwydd i deuluoedd.

Diolch i lwyddiant ein cynllun economaidd hirdymor, mae Prydain yn creu mwy o swyddi na'r 27 o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd gyda'i gilydd. Mae hynny'n golygu bod gan fwy o bobl sicrwydd cyflog rheolaidd. Dros y pum mlynedd diwethaf, crëwyd 1.9 miliwn o swyddi newydd; 1000 o swyddi am bob diwrnod yr ydym wedi bod mewn Llywodraeth.

Mae hyn yn drawsnewidiad ym mywydau llawer o bobl; gan roi mwy o sicrwydd i deuluoedd; rhoi hwb i hunan-barch pobl ifanc a rhoi gobaith i'r sawl sydd wedi bod yn ddiwaith ers blynnyddoedd.

Ond mae angen i ni wneud mwy. Rydym wedi pennu nod uchelgeisol o gyflawni cyflogaeth lawn, gyda'r gyfradd cyflogaeth uchaf o blith unrhyw brif economi. Rydym am sicrhau mai Prydain yw'r lle gorau yn y byd i ddechrau busnes a byddwn yn creu dwy filiwn yn rhagor o swyddi dros gyfnod y Senedd nesaf. Byddwn yn dileu diweithdra hirdymor ymhliith pobl ifanc, ac yn sicrhau bod pob un ohonynt naill ai'n ennill cyflog neu'n dysgu. A byddwn yn gwneud ein heonomi yn fwy cynhwysol,

drwy ddileu rhwystrau sy'n atal menywod a phobl anabl rhag bod yn rhan o'n gweithlu.

I gyflawni hyn, byddwn yn cefnogi busnesau Prydain: dileu biwrocratiaeth, gostwng trethi ar swyddi a mentergarwch, cael pobl ifanc i mewn i waith a buddsoddi mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Gyda'r Ceidwadwyr, Prydain fydd y lle gorau yn Ewrop i arloesi, cyflwyno syniadau newydd a sefydlu ac ehangu busnes. Anelwn at fod ar y brig yn Ewrop ac yn y pump uchaf ledled y byd yn nhabl Gwneud Busnes Banc y Byd erbyn 2020 ac arwain Ewrop wrth ddenu buddsoddiad o dramor.

Mae cefnogi busnesau hefyd yn golygu cefnogi ein ffermwyr a'n cymunedau gwledig yng Nghymru. Wedi'u hesgeuluso am 13 o flynyddoedd gan y Blaid Lafur, rydym wedi dechrau mynd ati i hyrwyddo a chysylltu cefn gwlaid. Dros y blynnyddoedd i ddod, byddwn yn mynd ymhellach, gan helpu ein ffermwyr, cefnogi bwyd a diod o Gymru ledled y byd a chyflwyno marchnadoedd allforio newydd.

Mae hyn oll mewn perygl os mai'r Blaid Lafur fydd yn sefydlu'r Llywodraeth nesaf. Byddai ei pholisïau i wario mwy, benthyca mwy a threthu mwy yn ofnadwy i fusnesau Prydain - ac i'r holl deuluoedd a fyddai, unwaith eto, yn wynebu anobaith bod heb waith ac ansicrwydd ariannol.

## Ein cynllun gweithredu:

### *Byddwn yn eich helpu i gael swydd fodhaol*

Rydym eisoes wedi darparu 2.2 miliwn o brentisiaethau newydd dros y pum mlynedd diwethaf. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn darparu tair miliwn yn rhagor ac yn sicrhau eu bod yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr a byddwn yn helpu busnesau i greu dwy filiwn o swyddi, drwy barhau i helpu busnesau i greu 1,000 o swyddi yn ystod y Senedd nesaf. Rydym wedi diddymu'r dreth ar swyddi - cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr - i'r rheini sydd o dan 21 oed a'r flwyddyn nesaf byddwn yn gwneud yr un peth i brentisiaid ifanc o dan 25 oed. Byddwn yn parhau i helpu busnesau llai o faint i gyflogi gweithwyr newydd drwy'r Lwfans Cyflogaeth, sy'n rhyddhau busnesau rhag gorfol talu'r £2,000 cyntaf o gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr fel nad yw traean o gyflogwyr yn talu unrhyw dreth ar swyddi mwyach.

### *Byddwn yn anelu at ddileu diweithdra hirdymor ymhlið pobl ifanc*

Mae ein cynllun economaidd wedi helpu i gyflawni gostyngiadau sylweddol mewn lefelau diweithdra hirdymor ymhlið pobl ifanc, gan arwain at y lefelau isaf erioed o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Byddwn yn cefnogi'r bobl ifanc hynny sy'n 16 ac yn 17 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o hyd ynghyd â'r rheini sy'n wynebu risg o hynny. Bydd ymgynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i ategu cyngor gyrfaedd a darparu llwybrau i brofiad gwaith a phrentisiaethau. Ond nid yw'n deg - ar drethdalwyr nac ar bobl ifanc eu hunain - i bobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed heb unrhyw brofiad gwaith lithro'n syth i mewn i fywyd ar fudd-daliadau heb gyfrannu at eu cymunedau'n gyntaf. Felly, byddwn yn cyflwyno Gofynion Gwaith Diwrnod Un llymarch ar gyfer pobl ifanc sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith. Byddwn yn cyflwyno Lwfans Ieuencnid ym lle'r Lwfans Ceisio Gwaith i bobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed a fydd yn gyfyngedig i chwe mis. Ar ôl hynny bydd yn rhaid i bobl ifanc ddilyn prentisiaeth, cynllun hyfforddi neu wneud gwaith dyddiol yn y gymuned er mwyn cael eu budd-daliadau. Nid yw ychwaith yn deg bod yn rhaid i drethdalwyr dalu i bobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed sydd ar Lwfans Ceisio Gwaith hawlio Budd-dal Tai er

mwyn gadael gartref. Felly byddwn yn sicrhau nad oes ganddynt hawl awtomatig i gael Budd-dal Tai mwyach.

### *Byddwn yn gwobrwyd y entreprenoriaeth*

Er mwyn cefnogi swyddi, gwnaethom dorri Treth Gorfforaeth o 28 i 20 y cant yn ystod y Senedd a gostwng biliau Yswiriant Gwladol. Yn ystod y Senedd nesaf, rydym am gynnal y gyfundrefn trethi busnes fwyaf cystadleul yn yr G20, a gwirthwynebu cynlluniau'r Blaid Lafur i gynyddu Treth Gorfforaeth.

### *Byddwn yn eich diogelu rhag camau gweithredu diwydiannol annemocrataidd ac aflownyddol*

Dylai streiciau ond ddigwydd o ganlyniad i benderfyniad cadarnhaol a chlir yn seiliedig ar bleidlais lle mae o leiaf hanner y gweithlu wedi bwrw pleidla. Bydd y trothwy cynnull hwn yn gam pwysig a theg i ailgydbwys o buddiannau cyflogwyr, cyflogeon, y cyhoedd a hawliau undebau llafur. Yn ogystal, byddwn yn mynd i'r afael ag effaith anghymesur streiciau mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol drwy gyflwyno trothwy llymach ym meysydd iechyd, addysg, y gwasanaeth Tân a thrafnidiaeth. Byddai camau gweithredu diwydiannol yn y gwasanaethau hanfodol hyn yn gofyn am gefnogaeth o leiaf 40 y cant o'r rheini sydd â hawl i fwrw pleidla ar streic - yn ogystal â mwyafrif o'r rheini sy'n mynd ati i fwrw pleidla. Byddwn hefyd yn diddymu gwaharddiadau gwirion sy'n atal cyflogwyr rhag defnyddio staff asiantaeth i ddarparu gwasanaeth cyflenwi hanfodol adeg streic; ac yn sicrhau na all streiciau gael eu trefnu ar sail pleidleisiau a gynhalwyd flynyddoedd ynghynt. Byddwn yn mynd i'r afael ag achosion o fynglu gweithwyr nad ydynt yn cymryd rhan mewn streic; yn deddfu er mwyn sicrhau bod undebau llafur yn defnyddio proses gofrestru dryloyw ar gyfer tanysgrifio i undebau; yn tynhau'r rheolau sydd ynghlwm wrth 'amser cyfleuster' a delir a ariennir gan drethdalwyr ar gyfer cynrychiolwyr undebau; ac yn diwygio rôl y Swyddog Ardystio.

### *Byddwn yn dileu biwrocratiaeth ac yn rhoi hwb i fusnesau newydd a busnesau bach*

Y Llywodraeth hon oedd y cyntaf ers diwedd y rhyfel i leihau baich rheoliadau. Byddwn yn dileu £10 biliwn arall o fiwrocratiaeth yn ystod y Senedd nesaf drwy ein

Her Biwrocratiaeth a'n rheol Un i Mewn Dau Allan. Bydd hyn yn cefnogi ein nod o sicrhau mai Prydain yw'r lle gorau i wneud busnes yn Ewrop ac yn y pump uchaf ledled y byd erbyn 2020. Byddwn hefyd yn treblu ein rhaglen lwyddiannus, sef Benthyciadau i Fusnesau Newydd, yn ystod y Senedd nesaf fel bod 75,000 o entreprenoriaid yn cael y cyfle i fenthyca arian i sefydlu eu busnes eu hunain. Byddwn yn cynyddu'r targed ar gyfer cyfran BBaChau o broses gaffael llywodraeth ganolog i draean, yn atgyfnerthu'r Cod Taliadau Prydlon ac yn sicrhau bod holl gyflenwyr mawr y Llywodraeth yn ymuno â'r cynllun. Rydym eisoes wedi helpu busnesau bach drwy gynyddu'r Lwfans Buddsoddi Blynnyddol, lleihau baich cyfraith cyflogaeth drwy ein diwygiadau llwyddiannus i dribiwnlysoedd a chefnogi 27,000 o fentoriaid busnes newydd. Byddwn yn mynd ymhellach drwy sefydlu gwasanaeth Cymodi Busnesau Bach newydd er mwyn cyfryngu mewn anghydfodau, yn enwedig o ran taliadau hwyr. Mae'r broses o greu'r Swyddfa Symleiddio Treth (SST) yn 2010 wedi arwain at lawer o welliannau i system dreth y DU. Byddwn yn sefydlu'r SST yn barhaol ac yn ehangu ei rôl a'i chapasiti. Byddwn yn rhoi hwb i'n cefnogaeth i allforwyr tro cyntaf ac yn cefnogi ymgyrch GREAT er mwyn cyflawni ein nod o weld 100,000 yn fwy o gwmniau'r DU yn allforio yn 2020 nag yn 2010 a chyflawni ein targed o £1 triliwn o allforion. A byddwn yn pennu lefel barhaol, sylweddol uwch, newydd ar gyfer y Lwfans Buddsoddi Blynnyddol.

### *Byddwn yn ymladd dros gyfartal*

Y llynedd yn unig, daeth 140,000 o bobl anabl o hyd i waith. Ond mae'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer y grŵp hwn yn dal i fod yn rhy uchel ac, fel rhan o'n hamcan i gyflawni cyflogaeth lawn, byddwn yn anelu at haneru'r bwlc o ran cyflogi pobl anabl: byddwn yn trawsnewid polisiau, arferion ac agweddau'r cyhoedd, fel bod cannoedd ar filoedd yn fwy o bobl anabl sy'n gallu gweithio ac sydd am weithio yn dod o hyd i waith. Erbyn hyn mae gennym fwy o fusnesau a arweinir gan fenywod nag erioed o'r blaen, mwy o fenywod mewn gwaith nag erioed o'r blaen a mwy o fenywod sydd ar fyrrdau can cwmni'r FTSE nag erioed o'r blaen. Rydym am weld cydraddoldeb llawn a gwirioneddol rhwng y rhywiau. Mae'r bwlc cyflog rhwng y rhywiau ar ei isaf erioed, ond rydym am ei leihau ymhellach a byddwn yn gwthio busnesau i wneud hynny: byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gwmniau sydd â mwy na 250 o gyflogeon

i gyhoeddi'r gwahaniaeth rhwng cyfartalog y dynion a'r menywod a gyflogir ganddynt. O dan y Blaid Lafur, dim ond un o bob wyth o aelodau bwrdd can cwmni'r FTSE oedd yn fenywod. Maent yn cynrychioli chwarter aelodau bwrdd heddiw ac rydym am weld mwy o gynydd eto yn y Senedd nesaf. Rydym hefyd am gynyddu cyfran y penodiadau cyhoeddus a aiff i fenywod yn y Senedd nesaf, yn ogystal â nifer yr ASau sy'n fenywod.

### *Byddwn yn eich cefnogi yn y gwaith*

Nawr bod yr economi yn tyfu'n gryf eto, rydym wedi gweld y cynydd termau real cyntaf yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ers i Ddirwasgiad Mawr y Blaid Lafur ddechrau. Rydym yn gryf o blaid yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac am weld cynydd termau real pellach yn y Senedd nesaf. Rydym yn derbyn argymhellion y Comisiwn Cyflogau Isel y dylai'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol godi i £6.70 yr hydref hwn, gan anelu at Isafswm Cyflog a fydd yn fwy nag £8 erbyn diwedd y degawd. Rydym hefyd yn cefnogi'r Cyflog Byw a byddwn yn parhau i annog busnesau a sefydliadau eraill i'w dalu pryd bynnag y gallant ei fforddio. Byddwn hefyd yn cymryd camau pellach i ddileu achosion o gam-drin gweithwyr, fel peidio â thalu'r Isafswm Cyflog, detholusrwydd mewn contractau dim oriau a chamfanteisio ar weithwyr mudol.

### *Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwyddoniaeth, cefnogi ein strategaethau diwydiannol a sicrhau mai Prydain yw canolfan dechnoleg Ewrop*

Mae gwyddoniaeth dda yn werth chweil yn ei rhinwedd ei hun ac mae o fudd ymarferol enfawr hefyd - gwella afiechydon, sbarduno arloesedd technolegol, hyrwyddo buddsoddiad mewn busnesau a llywio polisiau cyhoeddus er gwell. Gwnaethom glustnod i'r gyllideb wyddoniaeth drwy wneud penderfyniadau anodd i leihau gwariant mewn meysydd eraill. Nawr byddwn yn buddsoddi cyfalafr newydd ar ei lefel uchaf erioed - £6.9 biliwn yn seilwaith ymchwil y DU hyd at 2021 - a fydd yn golygu cyfarpar newydd, labordai newydd a sefydliadau ymchwil newydd. Mae'r ymrwymiad hirdymor hwn yn cynnwys £2.9 biliwn ar gyfer Cronfa Heriau Mawr, a fydd yn ein galluogi i fuddsoddi mewn cyfleusterau ymchwil mawr o bwys cenedlaethol, fel Sefydliad newydd Alan Turing a



phrosiectau fel y Llong Ymchwil Begynol a'r Arae Cilomedr Sgwâr. Rydym wedi rhoi hwb i gredydau treth ymchwil a datblygu a byddwn yn parhau i gefnogi ein rhwydwaith o Barthau Menter Prifysgolion, gan sicrhau bod prifysgolion penigamp Prydain yn gallu gwneud arian o'r dechnoleg a ddatblygir ganddynt. Byddwn yn cefnogi ein strategaethau diwydiannol modern, fel ein strategaeth Gwyddorau Bywyd lwyddiannus, er mwyn helpu pobl i gystadlu ac ennill yn y ras fydd-eang ddwys am swyddi gwerth uchel, gwybodaeth uchel. Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor Moduro er mwyn cefnogi ein diwydiant ceir atgyfodol a chyfeirio mwy o adnoddau i'r Wyth Technoleg Fawr - gan gynnwys roboteg a nanodechnoleg - lle disgwylir i Brydain arwain y blaen yn fydd-eang. Rydym wedi cyflwyno rhwydwaith o ganolfannau catapwl - canolfannau ymchwil a datblygu yn nhechnolegau'r dyfodol - a byddwn yn creu mwy er mwyn sicrhau bod gennym arlwyr gadarn a chynhwysfawr i ymchwilwyr ac arloeswyr Prydain. Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn cael budd o chwyldro dechnolegol y DU drwy ystyried y potensial i gyflwyno canolfannau Catapwl yng Nghymru.

#### *Byddwn yn cefnogi'r economi wledig ac yn atgyfnerthu cymunedau lleol*

Mae gennym y tir, y dechnoleg a'r ddawn entrepreneuraid i'n galluogi i wneud y mwyaf o botensial economaidd ein hardaloedd gwledig. Byddwn yn helpu i sicrhau dyfodol ein cymunedau gwledig gwerthfawr yng Nghymru drwy wella seilwaith cyfathrebu a thrafnidiaeth. Ledled y DU, byddwn yn sicrhau bod gan ardaloedd gwledig fand eang cyflym iawn bron i gyd erbyn diwedd y Senedd nesaf a byddwn yn diogelu dyfodol 3,000 o Swyddfeydd Post gwledig.

#### *Byddwn yn hyrwyddo ein ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd*

Byddwn yn amlinellu gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol ffermio ym Mhrydain ac yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn datblygu cynllun 25 mlynedd i dyfu mwy, gwerthu mwy a phrynu mwy o fwyd o

Brydain. Byddwn yn caniatáu i ffermwyr esmwytho eu helw at ddibenion treth dros bum mlynedd, i fyny o'r ddwy flynedd gyfredol, er mwyn mynd i'r afael ag anwadalrwydd incwm. Byddwn yn pwysu am ddiwygiadau pellach i Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Byddwn yn hyrwyddo bwyd o Gymru dramor drwy sefydlu Uned Fwyd Prydain Fawr er mwyn helpu i bennu masnachfraint a hyrwyddo bwyd ylleol ledled y byd a chefnogi bwyd o Brydain gartref, drwy sicrhau bod holl adrannau llywodraeth ganolog yn prynu bwyd sy'n cyrraedd safonau cynhyrchu Prydeinig erbyn diwedd y Senedd. Byddwn hefyd yn helpu defnyddwyr i brynu bwyd o Brydain drwy bwysu am labelu gwlad tarddiad yn Ewrop, yn enwedig ar gyfer cynhyrchion llaeth, yn dilyn ein llwyddiant gyda chig eidion, cig oen, porc a dofednod. A byddwn yn hyrwyddo ein Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd newydd, fel bod ffermwyr yn cael tegwch gan yr archfarchadoedd.

#### *Byddwn yn cefnogi ein cymunedau pysgota ac arfordirol*

Byddwn yn amddiffyn ein diwygiadau i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin y brwydrwyd amdanynt, sy'n cynnwys rhoi diwedd ar yr arfer cywilyddus o daflu pysgod cwbl fwytadwy a diwygio'r system gwota fel bod pob rhywogaeth sydd mewn perygl, gan gynnwys penfras, lleden, corbenfras a draenog y môr, yn cael eu pysgota mewn ffordd gynaliadwy erbyn diwedd y Senedd nesaf. Byddwn yn parhau i ddatganoli'r broses o reoli pysgodfeydd Môr y Gogledd i gymunedau lleol ac yn ailgydbwysu cwotâu dŵr mewndirol y DU i gymunedau pysgota lleol, penodol, llai o faint.

#### *Byddwn yn cefnogi campau cefn gwlad*

Byddwn yn diogelu hela, saethu a physgota oherwydd yr holl fuddiannau i uniglion, yr amgylchedd a'r economi wledig sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn. Bydd Llywodraeth Geidwadol yn rhoi cyfreith i'r Senedd ddiddymu'r Ddeddf Hela ar sail pleidlais rydd, gyda bil llywodraeth yn amser y Llywodraeth.



## Torri eich trethi, gwneud lles yn decach a rheoli mewnfudo

### Ein hymrwymiad i chi:

*Ein nod yw gwlad sydd, nid yn unig yn gwobrwo'r sawl sy'n gweithio'n galed ac yn gwneud y peth iawn, ond sy'n rhoi'r cyfle i bawb - waeth beth fo'u cefndir - gyflawni eu potensial. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni roi ein rhaglen ddiwygio fawr ar gyfer treth a lles ar waith. Byddwn yn:*

- **torri treth incwm i 30 miliwn o bobl** a sicrhau nad oes unrhyw un sy'n ennill llai na £12,500 yn talu Treth Incwm o gwbl
- **pasio deddf newydd fel nad oes unrhyw un sy'n gweithio 30 awr ar yr Isafswm Cyflog yn talu Treth Incwm ar yr hyn mae'n ei ennill**
- **cefnogi uchelgais drwy godi'r trothwy treth o 40c** - er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un sy'n ennill llai na £50,000 yn ei dalu
- **capiro gwariant cyffredinol ar les, lleihau'r swm o fudd-daliadau y gall unrhyw aelwyd eu cael i £23,000 a pharhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol, er mwyn sicrhau bod gwaith yn talu.**

O dan y Blaid Lafur, roedd y rhai a oedd yn gweithio'n galed yn gweld bod mwy a mwy o'u henillion yn diflannu mewn treth er mwyn cefnogi system les a oedd yn caniatáu i bobl, a hyd yn oed yn eu hannog, i ddewis budd-daliadau pan allent fod yn ennill bywoliaeth. Anfonodd hyn negeseuon ofnadwy: drwy wneud y peth iawn roedddech yn cael eich cosbi ond drwy wneud y peth anghywir roedddech yn cael eich gwobrwo, gydag annhegwrch yr holl beth yn cythruddo pobl a oedd yn gweithio'n galed.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi torri trethi pobl lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym wedi cynyddu'r Lwfans Personol di-dreth o £6,475 i £10,600: mae mwy na 26 miliwn o bobl bellach yn cadw mwy o'u harian haeddiannol ac nid yw tair miliwn o'r rheini sy'n ennill y swm lleiaf o arian yn talu unrhyw Dreth Incwm o gwbl. Credwn mai torri trethi pobl yw'r peth iawn i'w wneud - nid dim ond am mai eich arian chi ydyw, ond hefyd am mai torri trethi'r rheini sy'n ennill y swm lleiaf o arian a'u helpu i sefyll ar eu traed eu hunain yw'r ffordd fwyafrifeithiol o drechu tlodi.

Mae tegwch gwirioneddol yn golygu, lle na all pobl weithio go iawn, rhaid iddynt gael eu cefnogi - ond lle gallant weithio, dylent wneud hynny. Rydym wedi gwneud newidiadau mawr eu hangen i'n system les. Rydym wedi capio budd-daliadau fel na all unrhyw aelwyd gael mwy mewn budd-daliadau allan o waith na'r hyn y mae'r aelwyd gyffredin yn ei ennill. Rydym wedi dechrau cyflwyno Credyd Cynhwysol - ffordd o symleiddio budd-daliadau yn un taliadengl - fel bod gwaith bob amser yn talu. Rydym yn ailasesu'r rheini ar fudd-daliadau analluogrwydd fel bod y rhai sydd wr ei angen yn cael help. Mae nifer yr aelwydydd heb waith wedi lleihau mwy na 46,000 yng Nghymru ers yr etholiad diwethaf, mae anghydraddoldeb i lawr, ac mae tlodi ymhliith pensiynwyr ar ei lefel isaf erioed bron.

Yn y Senedd nesaf, byddwn yn parhau i wobrwo gwaith caled. Byddwn yn parhau i wobrwo gwaith caled: cynyddu'r Lwfans Personol di-dreth fel nad yw'r sawl sy'n gweithio 30 awr ar yr Isafswm Cyflog yn talu unrhyw Dreth Incwm o gwbl a sicrhau nad yw pobl sy'n gweithio'n galed yn y band treth cyfradd uwch o 40c, y bwriadwyd iddo fod ar gyfer pobl gyfoethog yn unig yn wreiddiol. A byddwn yn gwreddu ein rhaglen diwygio

lles, gan ostwng y cap ar fudd-daliadau a chyflwyno  
Credyd Cynhwysol, er mwyn gwneud y system yn  
decach a gwobrwo gwaith caled.

## Ein cynllun gweithredu:

### *Byddwn yn gwobrwo gwaith*

Ni fydd Llywodraeth Geidwadol yn cynyddu cyfraddau TAW, Treth Incwm nac Yswiriant Gwladol yn y Senedd nesaf. Yn hytrach, byddwn yn lleddfu baich trethiant drwy gynyddu'r Lwfans Personol di-dreth - y swm y gallwch ei ennill cyn dechrau talu treth - i £12,500. Bydd hyn yn torri Treth Incwm i tua 1.3 miliwn o bobl yng Nghymru ac ni fydd angen i unrhyw un sy'n ennill llai na £12,500 ei dalu o gwbl. Felly, erbyn diwedd y degawd, ni fydd tua 60,000 ychwanegol o bobl yng Nghymru yn talu unrhyw Dreth Incwm yn ôl yr amcangyfrif, ac ni fydd y sawl sy'n gweithio 30 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol uwch yn talu unrhyw Dreth Incwm o gwbl mwyach. Byddwn yn pasio cyfraith newydd fel bod y Lwfans Personol yn codi'n awtomatig yn unol â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Bydd y gyfraith newydd o ran Isafswm Cyflog Di-dreth yn gymwys o'r Gyllideb gyntaf ar ôl yr Etholiad Cyffredinol. Bydd y newid yn diweddar uchydiant 'Rooker-Wise' 1977 a wnaeth orfodi'r Llywodraeth i uwchraddio trothwyon treth yn unol â chwyddiant, gan olygu y bydd y Lwfans Personol yn cynyddu'n gyflymach nawr.

### *Byddwn yn gwobrwo eich uchelgais*

Dim ond y bobl fwyaf cefnog yn ein gwlad oedd i fod talu'r gyfradd dreth o 40c. Ond, dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, mae llawer gormod o bobl wedi'u cynnwys ynddi. Rydym eisoes wedi cyhoeddi cynnydd uwchlaw chwyddiant yn y trothwy'r flwyddyn nesaf. Nawr byddwn yn codi'r trothwy treth o 40c grym dipyn yn fwy, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw un sy'n ennill llai na £50,000 yn talu'r gyfradd uwch o Dreth Incwm. Ledled y DU, ni fydd yr 800,000 o bobl sy'n ennill rhwng £42,385 a £50,000 yn talu'r gyfradd dreth o 40c mwyach.

### *Byddwn yn eich cefnogi wrth i chi fagu eich teulu*

Byddwn yn eich cefnogi, p'un a ydych yn dewis gweithio neu aros gartref i fagu eich plant. Byddwn yn cefnogi sefydliad priodas yn ein cymdeithas, gan alluogi parau priod i drosglwyddo £1,060 o'u hincwm di-dreth i'w gŵr neu wraig, lle mae'r sawl sy'n ennill y mwyaf yn drethdalwr cyfradd sylfaenol. Mae hyn yn gymwys i bartneriaethau sifil hefyd, a bydd y swm trosglwyddadwy bob amser yn cynyddu yn unol â'r Lwfans Personol o leiaf. A byddwn yn helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd ac ymdopi â phwysau bywyd modern drwy barhau i fuddsoddi o leiaf £7.5 miliwn y flwyddyn mewn cymorth cydberthnasau.

### *Byddwn yn capio gwariant cyffredinol y DU ar les, er mwyn arbed arian i chi*

Byddwn yn cadw llygad ar y cynnydd mewn gwariant ar les, gan ein galluogi i ddarparu system sy'n deg i'r rhai sydd ei hangen, ac yn deg i'r rhai sy'n talu amdani hefyd. Bydd ein cap cyffredinol ar les yn cyfyngu ar y swm y gall llywodraeth ei wario ar rai budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn y pum mlynedd o 2015-16. Byddwn yn rhewi budd-daliadau oedran gweithio am ddwy flynedd o fis Ebrill 2016, gydag eithriadau o ran budd-daliadau i bobl anabl a phensiynwyr - fel sydd ar hyn o bryd - yn ogystal â lwfans mamolaeth, taliad mamolaeth statudol, taliad tadolaeth statudol, taliad mabwysiadu statudol a thaliad salwch statudol. Byddwn yn cyflwyno Credyd Cynhwysol, er mwyn cynnig y cymhellion cywir i bobl weithio; targedu cymorth i'r sawl sydd ei angen fwyaf; lleihau twyll a gwallau; a symleiddio'r broses o weinyddu'r system les. Byddwn yn gweithio i ddileu tlodi plant ac yn cyflwyno gwell mesurau i wneud newid gwirioneddol i fywydau plant, drwy gydnabod achosion sylfaenol tlodi: diweithdra sydd wedi ymwriddio, teuluoedd sy'n chwalu, problemau dyledion a dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol.

### *Byddwn yn lleihau'r cap ar fudd-daliadau aelwydydd er mwyn gwneud y system yn decach*

Byddwn yn gostwng yr uchafswm y gall aelwyd ei hawlio mewn budd-daliadau bob blwyddyn o £26,000 i £23,000 fel ein bod yn gwobrwo gwaith. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y rheini sy'n cael Lwfans Byw

i'r Anabl neu'r Taliad Annibyniaeth Bersonol yn cael eithriadau i'r cap.

### *Byddwn yn eich helpu yn ôl i mewn i waith os oes gennych gyflwr hirdymor ond y gellir ei drin*

Byddwn yn sicrhau bod y rhai mwyaf anodd i'w helpu yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywyd bodlon. Byddwn yn adolygu'r ffordd orau o gynorthwyo'r sawl sy'n dioddef cyflyrau hirdymor ond

y gellir eu trin, fel bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol, neu fod yn ordew, yn ôl i mewn i waith. Dylai pobl a allai gael budd o driniaeth gael y cymorth meddygol sydd ei angen arnynt fel y gallant ddychwelyd i'r gwaith. Os byddant yn gwrthod triniaeth a argymhellir, byddwn yn ystyried gostwng eu budd-daliadau. Byddwn hefyd yn rhoi cryn dipyn o cymorth newydd ar gyfer iechyd meddwl, a fydd yn helpu miloedd o bobl sy'n hawlio budd-daliadau allan o waith neu'n cael cymorth Ffit i Weithio.

## Rheoli mewnfudo sydd o fudd i Brydain

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Bydd ein cynllun i reoli mewnfudo yn eich rhoi chi, eich teulu a phobl Prydain yn gyntaf. Byddwn yn lleihau nifer y bobl sy'n dod i'n gwlad drwy gyflwyno amodau lles newydd llym a chamau gorfodi cadarn. Byddwn yn:*

- ***cadw ein huchelgais i gyflawni ymfudo net blynyddol yn y degau ar filoedd, nid y cannoedd ar filoedd***
- ***rheoli ymfudo o'r Undeb Ewropeaidd drwy ddiwygio rheolau lles***
- ***rhoi pen ar fewnfudo anghyfreithlon a chamdefnyddio'r Isafswm Cyflog***
- ***gwella diogelwch ein ffiniau ac atgyfnerthu'r gwaith o orfodi rheolau mewnfudo***
- ***datblygu cronfa i leddfu'r pwysau ar ardaloedd lleol a gwasanaethau cyhoeddus.***

Mae'r Ceidwadwyr yn credu mewn rheoli mewnfudo, nid mewnfudo torfol. Mae mewnfudo o fudd gwirioneddol i Brydain - i'n heonomi, i'n diwylliant ac i'n bywyd cenedlaethol. Byddwn bob amser yn blaidd sy'n agored, yn eangfrydig ac yn croesawu pobl o bob cwr o'r byd. Gwyddom hefyd fod yn rhaid i fewnfudo gael ei reoli. Pan fo mewnfudo allan o reolaeth, mae'n rhoi pwysau ar ysgolion, ysbytai a thrafnidiaeth; a gall achosi pwysau cymdeithasol os bydd cymunedau yn ei chael hi'n anodd integreiddio.

Rhwng 1997 a 2009, o dan y Llywodraeth Lafur diwethaf, gwelodd Prydain y mewnlifiad mwyaf erioed

o bobl. Gwnaeth ei pholisi ffiniau agored, ynghyd â'i methiant i ddiwygio lles, olygu, am flynyddoedd, mai gwladolion tramor oedd i gyfrif am fwy na 90 y cant o dwf cyflogaeth yn y wlad hon - er bod 1.4 miliwn o bobl a wnaeth dreulio'r rhan fwyaf o'r 2000au yn byw ar fudd-daliadau allan o waith. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio i drawsnewid y sefyllfa a etifeddwyd gennym.

Ers 2010, rydym wedi atal mwy nag 850 o golegau ffug rhag cael noddi myfyrwyr o dramor; wedi cyflwyno systemau gwirio wrth adael cywir ar ein ffiniau; wedi torri i lawr ar weithwyr anghyfreithlon a phriodasau

ffug; wedi ei gwneud yn fwy anodd i bobl fyw yn y DU yn anghyfreithlon, drwy gyfngu ar eu mynediad i gyfrifon banc, trwyddedau gyrru a thai preifat; ac wedi lleihau nifer y llwybrau apelio er mwyn atal pobl rhag arafu ein llysoedd ag ymdrechion annilys i aros yn y wlad. Mae hyn oll wedi gwneud gwahaniaeth. Mae cyfraddau mewnfudo o'r tu hwnt i'r UE wedi gostwng ers 2010.

Rydym wedi gweld llawer mwy o bobl o'r UE yn dod i Brydain na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, yn bennaf am fod ein heconomi wedi bod yn tyfu yn llawer cyflymach ac yn creu mwy o swyddi na'r holl wledydd eraill yn yr UE gyda'i gilydd. O ganlyniad, ni fu'r camau a gymerwyd gennym yn ddigon i ostwng cyfraddau ymfudo net blynnyddol i'r degau ar filoedd. Yr uchelgais honno yw'r un gywir o hyd. Ond, mae'n amlwg yn mynd i gymryd mwy o amser, mwy o waith a mwy o benderfyniadau hirdymor anodd i'w chyflawni. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i barhau â'r gwaith hanfodol hwn dros y pum mlynedd nesaf.

Byddwn yn negodi rheolau newydd â'r UE, fel y bydd yn rhaid i bobl fod yn ennill yma am sawl blwyddyn cyn y gallant hawlio budd-daliadau, gan gynnwys y credydau treth sy'n cynyddu cyflogau isel. Yn lle rhywbeth am ddim, byddwn yn creu system sy'n seiliedig ar yr egwyddor rhywbeth am rywbeth. Yna, byddwn yn cynnig y newidiadau hyn i bobl Prydain ar ffurf refferendwm syml mewnn-allan ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd 2017. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i atgyfnerthu ein ffiniau, yn gwella'r broses o orfodi ein cyfreithiau mewnfudo ac yn gweithredu er mwyn sicrhau bod pobl yn gadael ar ddiwedd eu fisâu. Ar draws y sbectwm, o'r llwybr i fyfyrwyr i'r llwybrau i deuluoedd a gwaith, byddwn yn creu system sy'n eich rhoi chi, eich teulu a phobl Prydain yn wirioneddol gyntaf.

## Ein cynllun gweithredu:

### *Byddwn yn ailreoli ymfudo o'r UE drwy ddiwygio rheolau lles*

Bydd newidiadau i les er mwyn gostwng lefelau ymfudo o'r UE yn gwbl ofynnol wrth ailnegodi. Rydym eisoes wedi gwahardd budd-dal tai i geiswyr gwaith o'r UE ac wedi

cyfngu ar fudd-daliadau eraill, gan gynnwys y Lwfans Ceisio Gwaith. Byddwn yn mynnu bod yn rhaid i ymfudwyr o'r UE sydd am hawlio credydau treth a budd-dal plant fwy yma a chyfrannu at ein gwlaid am bedair blynedd o leiaf. Bydd hyn yn lleihau'r cymhelliant ariannol i weithwyr llai medrus, sydd ar gyflogau is, ddod i Brydain. Byddwn yn cyflwyno gofyniad preswylio newydd o ran tai cymdeithasol, fel na all ymfudwyr o'r UE hyd yn oed gael eu hystyried am dî cyngor oni bai eu bod wedi bod yn byw mewn ardal am bedair blynedd o leiaf. Os bydd plentyn ymfudwr o'r UE yn byw dramor, yna ni ddylai gael unrhyw fudd-dal plant na chredyd treth plant, ni waeth pa mor hir y mae wedi gweithio yn y DU na faint o dreth a dalwyd ganddo. Er mwyn lleihau nifer yr ymfudwyr o'r UE sy'n dod i Brydain, byddwn yn atal ceiswyr gwaith o'r UE rhag hawlio unrhyw fudd-daliadau ceisio gwaith. Ac os na fydd ceiswyr gwaith wedi dod o hyd i swydd o fewn chwe mis, gofynnir iddynt adael.

### *Byddwn yn trechu troseddoldeb a chamddefnyddio symudiad rhydd*

Byddwn yn cynnal trafodaethau â'r UE er mwyn cyflwyno pwerau cryfach i allgludo troseddwr a'u hatal rhag dychwelyd, a gwaharddiadau llymach a hirach rhag dychwelyd i'r sawl sy'n camddefnyddio symudiad rhydd. Rydym am wneud gofynion i'r sawl nad ydynt yn hanu o'r UE sy'n briod â dinasyddion o'r UE ac am ymuno â hwy yn llymach, gan gynnwys trothwy incwm a phrawf iaith Saesneg. A phan fydd gwledydd newydd yn ymuno â'r UE yn y dyfodol, byddwn yn mynnu na all symudiad rhydd fod yn gymwys i'r aelodau newydd hynny nes i'w heconomiâu gydblethu'n llawer agosach ag Aelod-wladwriaethau presennol.

### *Byddwn yn parhau i dorri mewnfudo o'r tu allan i'r UE*

Rydym eisoes wedi capio'r lefel o ymfudo economaidd medrus o'r tu allan i'r UE. Byddwn yn rhewi ein cap ar 20,700 yn ystod y Senedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ond yn rhoi fisâu i'r rhai sydd â'r sgiliau sydd wir eu hangen arnom yn ein heconomi. Byddwn yn diwygio'r system fisa i fyfyrwyr â mesurau newydd i drechu camddefnydd ac yn lleihau nifer y myfyrwyr sy'n aros ar ôl i'w fisa ddod i ben. Bydd ein camau gweithredu yn cynnwys rhoi pen ar nifer y 'campysau lloeren' fel y'u gelwir a agorir yn Llundain gan brifysgolion a leolir

mewn rhannau eraill o'r DU, ac adolygu'r system noddi ddibynadwy ar gyfer fisâu i fyfyrwyr. Ac, fel y bydd cyflwyno system gwirio wrth adael yn ein galluogi i roi mwy o gyfrifoldeb ar noddwyr fisa dros ymfudwyr sy'n aros yn rhy hir, byddwn yn cyflwyno sancsiynau sydd wedi'u targedu ar gyfer y colegau neu'r busnesau hynny sy'n methu â sicrhau bod ymfudwyr yn cydymffurfio â thelerau eu fisa.

### *Byddwn yn atgyfnerthu'r broses o orfodi rheolau mewnfudo*

Rydym wedi cyflwyno rheol 'allgludo gyntaf, apelio wedyn' i droseddwyr sy'n wladdolion tramor. Byddwn nawr yn allgludo hyd yn oed fwy o fevnfudwyr anghyfreithlon drwy ymestyn y rheol hon i bob apêl gan fevnfudwyr ac adolygiad barnwrol, gan gynnwys lle mae'r hawl a elwir yn hawl i fywyd teuluol dan sylw, ar wahân i geisiadau am loches. Byddwn hefyd yn gweithredu strategaeth symud newydd er mwyn dileu cyfleoedd i gyflwyno her gyfreithiol annilys a ffoi. Byddwn yn cyflwyno system olrhain loeren ar gyfer pob troseddwr sy'n wladdolyn tramor ac yn destun gorchymyn allgludo neu achos allgludo. A byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord gadarnhau statws mewnfudo eu tenantiaid.

### *Byddwn yn trechu'r arfer o fasnachu mewn pobl a chamfanteisio arnynt*

Rydym eisoes wedi ailgyflwyno system gwirio wrth adael gywir ledled y wlad, pasio Deddf Caethwasiaeth Fodern a wnaiff ddiogelu pobl rhag i eraill gamfanteisio arnynt a phedwaru'r dirwyon a gaiff cyflogwyr diegwyddor sy'n talu cyflogau sy'n is na'r Isafswm Cyflog. Nawr byddwn yn cyflwyno rheoliad marchnad lafur mwy llym er mwyn trechu gweithio anghyfreithlon a chamfanteisio. Er mwyn lleihau nifer yr achosion o weithio'n anghyfreithlon ymhellach, byddwn yn defnyddio data gan sawl asiaeltaeth, gan gynnwys data Gwirio wrth Adael, er

mwyn nodi mewnfudwyr anghyfreithlon a busnesau sy'n cyflogi gweithwyr anghyfreithlon. Ac, er mwyn cymell camau llymach yn erbyn cyflogwyr nad ydynt yn talu'r Isafswm Cyflog, byddwn yn caniatáu i dimau arolygu ailfuddsodi mwy o'r arian a godir drwy ddirwyd cyflogwyr.

### *Byddwn yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a'ch cymuned leol*

Rydym yn cymryd camau nas gwelwyd eriod o'r blaen i drechu twristiaeth iechyd, a byddwn yn adenill hyd at £500 miliwn gan ymfudwyr sy'n defnyddio'r GIG erbyn canol y Senedd nesaf. Er mwyn helpu cymunedau sy'n profi lefelau uchel ac annisgwyl o fewnfudo, byddwn yn cyflwyno Cronfa newydd i Reoli Ymfudo er mwyn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau a thalu am gamau gorfodi ychwanegol o ran mewnfudo. Er mwyn atal sectorau rhag dibynnu ar weithwyr o dramor yn rhannol neu'n gyfan gwbl, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i sectorau sy'n defnyddio'r Rhesr Prinder Galwedigaethol, lle gallant ddod â gweithwyr medrus o dramor i'r DU, ddarparu cynlluniau hirdymor ar gyfer hyfforddi gweithwyr Prydeinig.

### *Byddwn yn hyrwyddo integreiddio a gwerthoedd Prydeinig*

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn rhan annatod o integreiddio i mewn i'n cymdeithas. Rydym wedi cyflwyno profion iaith newydd llym i ymfudwyr ac wedi sicrhau bod cynghorau yn gwario llai o arian ar wasanaethau cyfieithu. Nesaf, byddwn yn deddfu er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ac yn delio â chwsmeriaid yn siarad Saesneg yn rhugl. Ac, er mwyn annog gwell integreiddio yn ein cymdeithas, byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n dod i Brydain ar fisa teuluol ac sydd â sgiliau Saesneg sylfaenol yn unig ddod yn fwy rhugl dros amser, gyda phrofion iaith newydd i'r rhai sydd am ymestyn eu fisa.



## Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'ch plentyn

### Ein hymrwymiad i chi:

*Cred y Ceidwadwyr Cymreig fod pobl ifanc yng Nghymru yn haeddu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Yng Nghymru, y Llywodraeth Lafur sy'n gyfrifol am bolisiau addysg. Ar ôl 16 mlynedd dan reolaeth y Blaid Lafur yng Nghymru, mae'r system addysg yno wedi disgyn i lawr y tablau cynghrair rhyngwladol. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r system addysg yng Nghymru:*

- *adfer enw da Cymru am ragoriaeth ym maes addysg*
- *sicrhau bod gan blant yng Nghymru y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gystadlu yn y ras fyd-eang*
- *byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ariannu ysgolion yng Nghymru yn uniongyrchol, gan rymuso rhieni, athrawon a llywodraethwyr*
- *cefnogi athrawon yng Nghymru*
- *cefnogi ein prifysgolion o'r radd flaenaf yng Nghymru.*

Mae pobl ifanc yng Nghymru yn haeddu addysg ragorol, ond maent yn cael eu siomi gan y Blaid Lafur. Ar lefel ryngwladol, mae'r system addysg yng Nghymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU ac mae busnesau yng Nghymru yn pryderu bod gormod o fyfyrwyr yn gadael yr ysgol heb y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi cyfaddef ei bod wedi methu o ran addysg yng Nghymru. Dywedodd iddi fod yn esgeulus, ond nid yw'n cymryd unrhyw gamau i wella'r system o hyd.

Mae hyn yn annerbyniol ym marn y Ceidwadwyr Cymreig. Credwn fod eich plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd. Nid yw addysg dda yn beth moethus, dylai pawb fod â hawl i'w chael, ni waeth ble rydych yn byw. Mae addysgu ein cenhedlaeth nesaf yn gywir yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol Cymru, ac mae'n rhan hollbwysig o'n cynllun economaidd hirdymor.

Mae ein diwygiadau pellgyrhaeddol ym maes addysg wedi trawsnewid addysg yn Lloegr er gwell ac rydym am weld yr un gwellianau yn digwydd yng Nghymru. Heddiw, mae miliwn yn fwy o ddisgyblion mewn ysgolion 'da' neu 'ragorol' yn Lloegr. Mae mwy na mil o ysgolion a gafodd radd 'annigonol' bellach yn Academiâu, gan

gyflwyno arweinyddiaeth newydd i hyrwyddo disgyblaeth, trylwyredd a safonau uwch.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymrwymedig i adfer enw da Cymru am ragoriaeth addysgol. Byddem yn diwygio'r system addysg yng Nghymru, fel yr ydym wedi'i wneud yn Lloegr, fel y gall disgyblion yng Nghymru fanteisio ar yr un cyfleoedd gwaith a bywyd â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU.

### Ein cynllun gweithredu:

Nid ydym am i Gymru fod ar ei hôl hi o ran perfformiad addysgol o gymharu â Lloegr a gweddill y DU. Yno, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau addysg. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn cyflwyno cynigion i ddiwygio'r system addysg yng Nghymru.

#### *Byddem yn adfer enw da Cymru am ragoriaeth ym maes addysg*

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol â'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen arnynt i ymdopi yn y gweithle.

Byddem yn cyflwyno'r rhaglen academiâu lwyddianus yng Nghymru. Yn Lloegr, mae academiâu yn darparu addysg o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael cyfleoedd addysgol gwell. Rydym am i blant yng Nghymru allu manteisio ar yr un cyfleoedd.

#### *Byddem yn sicrhau bod gan blant yng Nghymru y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y ras fydeang*

Rydym am i blant yng Nghymru adael yr ysgol â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn marchnad fydeang fwyfwy cystadleuol. Byddem yn sicrhau bod dysgu ieithoedd tramor modern yn rhan ganolog o'r cwricwlwm er mwyn gwrthdroi'r dirywiad ym maes dysgu ieithoedd modern mewn ysgolion yng Nghymru. Byddem yn cynnwys sgiliau rhaglennu a chodio priodol yn y cwricwlwm er mwyn paratoi ein myfyrwyr ar gyfer swyddi yn y dyfodol.

#### *Byddem yn gwella hyfforddiant sgiliau*

Credwn fod codi statws addysg alwedigaethol yn allweddol er mwyn ailgydbwys o'r economi. Yn Lloegr, rydym yn ymrwymedig i gyflwyno tair miliwn o brentisiaethau newydd o ansawdd uchel yn ystod y Senedd nesaf, i fyny o'r 2.2 miliwn a grëwyd gennym ers 2010. Mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi cwtogi'r arian sydd ar gael ar gyfer prentisiaethau yng

Nghymru. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn codi statws addysg alwedigaethol drwy sicrhau bod mwy o gynlluniau prentisiaethau o ansawdd da. Byddwn yn diddymu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar enillion hyd at y terfyn enillion uchaf i brentisiaid o dan 25 oed er mwyn helpu cyflogwyr i ddarparu mwy o brentisiaethau.

#### *Byddem yn ariannu ysgolion yng Nghymru yn uniongyrchol*

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ariannu ysgolion yn uniongyrchol, gan gael gwared ar filiynau o bunnoedd o fiwrocratiaeth a sicrhau bod yr arian yn mynd yn uniongyrchol i'r rheng flaen, gan rymuso rhieni, athrawon a llywodraethwyr.

#### *Byddwn yn helpu prifysgolion yng Nghymru i barhau i fod ymhlið y gorau yn y byd*

Mae Cymru yn gartref i rai o'r prifysgolion addysgu ac ymchwil gorau yn y byd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydiadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau cyllid ar gyfer ein prifysgolion.

## Diogelu a gwella ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol

### Ein hymrwymiad i chi:

*Y Llywodraeth Lafur yng Nghymru sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynglŷn â'r GIG yng Nghymru. Mae ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol yno i ni drwy gydol ein bywydau: o'r diwrnod y cawn ein geni, i'n diwrnodau olaf, ond mae'n cael ei adael i lawr yn wael gan Lywodraeth Lafur Cymru. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn cyflwyno cynigion i wella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Byddem yn:*

- **cynyddu gwariant ar y GIG yng Nghymru, wedi'i ategu gan economi gref, fel bod modd parhau i ddefnyddio'r GIG am ddim**
- **cynnal ymchwiliad annibynnol llawn o'r GIG yng Nghymru**
- **diogelu gwasanaethau iechyd gwledig yng Nghymru**
- **cyflwyno Cronfa Triniaethau Canser ar gyfer Cymru**
- **sicrhau ei bod yn fwya'r cyfleus i chi ddefnyddio'r GIG, ni waeth ble rydych yn byw.**

Mae'r GIG yn hollbwysig i bob un ohonom. Yn seiliedig ar yr egwyddor glodwiw ond syml na ddylai unrhyw un fyth orfod pryderu am ei ofal iechyd, mae'n fynegiant dwys o'n gwerthoedd fel cenedl. Mae'n symbol o ewyllys gyfunol, o gadernid cymdeithasol.

Yng Nghymru, mae ein meddygon, ein nyrssys a'n staff ysbyty yn gweithio ddydd a nos i ddarparu'r gofal gorau posibl, ond maent yn cael eu gadael i lawr yn wael gan wleidyddion Llafur Cymru ym Mae Caerdydd. Nôl yn 2010, gwnaeth y Blaid Geidwadol benderfynu diogelu gwariant ar iechyd yn Lloegr a sicrhau bod arian ar gael i Lywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wneud yr un peth. Penderfynodd y Llywodraeth Lafur yng Nghymru dorri gwariant ar iechyd. O ganlyniad, mae rhestrau aros wedi cynyddu, nid yw amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn cael eu cyflawni, mae cleifion yn wynebu canlyniadau gwaeth ac mae morâl ymhlið staff yn dioddef.

Er gwaethaf hyn, mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn gwrthod cynnal ymchwiliad annibynnol i'r modd y gellir gwella'r GIG yng Nghymru. Credwn mai cleifion, meddygon a nyrssys yw'r arbenigwyr o ran gofal. Dyna pam, yn Lloegr, rydym wedi bod yn gwrando arnynt ac yn eu grymuso i wneud dewisiadau.

Rydym wedi rhoi mwy o bŵer ac atebolwydd i staff rheng flaen nag unrhyw lywodraeth arall. Gwnaethom gael gwared ar fiwrocratiaeth, gan gynhyrchu arbedion a fuddsoddyd gennym mewn cleifion. Yn hytrach na mynd ar ôl mewnbynnau a phrosesau, rydym wedi canolbwyntio ar ganlyniadau a pherformiad. Ac oherwydd grym gwybodaeth, rydym wedi ceisio newid y gydberthynas rhwng y claf a'r system drwy agenda flaengar o dryloywder.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwybod mai perfformiad ein GIG yw un o'r materion pwysicaf i bobl Cymru. Dyna pam ein bod yn ymrwymedig i wynebu'r heriau yn ein gwasanaeth iechyd a rhoi diwygiadau ar waith er mwyn atgyfnerthu a diogelu dyfodol ein GIG yng Nghymru.

### Ein cynllun gweithredu:

Yng Nghymru, Llywodraeth Lafur sy'n gyfrifol am bolisiau iechyd. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn cyflwyno cynigion i atgyfnerthu a sicrhau dyfodol y GIG yng Nghymru:

## *Byddem yn sicrhau GIG cryf drwy economi gref*

Yn Lloegr, rydym wedi cynyddu gwariant ar iechyd. Yng Nghymru, mae'r Llywodraeth Lafur wedi torri gwariant ar iechyd. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynyddu cyllideb y GIG yng Nghymru fel rydym wedi'i wneud yn Lloegr.

## *Byddem yn sicrhau eich bod yn cael y gofal gorau posibl*

Er gwaethaf tystiolaeth gynyddol o'u methiannau o ran y GIG yng Nghymru, mae Gweinidogion Llafur Cymru yn gwrthod cynnal ymchwiliad annibynnol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru er mwyn taflu goleuni ar safonau gofal gwael a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir ei wella. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno ymchwiliad annibynnol llawn i'r GIG yng Nghymru.

## *Byddem yn diogelu gwasanaethau iechyd gwledig*

Mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi cwtogi gwasanaethau iechyd sydd wedi gadael pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn ansicr ynghylch a allant gael gafael ar driniaeth frys sylfaenol sy'n achub bywyd pan fydd ei hangen arnynt. Ym marn y Ceidwadwyr Cymreig dylech gael gofal o'r safon uchaf, ni waeth ble rydych yn byw yng Nghymru. Dyna pam y byddem yn diogelu gwasanaethau iechyd gwledig ac yn gwrthdroi

penderfyniad Llafur i israddio gwasanaethau hanfodol mewn ysbtyai gwledig. Byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos ar faterion iechyd trawsffiniol er mwyn sicrhau y gall triglion ym mhob rhan o Gymru gael y driniaeth orau.

## *Byddem yn helpu os byddwch chi neu eich anwyliaid byth yn cael eich effeithio gan ganser*

Yn Lloegr, mae cyfraddau goroesi canser yn gwella, yn wir maent y gorau erioed. Mae'r Gronfa Cyffuriau Canser wedi helpu mwy na 60,000 o bobl yn Lloegr i gael y cyffuriau achub bywyd sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn gwrthod cynnig Cronfa Cyffuriau Canser i bobl Cymru. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno Cronfa Triniaethau Canser er mwyn sicrhau y gall clefion yng Nghymru gael budd o'r un triniaethau gwella bywyd sydd ar gael yn Lloegr.

## *Byddem yn sicrhau bod y GIG yn fwy cyfleus i chi*

Yn Lloegr, rydym wedi rhoi cyfle i filiynau o bobl weld eu meddyg teulu gyda'r nos ac ar benwythnosau ac rydym yn ymrwymedig i fynd hyd yn oed ymhellach, gan sicrhau bod pawb yn gallu gweld meddyg teulu saith diwrnod yr wythnos. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymestyn hyn i Gymru, fel bod pobl yng Nghymru hefyd yn gallu gweld meddyg teulu, saith diwrnod yr wythnos.

## **Eich galluogi i fwynhau ein treftadaeth, creadigrwydd a chwaraeon**

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Mae gan Gymru ddiwylliant cyfoethog a threftadaeth falch a gaiff eu cydnabod o amgylch y byd. Ni waeth ble rydych yn byw yng Nghymru, rydym am i chi allu mwynhau'r goreuon o blith ein diwylliant a'n chwaraeon. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn:*

- *gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a phartneriaid eraill i ystyried y posibilrwydd y gallai Cymru groesawu Gemau'r Gymanwlad*
- *diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg*
- *rhewi ffi drwydded y BBC, er mwyn arbed arian i chi*
- *cefnogi llwyddiant diwydiannau creadigol Cymru ac amddiffyn cyfryngau rhydd*
- *parhau i gefnogi twristiaeth yng Nghymru.*

Roedd Uwchgynhadledd NATO fis Medi diwethaf yn ffenestr siop i'r byd o ran yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymrwymedig i greu cyfleoedd newydd i Gymru ddisgleirio ar y llwyfan byd-eang.

### **Ein cynllun gweithredu:**

#### *Byddem yn ymgyrchu i ddod â Gemau'r Gymanwlad i Gymru*

Y llynedd, enillodd Tîm Cymru fwy o fedalau yng Ngemau'r Gymanwlad nag erioed o'r blaen. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a phartneriaid eraill i ystyried y posibilrwydd y gallai Cymru groesawu Gemau'r Gymanwlad.

#### *Byddem yn diogelu ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg*

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Byddem yn diogelu arian ac annibyniaeth olygyddol S4C. Byddem yn hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol ar y llwyfan byd-eang.

### *Byddwn yn cefnogi ein cyfryngau*

Cyfryngau rhydd yw conglfaen cymdeithas agored. Byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o Siarter Frenhinol y BBC, gan sicrhau ei bod yn darparu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded, tra'n parhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf a chefnogi ein diwydiannau creadigol. Dyna pam y gwnaethom rewi ffi drwydded y BBC ac y byddwn yn parhau i wneud hynny, tra'n aros i'r Siarter gael ei hadnewyddu. A byddwn yn parhau i frigorri ffi'r drwydded ar gyfer sealwaith digidol er mwyn helpu i ddarparu band eang cyflym iawn ledled y wlad.

### *Byddwn yn amddiffyn rhyddid y wasg*

Byddwn yn parhau i amddiffyn rhyddid haeddiannol a gweithredu gwasg rydd. Ond, ochr yn ochr â hawliau'r cyfryngau, mae cyfrifoldeb clir, a dyna pam y gwnaethom sefydlu Ymchwiliad barnwrol cyhoeddus Leveson mewn ymateb i'r sgandal hacio ffonau, creu corff gwarchod newydd drwy Siarter Frenhinol a deddfu i sicrhau bod cyfreithiau enllib sy'n ymwneud â'r cyfryngau yn fwy llym. Gan fod gwaith y wasg rydd mor bwysig byddwn yn cynnig diogelwch penodol i newyddiadurwyr drwy Fil Hawliau Prydain a byddwn yn gwahardd yr heddlu rhag cael gafael ar gofnodion ffôn newyddiadurwyr er mwyn nodi chwythwyr chwiban a ffynonellau eraill heb gael cymeradwyaeth farnwrol

ymlaen llaw.

### *Byddwn yn cefnogi ein diwydiannau creadigol*

Y diwydiannau creadigol bellach yw ein sector economaidd sy'n tyfu gyflymaf, gan gyfrannu bron i £77 biliwn i economi'r DU ac mae'r sector creadigol yng Nghymru wedi cael budd o'r llwyddiant hwn. Byddwn yn parhau i gynnig y rhyddhad a gyflwynwyd gennym ar gyfer ffilmiau, theatr, gemau fideo, animeiddio a cherddorseydd, gyda chredyd treth ar gyfer teledu plant y flwyddyn nesaf, a byddwn yn ehangu'r rhyddhad hwn lle y bo'n bosibl. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn cefnogi llwyddiant diwydiannau creadigol Cymru ac yn edrych am ffyrdd newydd o hybu cyfraddau allforio cynyrchiadau ffilm a theledu llwyddiannus o Gymru. Byddwn yn diogelu eiddo deallusol drwy barhau i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr rhngwladol sy'n ymweld â Chymru. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r mentrau hyn i hyrwyddo Cymru fel prif sylwedol o gynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys eu grychfan gwyliau'r DU.

a wnaed o dan ein prosiectau gwrth-ladrad gwirfoddol i rybuddio defnyddwyr y rhyngrywd pan fyddant yn torri rheolau hawlfraint. Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw peiriannau chwilio yn cysylltu â'r safleoedd gwaethaf am wneud hynny.

### *Byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru*

Mae Cymru yn grychfan gwyliau gwych ac rydym yn ymrwymedig i achub ar bob cyfle i'w hyrwyddo. Yng Nghymru, mae ein diwydiant twristiaeth yn cefnogi miloedd o swyddi ac mae'n enillwr allforion enfawr. Dyna pam rydym wedi defnyddio mentrau llywodraeth fel yr ymgrych GREAT i farchnata Cymru i ymwelwyr tramor ac, ers 2010, gwelwyd cynydd cyson yn nifer y twristiaid rhngwladol sy'n ymweld â Chymru. Byddwn yn parhau i gwasanaethau rhyngrywd flocio gwefannau lle ceir symiau sylwedol o gynnwys anghyfreithlon, gan gynnwys eu dirprwy wefannau. A byddwn yn adeiladu ar y cynydd

## **Eich helpu i adeiladu'r Gymdeithas Fawr**

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Yn sym, mae adeiladu'r Gymdeithas Fawr yn ymwneud â chynnwys pobl, cymdogaethau, pentrefi, trefi a dinasoedd Prydain yn y dasg enfawr o wella ein gwlad - a rhoi pŵer a chyfle i pobl ifanc chwarae rhan wirioneddol yn eu cymunedau. Byddwn yn:*

- *ehangu'r Gwasanaeth Dinasydion Cenedlaethol, fel y gall eich plant ddysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl ifanc o wahanol gefndiroedd*
- *hyrwyddo triniaeth gyfartal a chyfle cyfartal i bawb mewn cymdeithas sy'n falch o'i goddefgarwch a'i hamrywiaeth*
- *rhoi hawl newydd yn y gweithle i'r rheini sy'n gweithio i gwmni mawr a'r sector cyhoeddus gael Absenoldeb i Wirfoddoli am dri diwrnod y flwyddyn, ar gyflog llawn.*

Mae'r Gymdeithas Fawr yn weledigaeth o genedl ymgysylltol, un lle rydym yn cymryd mwy o gyfrifoldeb drosom ni ein hunain a'n cymdogion; cymunedau sy'n cydweithio ac nad ydynt yn dibynnu ar fiwrocratiaeth amhersonol o bell. Wrth gwrs, mae angen adnoddau ac ymgysylltiad y Llywodraeth i ymgymryd â llawer o dasgau. Ond mae yna lawer o agweddau ar fywyd cenedlaethol hefyd lle mae angen i fwy o bobl gamuymlaen, cymryd

cyfrifoldeb a chwarae eu rhan. Mae hyn yn ymwneud â newid diwylliannol cenedlaethol, sef dweud wrth bawb ym Mhrydain: gofynnwch beth allwch ei wneud i'ch cymuned a'ch gwlad.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd cynydd gwrioneddol. Mae gwirfoddoli ar ei lefel uchaf mewn deng mlynedd, gyda mwy na thair miliwn yn fwy o oedolion

yn rhoi o'u hamser y llynedd o gymharu â'r flwyddyn hyd at fis Mawrth 2010. Mae rhoddion elusennol ar i fyny, gyda miliwn yn fwy o bobl yn rhoi at achosion da nag ar ddiweddu y Senedd ddiwethaf. Bellach, mae grwpiau rhieni ac elusennau yn rhedeg eu hysgolion rhydd eu hunain. Mae mentrau cymdeithasol yn helpu pobl i mewn i swyddi drwy'r Rhaglen Waith. Rydym wedi lansio'r banc buddsoddi cymdeithasol cyntaf yn y byd, wedi cyflwyno mwy o fondiau effaith gymdeithasol na gweddill y byd gyda'i gilydd ac wedi amlyu'r gwaith da a wneir mewn cymunedau drwy Wobrau'r Gymdeithas Fawr a gwobr Points of Light y Prif Weinidog.

Mae cenhedaeth o bobl ifanc yn eu harddegau wedi ymgymryd â Gwasanaeth Dinasydion Cenedlaethol, gan feithrin eu sgiliau, ehangu eu gorwelion a magu hyder; dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ehangu'r Gwasanaeth Dinasydion Cenedlaethol - fel y bydd yn dod yn ddefod newid byd i bobl ifanc yn ein gwlad. Byddwn yn grymuso ac yn cynorthwyo mwy o bobl i redeg ysgol a dechrau eu menter gymdeithasol eu hunain. A byddwn yn cymryd camau newydd i annog pobl i wirfoddoli, gan alluogi mwy o bobl i ymuno â'r arwyr anhysbys sy'n asgwrn cefn cymunedau ledled Prydain.

### **Ein cynllun gweithredu:**

*Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddod â'r Gwasanaeth Dinasydion Cenedlaethol i Gymru*

Yn Lloegr, mae mwy na 130,000 o bobl ifanc wedi graddio o'r Gwasanaeth Dinasydion Cenedlaethol ac rydym bellach wedi sicrhau lle arno i bob person ifanc 16 a 17 oed sydd am gael un. Rydym wedi ariannu cynllun peilot a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddod â'r Gwasanaeth Dinasydion Cenedlaethol i Gymru.

### *Byddwn yn arloesi wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus*

Rydym wedi cyflwyno ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan gynnwys sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cymryd mwy o ran. Er enghraift, mae ein Rhaglen Waith wedi defnyddio talent ac egni elusennau er mwyn helpu pobl i drawsnewid eu bywydau a dychwelyd i weithio. Byddwn yn ystyried ffyrdd o adeiladu ar y math hwn o arloesedd yn y dyfodol. Rydym

hefyd wedi arloesi ym maes defnyddio Bondiau Effaith Gymdeithasol a Thaliadau yn ôl Canlyniadau, a byddwn yn ceisio gwneud mwy o ddefnydd o'r rhain yn y dyfodol, gan ganolbwytio ar ddiweithdra ymhliith pobl ifanc, iechyd meddwl a digartrefedd.

### *Byddwn yn eich helpu i wirfoddoli ac yn cefnogi camau sy'n helpu pobl agored i niwed*

Rydym am barhau i annog yr ysbryd annhygoel hwn ogyfranogi. Byddwn yn cefnogi menter Step Up To ServeTywysog Cymru, gan annog pobl ifanc i wasanaethu yn eu cymuned. A byddwn yn rhoi hawl yn y gweithle i bobl sy'n gweithio mewn cwmniau mawr a'r sector cyhoeddus i wirfoddoli dri diwrnod y flwyddyn. Er enghraift, gallai pobl wirfoddoli i elusen gofrestredig neu fod yn llywodraethwr ysgol. Rydym wedi credu erioed bod eglwysi, grwpiau ffydd a grwpiau gwirfoddol eraill yn chwarae rôl bwysig a hirsefydlog yng ngwead cymdeithasol y wlad, gan ddarparu gwasanaethau banciau bwyd, helpu'r digartref a mynd i'r afael â dyled a chaethiwed, fel alcoholiaeth a gamblu. Rydym eisoes wedi cyflwyno rheoliadau gamblu llymach, gyda mesurau diogelwch gwell i chwaraewyr a rheolaethau cynllunio i atal mwy o siopau betio rhag agr ar y stryd fawr; rhoi cap ar fenthyciadau diwrnod cyflog a chefnogi cynhwysiant ariannol; a byddwn yn parhau i cefnogi camau sy'n helpu pobl agored i niwed i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

*Byddwn yn hyrwyddo hawliau cyfartal ac yn unioni camweddau'r gorffennol*

Mae ein cam hanesyddol o gyflwyno priodas hoyw wedi helpu i ysgogi cydraddoldeb ac atgyfnerthu sefydliad priodas. Ond mae mwy i'w wneud o hyd, a byddwn yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Byddwn yn adeiladu ar y pardwn a roddwyd ar ôl marwolaeth i'r torrwr codau Enigma Alan Turing, a gyflawnodd hunanladdiad ar ôl iddo gael ei gollfarnu am anwedduster difrifol, gyda mesur ehangach i gael gwared ar felltith hen gollfarnau o'r fath. Mae degau o filoedd o ddynion ym Mhrydain yn dal i fod â chollfarnau hanesyddol tebyg, er y byddent yn gwbl ddiueog o unrhyw drosedd heddiw. Mae llawer ohonynt wedi marw ac yn methu ag unioni'r anghyflawnder hwn eu hunain drwy'r broses gyfreithiol rydym wedi'i chyflwyno fel llywodraeth. Felly, byddwn yn cyflwyno deddf newydd a fydd yn pardynu'r bobl hynny, ac yn unioni'r camweddau hyn.

# Sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithio'n well i chi

## Ein hymrwymiad i chi:

Mae'r Llywodraeth yn gwasanaethu pobl Prydain. Mae'n rhaid craffu ar bob punt a gaiff ei gwario, ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth gael ei rhedeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Byddwn yn:

- **arbed arian i chi drwy leihau gwastraff y Llywodraeth**
- **rholi mwy o'r gwasanaethau hanfodol a ddefnyddir gennych ar-lein, er mwyn eu gwneud yn fwy cyfleus**
- **parhau i sicrhau bod y Llywodraeth yn fwy tryloyw, fel y gallwch ein dwyn i gyfrif am y ffordd y caiff eich arian ei wario.**

Gwasanaethu pobl Prydain mae'r Llywodraeth. Nid yw'n feistr arnynt. Aeth yffaith syml honno yn angof pan roedd Llafur mewn pŵer. Cynyddodd nifer y cwangos, cafwyd toreh o brosiectau gwastraffus a chwyddodd biwrocratiaeth - symptomau Llywodraeth a gredai ei bod bob amser yn gwybod orau.

Mae'r Ceidwadwyr wedi cyflwyno ymagwedd newydd. Rydym yn benderfynol o fesur llwyddiant, nid yn ôl faint o arian a gaiff ei wario, ond yn ôl y graddau y mae'n gwella bywydau pobl. Mae Whitehall bellach yn llai gwastraffus ac yn llai o faint nag ar unrhyw adeg ers yr Ail Ryfel Byd. Rydym wedi diddymu neu wedi uno dros 300 o gwangos. Rydym wedi symud gwaith papur ar-lein. Rydym wedi taflu goleuni llachar ar wariant y Llywodraeth, gan ei gwneud yn ofynnol i holl wariant llywodraeth ganolog dros £25,000 gael ei gyhoeddi ar-lein. Rydym hefyd wedi sicrhau bod pobl yn cael dadansoddiad tryloyw o'r ffordd y caiff eu trethi eu gwario.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn sicrhau bod y chwyldro effeithlonrwydd hwn yn parhau. Byddwn hefyd yn parhau i ddiwygio ein system wleidyddol: byddwn yn cyflwyno pleidleisiau cyfartal yn y Senedd drwy gyflwyno diwygiadau mawr eu hangen i ffiniau, yn lleihau nifer yr ASau ac yn sicrhau bod y Comisiwn Etholiadol yn gwneud mwy i fynd i'r afael â thwyll ym maes pleidleisio. Bydd y mesurau hyn yn helpu i adfer hyder y cyhoedd yngwleidyddiaeth Prydain.

## Ein cynllun gweithredu:

### Byddwn yn lleihau gwastraff y Llywodraeth

Rydym wedi lleihau cost llywodraeth drwy werthu adeiladau gwag, rheoli prosiectau mawr yn well, lleihau'r gwasanaeth sifil, diwygio pensiynau, symud mwy o wasanaethau ar-lein, a gwella trefniadau contractio. Bwriadwn sicrhau £10 biliwn o arbedion blynyddol ychwanegol erbyn 2017-18 a £15-20 biliwn yn 2019-20.

### Byddwn yn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus a llywodraeth fwy agored

Rydym wedi cefnogi twf cwmniâu cydfuddiannol cyhoeddus - sefydliadau a berchenogir gan eu staff ac sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rydym am weld mwy ohonynt, felly byddwn yn gwarantu 'hawl i gydfuddiannu' yn y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn ysgogi ysbryd entrepreneuridd gweision cyhoeddus ac yn sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwr. Mae tryloywder hefyd wedi bod wrth wraidd ein hymagwedd tuag at lywodraeth. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi bod yn agored yngylch gwariant y Llywodraeth, wedi rhoi mynediad i ymchwil a ariennir gan y trethdalwr, wedi defnyddio data agored ac wedi helpu i sefydlur Bartneriaeth Llywodraeth Agored. Byddwn yn parhau i sicrhau mai ni yw'r Llywodraeth fwyaf tryloyw yn y byd. Aethom i'r afael â phryder y cyhoedd yngylch dylanwad arian ar wleidyddiaeth, gyda deddf a oedd yn atgyfrerthu'r rheolau sy'n llywodraethu ymgyrchu anwleidyddol a gwnaethom

sefydlu cofrestr o lobiwyr ymgynghorol. Yn ystod y Senedd nesaf, byddwn yn deddfu er mwyn sicrhau bod undebau llafur yn defnyddio proses optio i mewn dryloyw ar gyfer tanysgrifio i bleidiau gwleidyddol. Byddwn yn parhau i geisio cytundeb ar becyn cynhwysfawr o ddiwygiadau o ran ariannu pleidiau.

### Byddwn yn gwneud llywodraeth yn fwy effeithlon

Rydym yn gwerthfawrogi ein gweision cyhoeddus neilltuol. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o fewn y Llywodraeth. Rydym wedi diystyr u cyflwyno cyflog rhanbarthol yn y sector cyhoeddus. Nid oeddym yn cefnogi hyn ac ni fyddwn yn ei gyflwyno. Mae Gwasanaeth Sifil Prydain sy'n ddi-duedd, yn broffesiynol ac yn hynod alluog yn cael ei edmygu ledled y byd ac yn un o gryfderau'r genedl. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ei fod yn fwy dynamig a syml. Byddwn yn sicrhau bod proses reciriwto'r Gwasanaeth Sifil yn fwy agored ac yn mynd ati i chwilio am dalent eithriadol, yn enwedig mewn meysydd lle mae galluoedd yn brin. Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â holl fiwrocratiaeth Whitehall sy'n rhwystro'r Llywodraeth rhag gweithredu. Byddwn yn rhoi terfyn ar daliadau chwe ffigur a ariennir gan y trethdalwr i'r gweithwyr a delir orau yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn parhau i werthu eiddo diangen y Llywodraeth ac yn cydleo li gwasanaethau lle y bo'n bosibl. Rydym eisoes wedi creu 20 o wasanaethau digidol o ansawdd uchel, sy'n cynnwys ceisiadau am brentisiaethau a humanasesiadau treth. Byddwn yn arbed amser, anghyfleustra ac arian i chi drwy symud mwy o wasanaethau ar-lein, ac yn mynd i'r afael ag allgáu digidol. Byddwn yn sicrhau bod cymorth digidol bob amser ar gael i'r rhai nad ydynt ar-lein, tra'n cyflwyno llwyfannau technoleg trawslywodraethol er mwyn lleihau costau a gwella cynhyrchiant - fel GOV.UK.

### Byddwn yn diwygio'r Senedd

Rydym wedi gwella'r modd y mae'r Senedd yn gweithredu, drwy atgyfnerthu ei gallu i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif, gyda diwygiadau fel ethol cadeiryddion Pwyllgorau Dethola chreu Pwyllgor Busnes y Meinciau Cefn, sy'n galluogi aelodau mainc cefn, am y tro cyntaf, i benderfynu ar gyfran sylweddol o fusnes Tŷ'r Cyffredin. Rydym hefyd wedi pasio'r Ddeddf Seneddau Tymor Penodol, sy'n

trosglwyddo pwerau Gweithredol am y tro cyntaf erioed. Yn ystod y Senedd nesaf, byddwn yn mynd i'r afael ag annhegwyd y ffiniau Seneddol cyfredol, yn lleihau nifer yr ASau i 600 er mwyn lleihau costau gwleidyddiaeth ac yn sicrhau bod pleidleisiau'n fwy cyfartal o ran eu gwerth. Byddwn yn cyflwyno diwygiadau i ffiniau y mae'r Senedd eisoes wedi'u cymeradwyo ac yn sicrhau y cant eu cymhwys'o'n awtomatig unwaith y bydd y Comisiwn Ffiniau yn cyflwyno ei adroddiad yn 2018. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'rffaith bod y cynllun etholiadol cyfredol yn gorgynrychioli rhannau o'r wlad lle mae poblogaethau wedi bod yn gostwng ac yn tangynrychioli rhannau lle mae poblogaethau wedi bod yn cynyddu.

### Byddwn yn sicrhau bod Tŷ'r Arglywyddi yn cyflawni ei rôl werthfawr fel siambr craffu a diwygio deddfwriaethol

Rydym yn dal i weld bod achos cryf dros gyflwyno elfen etholedig i'n hail siambr, ond nid yw hyn yn flaenorïaeth yn ystod y Senedd nesaf. Rydym eisoes wedi caniatâu diarddel aelodau ar sail ymddygiad gwael a byddwn yn sicrhau bod Tŷ'r Arglywyddi yn parhau i weithio'n dda drwy fynd i'r afael â materion fel maint y siambr ac ymddeoliad arglywyddi.

### Byddwn yn diogelu eich system etholiadol er mwyn amddiffyn ein democratioeth

Gan adeiladu ar y drefn o gofrestru pleidleiswyr yn unigol a gyflwynwyd gennym, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein trefniadau'n deg ac yn effeithiol drwy sicrhau bod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi mwy o flaenorïaeth i fynd i'r afael â thwyll ac yn ystyried mynnu bod angen dangos prawf adnabod i bleidleisio. Byddwn yn cwblhau'r gofrestr etholiadol, drwy roi mwy na phum miliwn o Brydeinwyr sy'n byw dramor arni. Byddwn yn cyflwyno pleidleisiau am oes, gan ddiddymu'r rheol sy'n atal dinasyddion Prydeinig sydd wedi byw dramor ers mwy na 15 mlynedd rhag pleidleisio. Byddwn yn parchu ewylls pobl Prydain, fel y'i mynegwyd yn refferendwm 2011, ac yn cadw trefn y cyntaf i'r felin ar gyfer etholiadau i Dŷ'r Cyffredin. A byddwn yn cyflwyno pleidleisiau Cymru a Lloegr ar gyfer deddfau Cymru a Lloegr, gan ateb cwestiwn hirsefydlog West Lothian yn ein democratioeth.



## Eich helpu i brynu eich cartref eich hun

### Ein hymrwymiad i chi:

Dylai pawb sy'n gweithio'n galed gael y cyfle i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau tai. Ar lefel Llywodraeth y DU, rydym yn helpu prynwyr tro cyntaf yng Nghymru i gynilo digon o arian i brynu eu cartref cyntaf. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn cyflwyno cynigion er mwyn helpu mwy o bobl yng Nghymru i gamu ar yr ysgol dai. Ein cynllun:

- Byddwn yn helpu i **gadw cyfraddau morgeisi yn is** drwy barhau i weithio drwy ein cynllun economaidd hirdymor
- Byddwn yn **eich helpu i brynu eich cartref cyntaf** gydag ISA Cymorth i Brynu newydd
- Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad yn **rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru** er mwyn eich helpu i gadw mwy o'r arian rydych yn ei ennill
- Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn **helpu tenantiaid cymdeithasol i gamu ar yr ysgol dai**
- Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn **helpu pobl i adeiladu eu cartrefi eu hunain, ac yn cefnogi cymunedau** i redeg gwasanaethau lleol.

Mae'r Ceidwadwyr yn credu'n gryf mewn perchentyaeth. Rydym yn deall, pan fyddwch wedi gweithio oriau hir, wedi cynilo ers blynnyddoedd, ei bod yn deimlad braff pan fyddwch o'r diwedd yn cael yr allwedi i'ch cartref cyntaf. Fodd bynnag, ers blynnyddoedd, mae pobl wedi bod yn ei chael hi'n fwyfwy anodd camu ar yr ysgol dai. O dan y Blaid Lafur, gwelwyd y nifer lleiaf o dai yn cael eu hadeiladu yn ystod cyfnod o heddwch ers yr 1920au. Nid oedd datblygwyr yn adeiladu digon o dai ac, yn sgil yr argyfwng bancio, roedd pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd sicrhau blaendal.

Y nod dros y pum mlynedd diwethaf fu gwrthdroi'r duedd hon. Yn Lloegr, gwnaethom ddadffocio'r system gynllunio, er mwyn helpu adeiladwyr i ddechrau adeiladu eto. Gwnaethom gyflwyno'r cynllun Cymorth i Brynu, gan ei gwneud hi'n llawer haws i bobl gael morgais. Ac rydym wedi adfywio'r cynllun Hawl i Brynu a gwtogwyd gan y Blaid Lafur, gan ehangu perchentyaeth i genhedaeth newydd sbon o denantiaid cymdeithasol. O ganlyniad, cafodd miloedd o bobl gymorth naill ai i gamu ar yr ysgol dai neu i'w dringo. Prynwyr tro cyntaf ifanc fu'r rhan fwyaf o'r rheini a gafodd gymorth.

### Ein cynllun gweithredu:

Yng Nghymru, y Llywodraeth Lafur sy'n gyfrifol am bolisiau tai. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno cynigion i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu manteisio ar yr un cyfleoedd â phobl yn Lloegr i gamu ar yr ysgol dai.

#### *Byddem yn eich helpu i brynu eich cartref cyntaf*

Ar lefel Llywodraeth y DU, rydym yn helpu prynwyr tro cyntaf yng Nghymru i gynilo digon o arian i brynu eu cartref eu hunain drwy ymestyn ein cynllun gwarantu morgais Cymorth i Brynu a thrwy ein ISA Cymorth i Brynu newydd. Mae blaendal o 10 y cant ar gartref cyntaf cyffredin yn costio £15,000, felly os rhowch hyd at £12,000 mewn ISA Cymorth i Brynu newydd, bydd y Llywodraeth yn rhoi hyd at £3,000 ychwanegol. Mae swm ychwanegol o 25 y cant yn gyfystyr â chynilo blaendal o'ch incwm cyn treth - gan olygu ei fod, i bob pwrras, yn doriad treth i brynwyr tro cyntaf. Yng Nghymru, gallai'r ISA Cymorth i Brynu newydd hwn helpu dros 45,000 o bobl i brynu eu cartref cyntaf yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Yn Lloegr, mae ein benthyciad ecwiti Cymorth i Brynu wedi helpu 88,000 o bobl i brynu eu cartref cyntaf[1]. Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, sefydlodd Llywodraeth Cymru ei gynllun ei hun er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf yng Nghymru. Ar hyn o bryd, disgwylir i gynllun benthyciad ecwiti Cymorth i Brynu Llywodraeth Cymru ddod i ben yn 2016. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwneud ymrwymiad hirdymor i gynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru er mwyn sicrhau y gall prynwyr tro cyntaf yng Nghymru gael yr un cymorth i brynu eu cartref cyntaf â phrynwyr tro cyntaf yn Lloegr.

#### *Byddem yn helpu tenantiaid cymdeithasol i gamu ar yr ysgol dai*

Yn Lloegr, mae ein polisi Hawl i Brynu wedi helpu miloedd o bobl i brynu eu tŷ cyngor eu hunain ac rydym yn ymrwymedig i helpu hyd yn oed fwy o deuluoedd i brynu cartref. Yng Nghymru, mae'r Llywodraeth Lafur wedi cyhoeddi y bydd yn cael gwared ar ei chynllun Hawl i Brynu. Mae hyn yn golygu efallai na fydd pobl sy'n byw mewn tai cyngor yng Nghymru byth yn gallu prynu eu cartref eu hunain. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod gan bawb hawl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ac felly byddem yn sicrhau dyfodol hirdymor y cynllun Hawl i Brynu yng Nghymru.

#### *Byddem yn rhewi trethi cyngor yng Nghymru*

Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth hon wedi gweld biliau'r dreth gyngor yn gostwng 11 y cant mewn termâu real. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru, er ei bod yn cael arian gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, mae biliau yng Nghymru wedi cynyddu chwe gwaith yn fwy na'r gyfradd yn Lloegr ers 2010. Byddai'r Ceidwadwyr

Cymreig yn rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru er mwyn helpu trethdalwyr sy'n gweithio'n galed i gadw mwy o'r arian y maent yn ennill.

#### *Byddem yn helpu pobl i adeiladu eu cartrefi eu hunain, ac yn cefnogi cymunedau i redeg gwasanaethau lleol*

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o blaid ei gwneud yn ofynnol i gynghorau neilltu tir i bobl leol adeiladu neu gomisiynu eu cartrefi eu hunain, fel y gallwch ei wneud yn y rhan fwyaf o Ewrop. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno polisi Hawl i Adeiladu Llywodraeth y DU yng Nghymru.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mai cymunedau lleol sy'n adnabod eu hardal orau. P'un a ydych yn cefnogi eich tafarn leol neu asedau lleol eraill, credwn y dylai fod gennych hawl i wneud cynnig. Yn Lloegr, rydym wedi rhoi hawliau newydd i gymunedau benderfynu ar ddyfodol eu hardal leol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno Hawl i'r Gymuned Wneud Cynnig yng Nghymru.

#### *Byddem yn dileu biwrocratiaeth ddiangen er mwyn helpu i adeiladu mwy o gartrefi*

Fel Plaid perchentyaeth, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld mwy o gartrefi'n cael eu hadeiladu yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi bwrw'r farchnad dai â mwy o fiwrocratiaeth – gan ychwanegu dros £10,000 i gost cartref newydd. Byddem yn dileu biwrocratiaeth ddiangen ar gyfer adeiladwyr tai yng Nghymru.

## Gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Mae Cymru yn gartref i rai o'r ardaloedd cefn gwlad prydferthaf yn y Deyrnas Unedig. Mae ein traethau godidog yn denu miloedd o dwristiaid i ddod ar eu gwyliau yma bob blwyddyn. Gwyddom pa mor bwysig yw ein hamgylchedd naturiol i ffyniant economaidd Cymru a byddwn yn parhau i wneud popeth a allwn i'w ddiogelu. Byddwn yn:*

- *adeiladu seilwaith newydd mewn modd amgylcheddol sensitif*
- *rholi 'Llain Las' newydd ar waith er mwyn gwarchod cynefinoedd morol gwerthfawr*
- *gwarchod lles anifeiliaid.*

Nid olion oes a fu i alaru amdanyst a gweld eu colled yw nodweddion tirwedd trawiadol Prydain ym marn y Ceidwadwyr: dyma gefndir byw a chyfredol ein bywyd cenedlaethol. Mae ein rhostryoedd a'n dolydd, ein bywyd gwyllt a'n byd natur, ein haer a'n dŵr yn rhan hanfolol o'n hunaniaeth genedlaethol ac yn gonglfaen ein gwlad. Felly, mae gennym feddwl uchel iawn ohonynt ac rydym yn awyddus i'w gwarchod a'u trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Ni ddeallodd y Blaid Lafur hyn erioed. Cynyddodd y bwlc rhwng ein cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol; dioddefodd bioamrywiaeth, gyda rhywogaethau a chynefinoedd pwysig yn dirywio o dan ei gofal.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi ymrwymo biliynau o bunnoedd i leihau allyriadau trafnidiaeth ac i lanhau ein hafonydd a'n moroedd. A gwnaethom amlinellu gweledigaeth gynhwysfawr hirdymor i warchod ein treftadaeth naturiol yn Mhapur Gwyn cyntaf y wlad hon ar yr Amgylchedd Naturiol ers 20 mlynedd.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn rhoi mesurau cryfach ar waith i warchod ein tirweddau naturiol ac yn sefydlu Llain Las er mwyn diogelu cynefinoedd morol gwerthfawr - ein cynllun yw gwarchod ein hardaloedd cefn gwlad a sicrhau mai hon yw'r wlad brydferthaf yn y byd o hyd.

### **Ein cynllun gweithredu:**

*Byddwn yn adeiladu seilwaith newydd mewn modd amgylcheddol sensitif*

Byddwn yn adeiladu seilwaith newydd mewn ffordd sy'n cyfyngu, hyd y gellir, ar ei effaith ar yr amgylchedd. Caiff unrhyw fioamrywiaeth a gollir drwy adeiladu High Speed 2 ei disodli.

*Byddwn yn creu 'Llain Las' i warchod cynefinoedd morol gwerthfawr*

Byddwn yn creu 'Llain Las' o amgylch 14 Tiriogaeth Dramor y DU, yn amodol ar gefnogaeth leol ac anghenion amgylcheddol. Byddwn yn dynodi ardal warchodedig arall ar Ynys y Dyrchafael, yn amodol ar safbwytiau'r gymuned leol. Caiff y rhwydwaith o Barthau Cadwraeth Morol y DU a ddechreuwyd gennym ei ehangu er mwyn creu 'Llain Las' o safleoedd gwarchodedig yn y DU.

*Byddwn yn gwarchod lles anifeiliaid*

Mae ansawdd y bywyd ar eich plât, a sicrwydd economaidd ein ffermwyr, yn dibynnu ar ein hymdrehigion i sicrhau'r safonau uchaf o ran lles anifeiliaid. Byddwn yn pwysio i sicrhau y caiff safonau

lles anifeiliaid uchel eu cynnwys o fewn cytundebau masnach rhyngwladol ac wrth ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Byddwn yn gwahardd anifeiliaid gwylt mewn syrcasau ac yn pwysio i annog pob un o aelod-wladwriaethau'r UE i sicrhau mai dim ond i ladd-dai sy'n cyraedd safonau lles uchel y caiff anifeiliaid eu hanfon. Byddwn yn annog gwledydd eraill i ddilyn esiampl yr UE wrth wahardd y defnydd o anifeiliaid i brofi cosmetigau ac yn gweithio i gyflymu ymdrechion byd-eang i ddatblygu a defnyddio dewisiadau amgen i brofion ar anifeiliaid lle y bo'n briodol. Rydym am i bobl integreiddio'n llawn yng nghymdeithas Prydain, ond nid yw hynny'n golygu y dylai fod yn rhaid iddynt roi'r gorau i'r pethau sy'n bwysig iddynt o ran eu crefydd. Felly, tra byddwn bob amser yn sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn rheoleiddio'r gwaith o ladd da byw a dofednod yn briodol, byddwn yn diogelu dulliau o ladd anifeiliaid yn unol â defodau crefyddol, fel shechita a halal.

### *Byddwn yn mynd i'r afael â throseddau rhyngwladol yn erbyn bywyd gwylt*

Fel trefnwr Cynhadledd Llundain ar Fasnach Anghyfreithlon mewn Bywyd Gwylt, gwnaethom helpu i sicrhau bod Datganiad Llundain ar Fasnach mewn Bywyd Gwylt yn cael ei fabwysiadu a byddwn yn parhau i arwain y byd wrth roi terfyn ar y potsio sy'n lladd miloedd o rinoserosod, elifiantod a theigrod bob blwyddyn. Byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gynigion i ailddechrau hela morfilod at ddibenion masnachol, ac yn ceisio rhoi mesurau pellach ar waith ar lefel yr UE ac yn rhyngwladol i roi terfyn ar hela siarcod er mwyn defnyddio eu hesgyll. Byddwn yn hyrwyddo mesurau effeithiol ledled y byd er mwyn gwarchod tiwna, yn pwysio am waharddiad llwyr ar werthu ifori ac yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth India i warchod elifiant Asia. Byddwn yn pwysio am statws 'rhywogaeth mewn perygl' llawn i eirth gwyn a gwahardd y fasnach ryngwladol mewn crwyn eirth gwyn, yn ogystal â rhoi mwy o sylw i effaith newid yn yr hinsawdd ar fywyd gwylt a chynefinoedd mewn Ardaloedd Pegnol yng Nghyngor yr Arctig a ffora rhyngwladol eraill.

## Gwarantu cyflenwadau ynni glân, fforddiadwy a sicr i chi

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Mae ynni fforddiadwy a dibynadwy yn hollbwysig i'n heonomi, i'n diogelwch cenedlaethol ac i gyllidebau teuluol. Mae Cymru yn chwarae rhan allweddol yn sicrwydd ynni'r DU ac, er mwyn diogelu hyn, byddwn yn:*

- **cefnogi prosiectau ynni strategol yng Nghymru**
- **atal lledaeniad ffermydd gwynt ar y tir**
- **cefnogi diwydiannau ynni-ddwys Cymru**
- **cadw eich biliau mor isel â phosibl a hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad ynni**
- **sicrhau bod gan ein cartrefi a'n busnesau gyflenwadau ynni y gallant ddibynnus arnynt**
- **eich helpu i inswleiddio eich cartref**
- **cyflawni ein hymrwymiadau newid yn yr hinsawdd, gan leihau allyriadau carbon mewn ffordd mor rhad â phosibl, er mwyn arbed arian i chi.**

Heb gyflenwadau ynni sicr, mae teuluoedd a busnesau ym Mhrydain ar drugaredd prisiau olew a nwy bydeang cyfnewidiol; mae ein dibyniaeth ar ffynonellau ynni tramor yn cynyddu; ac rydym yn dod yn llai diogel ac yn llai llewyrchus.

Mae polisi ynni cenedlaethol yn gofyn am barodrwydd i wneud penderfyniadau heddiw er budd y dyfodol. Ond gweithredodd y Blaid Lafur yn gwbl groes i hynny. Mae pŵer wrth gefn - y 'clustog diogelwch' sydd ei angen arnom i atal sefyllfaoedd lle y caiff pŵer ei golli'n llwyr - wedi lleihau i'w lefelau isaf erioed o ganlyniad i'w methiant hanesyddol i fuddsoddi mewn capaciti newydd. Ni fanteisiwyd ar ffynonellau olew a nwy domestig. A methodod y Blaid Lafur â rhoi'r genhedlaeth nesaf o brosiectau ynni ar waith a fydd yn ein helpu i gadw goleuadau ynghyn, lleihau biliau a lleihau allyriadau carbon.

Cafodd hyn oll effaith andwyol ar ddefnyddwyr. Hanerodd nifer y cyflenwyr ynni mawr a chynyddodd biliau ynni yn sylweddol, gyda'r bil nwy cyfartalog yn mwy na dyblu.

Felly, rydym wedi gweithredu mewn ffordd gwbl wahanol. Lle'r oedd agwedd y Blaid Lafur yn hynod fyrdymor, rydym wedi sicrhau cyflenwadau ynni boddhaol, fforddiadwy, nid yn unig ar gyfer y blynnyddoedd sydd i ddod, ond ar gyfer y degawdau sydd i ddod.

Mae ein cynllun hirdymor wedi rhyddhau £59 biliwn o fuddsoddiad mewn trydan. Yn fuan, bydd pob rhan o'r DU yn helpu i ddarparu ynni diogel, fforddiadwy a charbon isel o orsaф ynni niwclear Hinkley Point, i weithgynhyrchu tyrbinau gwynt ar y môr yng nghyfleuster newydd Green Port yn Hull, y genhedlaeth nesaf o biblinellau i'r Gorlewin o Shetland a thrafodaethau cychwynnol ar forlyn llanw Abertawe. Diolch i'n toriadau treth, gwelwyd y lefelau buddsoddi uchaf erioed yng Nghyfleusterau nwy presennol Môr y Gogledd, a genedigaeth diwydiant newydd, sef nwy siâl, a allai greu miloedd ar filoedd o swyddi newydd.

Ac rydym wedi sicrhau bargin well i ddefnyddwyr hefyd. Rydym wedi mynnu bod cwmnïau ynni yn symleiddio eu tariffau; wedi annog mwy o gyflenwyr annibynnol - sydd bellach yn cyfrif am 10 y cant o'r farchnad aelwyd yd; ac wedi ei gwneud hi'n llawer haws i bobl newid darparwyr ynni.

Ond dim ond hanner ffordd ydym. Mae angen Llywodraeth Geidwadol arnom i roi'r cynllun hirdymor hwn ar waith a sicrhau cyflenwadau ynni glân ond fforddiadwy i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu ehangu cyfleusterau niwclear a nwy newydd yn sylweddol; cefnogi ynni gwyrdd gwerth da; a phwyso am fwy o fuddsoddiad newydd yn ffynonellau ynni'r DU. Cystadleuaeth iach, nid ymyriadau gwleidyddol byrdymor, yw'r ffordd orau o sicrhau bargin dda i ddefnyddwyr. Felly, byddwn yn parhau i bwysio'n ddi-baid am fwy o cystadleuaeth er mwyn sicrhau biliau isel.

Mae hwn yn gynllun hirdymor i gadw goleuadau ynghyn; i gadw ein cartrefi yn gynnes ac i sicrhau na fydd yn rhaid i deuluoedd bryderu'n barhaus am eu biliau ynni.

### **Ein cynllun gweithredu:**

#### *Byddwn yn cefnogi prosiectau ynni strategol yng Nghymru*

Gwyddom pa mor bwysig yw Cymru i sicrwydd ynni'r DU. Dyna pam rydym wedi gweithio'n galed i gefnogi prosiectau ynni strategol yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda Hitachi a Horizon er mwyn datblygu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa. Bydd gorsaf ynni newydd Wylfa werth tua £20bn i economi'r DU a bydd yn creu 6,000 o swyddi adeiladu yma yng Nghymru. Rydym yn dechrau ar gam cyntaf y trafodaethau yngylch Contract Gwahaniaeth ar gyfer Morlyn Llanw Abertawe er mwyn cydnabod potensial Cymru i fod yn ganolfan fawr ar gyfer ynni'r llanw ac ynni tonnau. Bydd y prosiect yn creu miloedd o swyddi ac yn denu miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad i Gymru. Byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau ynni strategol yng Nghymru er mwyn rhoi hwb i economi Cymru a helpu i sicrhau dyfodol ynni Cymru.

#### *Byddwn yn atal lledaeniad ffermydd gwynt ar y tir*

Mae ynni gwynt ar y tir bellach yn gwneud cyfraniad ystyrlon i'n cymysgedd ynni ac mae wedi bod yn rhan o'r cynnydd angenrheidiol mewn adnoddau adnewyddadwy. Mae ffermydd gwynt ar y tir yn aml yn methu ag ennill cefnogaeth y cyhoedd, fodd bynnag, ac ni allant, ar eu pen eu hunain, ddarparu'r adnoddau

cadarn sydd eu hangen ar system ynni sefydlog. O ganlyniad, byddwn yn rhoi terfyn ar unrhyw gymhorthdal cyhoeddus newydd i'w cadw ac yn newid y gyfraith fel mai pobl leol a gaiff wneud y penderfyniad terfynol o ran ceisiadau ffermydd gwynt. Byddwn yn datganoli penderfyniadau yngylch ceisiadau am brosiectau ynni hyd at 350 megawat i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhan fwyaf o ffermydd gwynt ar y tir a thechnolegau adnewyddadwy sy'n defnyddio ynni'r llanw.

### *Byddwn yn cefnogi diwydiannau ynni-ddwys Cymru*

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi ein diwydiannau ynni-ddwys sy'n chwarae'r rôl hanfodol yn economi Cymru. Rydym eisoes wedi rhoi hwb i ddiwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru drwy leihau ardollau gwyrdd a rhewi'r terfyn Carbon. Yn y Gyllideb ddiwethaf gwnaethom gyhoeddi y byddwn yn cyflwyno rhan o'r pecyn iawndal ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys yn gynt na phryd. Bydd hyn yn arbed cyfanswm o hyd at £240 miliwn i fusnesau yng Nghymru rhwng 2016 a 2019.

### *Byddwn yn hyrwyddo cystadleuaeth er mwyn sicrhau bod eich biliau mor isel â phosibl*

Rydym wedi helpu i gynyddu nifer y cyflenwyr ynni annibynnol o saith i 21, ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gael bargin well, lleihau nifer y tariffau yn sylwedol i ddim ond pedwar fesul cyflenwr, a haneru'r amser mae'n ei gymryd i newid cyflenwr. Byddwn yn mynd ymhellach eto, gan weithredu argymhellion ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a ddechreuwyd gennym. Byddwn yn sicrhau bod gan bob cartref a busnes yn y wlad Fesurydd Deallus erbyn 2020, wedi'i ddarparu mewn ffodd mor gost-effeithiol â phosibl, er mwyn

i ddefnyddwyr allu cael biliau cywir ar unwaith ac er mwyn iddynt allu newid i ddarparwr amgen o fewn diwrnod. A byddwn yn cefnogi mesurau cost isel o ran effeithlonrwydd ynni, gyda'r nod o inswleiddio miliwn o gartrefi ychwanegol yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gefnogi ein hymrwymiad i drechu todi tanwydd.

### *Byddwn yn diogelu eich cyflenwadau ynni*

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu olew a nwy Môr y Gogledd. Byddwn yn darparu cyllid cychwynnol ar gyfer ymchwil a thechnolegau adnewyddadwy newydd addawol, ond dim ond i'r rheini sy'n amlwg yn darparu gwerth am arian y byddwn yn rhoi cefnogaeth sylweddol. Byddwn yn datganoli penderfyniadau yngylch ffracio i Lywodraeth Cymru.

### *Byddwn yn diogelu ein planed i'n plant*

Ni fu'r Llywodraeth wyrddaf erioed, gan sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd cyntaf y byd, llofnodi cytundeb i adeiladu'r orsafl niwclear newydd gyntaf ers cenhedlaeth, treblu capaciti cynhyrchu ynni adnewyddadwy i 19 y cant, cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni i fwy na miliwn o gartrefi, ac ymrwymo £1 biliwn i weithgareddau dal a storio carbon. Ni yw'r farchnad ynni gynt ar y môr fwyaf yn y byd. Byddwn yn pwysu am gytundeb hinsawdd byd-eang cadarn yn ddiweddarach eleni - un sy'n cadw'r nod o gyfyngu ar gynhesu byd-eang i ddwy-radd yn gadarn o fewn cyrraedd. Gartref, byddwn yn parhau i gefnogi Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU. Byddwn yn lleihau allyriadau mewn ffodd mor gost-effeithiol â phosibl, ac ni fyddwn yn cefnogi targedau sector ynni drud ac ystumiol.

## **Ymladd yn erbyn troseddau ac amddiffyn dioddefwyr**

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Dylai eich ardal leol fod yn fan diogel i dyfu i fyny, i weithio, i fagu teulu ac i ymddeol. Byddwn yn parhau i ostwng troseddau a gwneud Cymru yn fwy diogel. Byddwn yn:*

- **cwblhau'r broses o ddiwygio'r heddlu, er mwyn i chi allu bod yn fwy hyderus bod eich tîm plismona lleol yn gweithio'n effeithiol**
- **cadw polisi plismona yn ôl fel mai Llywodraeth y DU sy'n parhau i fod yn gyfrifol amdano**
- **cyflwyno dedfrydau mwy llym a diwygio'r system carchardai, er mwyn sicrhau y caiff troseddwyr peryglus eu cadw oddi ar eich strydoedd**
- **cefnogi dioddefwyr, er mwyn sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu**
- **cael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol a lleihau'r rôl Llys Hawliau Dynol Ewrop, er mwyn gallu allgludo troseddwyr o dramor yn haws o Brydain.**

Mae troseddau wedi gostwng fwy nag 16 y cant yng Nghymru ers 2010. Mae lefelau troseddu is yn golygu bod llai o ladrata, llai o drais ar ein strydoedd, llai o fywydau yn cael eu difetha, a bod mwy o bobl yn gallu teimlo'n hyderus am y dyfodol.

Nid oedd y Blaid Lafur yn ymddiried yn ein swyddogion yr heddlu, staff prawf na swyddogion carchardai gwych i wneud eu gwaith, ond gwnaeth geisio microreoli pob heddlu o Whitehall, gan gael effaith andwyol ar forâl swyddogion, disgrifiwn yr heddlu a pherfformiad heddluoedd. A methodd y Blaid Lafur â sicrhau digon o leoedd mewn carchardai: rhyddhawyd degau o filoedd o garcharorion yn gynnar, gan beri risg i'r cyhoedd.

Rydym wedi gwneud cynydd wrth drawsnewid y sefyllfa a etifeddwyd gennym, gyda diwygiadau cynhwysfawr i blismona, adsefydlu a hawliau dioddefwyr. Rydym eisoes wedi cynyddu nifer y swyddogion sydd ar y rheng flaen, ac wedi diddymu 4.5 miliwn o oriau o waith papur gan yr heddlu. Rydym wedi rhoi mandad clir i Brif Gwnstabliaid ostwng lefelau troseddu, diwygio'r trefniadau ar gyfer stopio a chwilio, sefydlu'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol, atgyfnerthu arolygiaeth yr heddlu, sicrhau bod yr heddlu yn fwy atebol drwy

Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cynyddu tryloywder drwy fapiau troseddau a sefydlu'r Coleg Plismona er mwyn gwella safonau proffesiynol.

Rydym wedi sicrhau y bydd 45,000 o droseddwyr bellach yn cael eu goruchwyliau a'u hadsefydlu adeg eu rhyddhau o'r carchar, gyda'r darparwyr yn cael eu talu yn ôl y canlyniadau y byddant yn eu cyflawni wrth ostwng lefelau aildroseddu. Gwnaethom ddiwygio triniaethau cyffuriau er mwyn sicrhau mai ymatal a gwella'n llawn yw'r nod, yn hytrach na'r drefn gyffredin o ymdrin â phobl sy'n gaeth i gyffuriau drwy roi cyffuriau amgen iddynt. A gyda chyfreithiau newydd i fynd i'r afael â thrais domestig, mesurau i atal Anffurio Organau Cenhedlu Benywod, y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern gyntaf erioed, camau i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl a chynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael ag achosion o gam-drin plant ar-lein, rydym wedi amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn gyson.

Byddwn yn parhau i wneud pob cymuned yn fwy diogel, hyd yn oed pan fo adnoddau'n dynn. Byddwn yn parhau i leihau gwaith papur, cynyddu hyd dedfrydau ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol a sicrhau bod carchardai yn fannau adsefydlu.

Mae angen i ni gwblhau ein chwyldro yn y ffordd rydym yn rheoli troseddwyr yn y gymuned, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i sicrhau bod troseddwyr yn ymddwyn yn well. A rhaid i ni hefyd ddod yn ddoethach o ran atal troseddau, gan ymdrin â'r ffactorau sy'n ysgogi troseddau megis cyffuriau ac alcohol. Felly, byddwn nid yn unig yn canolbwntio ar gosbi troseddwyr, ond hefyd ar eu hadsefydlu ac ar ymyrryd yn gynnar er mwyn atal pobl ifanc gythryblus rhag cael eu denu i droseddu.

## **Ein cynllun gweithredu:**

### ***Byddwn yn cwblhau'r gwaith o ddiwygio'r heddlu, gan helpu swyddogion i ymladd yn erbyn troseddau yn ddirwystr***

Byddwn yn sicrhau y caiff mannau diogel eu darparu gan wasanaethau iechyd ac yn y gymuned i bobl sy'n dioddef argyfwng iechyd meddwl - gan arbed amser i'r heddlu ac atal pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu. Er mwyn cyflymu cyflawnwr, byddwn yn changu'r defnydd o erlyniadau o dan arweiniad yr heddlu. Byddwn yn caniatáu i heddluoedd gadw canran uwch o werth yr asedau y byddant yn eu hatafaelu gan droseddwyr. Byddwn yn gwella ymateb yr heddlu i seiber-droseddau drwy ddiwygio'r hyfforddiant a roddir i'r heddlu a chynyddu nifer y 'Seiber Swyddogion Arbennig' sy'n gwifoddoli. Byddwn yn galluogi'r gwasanaeth Tân a gwasanaeth yr heddlu i gydweithio'n agosach ac yn datblygu rôl ein Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu etholedig ac atebol.

Mae gan Gymru rai o'r cyfraddau isaf o ran troseddau yn y DU. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn darparu gwasanaeth plismona effeithiol i gymunedau lleol ac maent yn cael eu cefnogi gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sy'n darparu atebolrwydd lleol. Gan fod plismona lleol wedi'i ddatganoli i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eisoes, byddwn yn parhau i gadw'r cyfrifoldeb am blismona yn ôl ar gyfer Ysgrifennydd Gwladol y DU, gan sicrhau bod swyddogaethau lleol, trawsffiniol a chenedlaethol yn cael eu hegluro'n gywir. Drwy gadw materion plismona yn ôl, ni fydd unrhyw heddluoedd yng Nghymru yn cael eu gorfodi i uno o dan Lywodraeth Geidwadol yn San Steffan, a fyddai'n erydu'r cysylltiad rhwng yr heddlu a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo.

### ***Byddwn yn trawsnewid y gydberthynas rhwng yr heddlu a'r cyhoedd***

Rydym wedi cymryd camau i feithrin hyder ac ymddyriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu ac rydym am fynd ymhellach fyth nawr. Byddwn yn gwella amrywiaeth o ran trefniadau reciwtio'r heddlu - yn enwedig swyddogion du a lleiafrifoedd ethnig - drwy helpu i ddatblygu cynlluniau mynediad uniongyrchol a chynlluniau llwybr carlam newydd megis Police Now, sy'n cynnig llwybr newydd i blismona i'r graddedigion gorau. Byddwn yn ailwampio system cwynion yr heddlu yn llwyr. Byddwn yn defnyddio Cronfa Arloesedd yr Heddlu i gyflymu'r broses o fabwysiadu technolegau newydd, gan gynnwys dyfeisiau symudol a fydd yn trawsnewid y gwasanaeth a gaiff y cyhoedd. A byddwn yn deddfu i orfodi newidiadau yn arferion yr heddlu os na chaiff trefniadau stopio a chwilio eu targedu'n well ac os na fydd cymarebau stopio i arrestio yn gwella.

### ***Byddwn yn cyflwyno mesurau atal troseddau mwy effeithiol er mwyn atal y cylch troseddu***

Rydym yn datblygu strategaeth atal troseddau fodern er mwyn ymdrin â'r ffactorau allweddol sy'n arwain at droseddu. Byddwn yn cyhoeddi safonau, data perfformiad a system raddio ar gyfer diogelwch ffonau deallus a llechi, yn ogystal â gwasanaethau ariannol a manwerthu ar-lein. Byddwn yn ailwampio system rhybuddion yr heddlu, ac yn sicrhau bod amodau megis gwneud iawn â'r dioddefwr bob amser yn rhan o gosb troseddwyr. Byddwn yn cyflwyno gwaharddiad cyffredinol ar bob sylwedd seicoweithredol newydd, gan ddiogelu pobl ifanc rhag dod i gysylltiad â'r hyn a elwir yn 'anterth cyfreithlon'. A byddwn yn sicrhau bod gorchymynion sobrwydd ar gael i bob llys yng Nghymru a Lloegr, a gaiff eu gorfodi drwy dagiau monitro alcohol newydd.

### ***Byddwn yn diwygio ein system carchardai***

Er gwaethaf yr arbedion a wnaed yn y gyllideb carchardai, mae tua 3,000 yn fwy o leoedd i ddynion mewn carchardai nag yn 2010. Byddwn yn gwneud arbedion pellach drwy gau hen garchardai aneffeithlon ac adeiladu carchardai modern, mwy o faint sy'n addas at y diben ac ehangu taliadau yn ôl canlyniadau. A byddwn yn cyflwyno system gyffredinol o gynnwl profion cyffuriau ar hap mewn carchardai, sganwyr corff newydd, mwy o ddefnydd o

dechnoleg blocio ffonau symudol a strategaeth newydd i fynd i'r afael â llygredigaeth mewn carchardai. Yng Nghymru, rydym yn buddsoddi dros £200m yng ngharchar Wrecsam, carchar mwyaf modern y DU, gan sicrhau bod mwy o garcharorion o Gymru yn bwrw eu dedfrydau yn agosach at adref.

### ***Byddwn yn diogelu dioddefwyr ac yn cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed***

Rydym eisoes wedi cyflwyno Cod newydd i Ddioddefwyr ac wedi cymryd camau i ddiogelu tystion a dioddefwyr sy'n agored i niwed. Nawr, byddwn yn atgyfnerthu hawliau dioddefwyr ymhellach, drwy gyflwyno Cyfraith newydd i Ddioddefwyr a fydd yn ymgorffori hawliau allweddol i ddioddefwyr, gan gynnwys yr hawl i wneud datganiad personol ac i'r datganiad hnwnn gael ei ddarllen yn y llys cyn pennu dedfryd - a chyn i'r Bwrdd Parol wneud penderfyniad yngylch rhyddhau carcharor ai peidio. Byddwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i bob dyst a dioddefwr agored i niwed roi tystiolaeth y tu allan i'r llys, ac yn cyflwyno system croesholi cyn treial genedlaethol i blant sy'n ddioddefwyr.

### ***Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched***

Rydym wedi sicrhau bod diogelu menywod a merched rhag trais, a helpu dioddefwyr a goroeswyr traist rhywiol, yn flaenoriaeth allweddol. Byddwn nawr yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y GIG a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod dyfodol unedau arbenigol sy'n ymdrin ag achosion o anffurfio organau cenhedu benywod a phriodasau dan orfod, llochesi a chanolfannau argyfwng traist rhywiol yn ddiogel. Byddwn yn sicrhau bod pob eiriolwr a gaiff ei ariannu'n gyhoeddus yn cael hyfforddiant arbenigol i ymdrin â dioddefwyr cyn cymryd rhan mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau rhywiol difrifol. Rydym wedi sefydlu ymchwiliad statudol annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol, a byddwn yn sicrhau y gallwn herio sefydliadau ac unigolion yn ddi-duedd, a chael y gwirionedd. A byddwn yn parhau â'r gwaith dybryd o drawsnewid y ffordd y mae'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill yn cydweithio er mwyn diogelu plant sy'n agored i niwed, yn enwedig rhag y math o gamfanteisio rhywiol a meithrin perthynas amhriodol gan grwpiau cyfundrefnol a ddaeth

i'r amlwg yn Rotherham, a threfi a dinasoedd eraill ledled y DU.

### ***Byddwn yn cyflwyno dedfrydau llymach ac yn defnyddio technoleg newydd i ddiogelu'r cyhoedd***

Byddwn yn parhau i ddiwygio'r ffordd rydym yn adsefydlu carcharorion. Byddwn yn defnyddio technoleg newydd i fonitro troseddwyr yn y gymuned a dwyn troseddwyr mynch o flaen eu gwell yn gyflymach. Bydd dedfryd lled-garcharol newydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer troseddwyr cyson, a fydd yn caniatáu treulio cyfnod byr yn y carchar er mwyn newid ymddygiad. Er mwyn mynd i'r afael â'r achosion hynny lle mae barnwyr yn gwneud y penderfyniad anghywir, byddwn yn ehangu cwmpas y Cynllun Cosbau Rhy Ysgafn, er mwyn gallu herio amrywiaeth ehangu o ddedfrydau. Byddwn yn adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu troseddau casineb, gan gynnwys yr achos o blaid ehangu cwmpas y gyfraith i gynnwys troseddau a gyflawnir yn erbyn pobl ar sail enabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol. Byddwn yn gwella'r ffordd y caiff troseddwyr benywaid eu trin, gan ystyried sut y gall technoleg newydd alluogi mwy o fenywod â phlant ifanc i fwrw eu dedfryd yn y gymuned. Byddwn yn sicrhau bod digon o hofrenyddion yr heddlu ar gael yng Nghymru.

### ***Byddwn yn diwygio'r gyfraith hawliau dynol a'n system gyfreithiol***

Rydym wedi atal carcharorion rhag cael pleidleisio, ac wedi allgludo unigolion yr amheuir eu bod yn derfysgwr megis Abu Qatada, er gwaethaf yr holl broblemau a achoswyd gan gyfreithiau hawliau dynol Llafur. Bydd y Llywodraeth Geidwadol nesaf yn diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac yn cyflwyno Bil Hawliau Prydain. Bydd hyn yn torri'r cyswll ffurfiol rhwng llysoedd Prydain a Llys Hawliau Dynol Ewrop, ac yn sicrhau mai ein Llys Goruchaf fydd â'r dyfarniad terfynol mewn materion hawliau dynol yn y DU. Byddwn yn parhau â'r cynllun £375 miliwn i foderneiddio ein system llysoedd, gan leihau achosion o oedi a rhwystredigaeth i'r cyhoedd. A byddwn yn parhau i adolygu ein systemau cymorth cyfreithiol, er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu mynediad i gyflawnwr mewn ffordd effeithlon.

# Atal terfysgaeth a gwrthod eithafiaeth

## Ein hymrwymiad i chi:

*Cadw chi a'ch teulu yn ddiogel yw ein prif flaenoriaeth. Mae bygythiad eithafiaeth a therfysgaeth yn dal i fod yn un difrifol, ond gyda'n dull llym, deallus a chynhwysfawr o weithredu, byddwn yn ymdrin ag ef ac yn ei drechu yn y pen draw. Byddwn yn:*

- **rholi mwy o bwerau i'r heddlu a'r asiantaethau cudd-wybodaeth amharu ar gynllwyniau terfysgol, fel bod gan yr awdurdodau bopeth sydd ei angen arnynt i atal ymosodiadau**
- **ymladr â phropaganda a radicaleiddio ar-lein, fel ein bod yn gallu lleihau'r risg o bobl ifanc yn cael eu denu i eithafiaeth a therfysgaeth**
- **ymladr â phob math o eithafiaeth, gan gynnwys eithafiaeth nad yw'n dreisgar, fel bod ein gwerthoedd a'n ffordd o fyw yn cael eu hyrwyddo a'u hamddiffyn yn briodol**
- **gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol er mwyn trechu terfysgaeth ac eithafiaeth.**

Dyletswydd gyntaf unrhyw lywodraeth yw eich cadw'n ddiogel. Byddwn bob amser yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i ddiogelu pobl Prydain. Rydym wedi diogelu a chynyddu cyllidebau'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a phlismona gwrth-derfysgaeth. Ond mae graddau'r bygythiad i'n gwlad gan nifer o grwpiau terfysgol yn dal i fod yn ddifrifol, ac mae twf ISIL yn Syria ac Irac wedi creu hafanau newydd i derfysgwyr lle caiff ymosodiadau yn erbyn Prydain eu cynllunio, eu hariannu a'u cyfarwyddo.

Fodd bynnag, mae natur y bygythiad a wynebir gennym yn ei gwneud yn fwy anodd i'r gwasanaethau diogelwch nodi cynllwyniau terfysgol - yn enwedig diolch i dechnoleg newydd. Rhaid i ni bob amser sicrhau bod gan ein hasiantaethau cudd-wybodaeth a diogelwch rhagorol y pwerau sydd eu hangen arnynt i'n cadw'n ddiogel. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i wrthod unrhyw awgrymiadau o fesurau awdurdodaidd ysgubol a fyddai'n bygwth ein rhyddid y brwydrwyd yn galed amdano. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, rydym wedi rhoi mwy o bwerau i'r awdurdodau reoli ac amharu ar symudiadau pobl sydd am deithio dramor i ymladd, gan gynnwys atgyfnerthu pwerau i atafaelu pasbortau'r rhai sy'n ceisio teithio er mwyn cyflawni terfysgaeth.

Bydd y Llywodraeth Geidwadol nesaf yn parhau i gymryd camau llym, deallus a chynhwysfawr er mwyn atal terfysgaeth a mynd i'r afael ag eithafiaeth. Byddwn yn diweddu ein cyfreithiau gwrth-derfysgaeth lle bynnag y bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r bygythiadau a wynebir gennym yn briodol.

Nid dim ond ymwneud â phwerau newydd y mae'r gwaith o ymladr â'r bygythiadau hyn. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydym yn trechu eithafiaeth o bob math. Mae angen i ni fynd i'r afael â gwreiddyn y drwg, cyn i hynny ddatblygu'n drais a therfysgaeth. Wrth wraidd ein dull o weithredu mae amddiffyn gwerthoedd Prydain yn ddigfaddawd a neges syml iawn: ym Mhrydain nid ydych ond yn mwynhau'r rhyddid i fyw fel y dymunwch; mae gennych gyfrifoldeb i barchu eraill hefyd.

## Ein cynllun gweithredu:

*Byddwn yn atgyfnerthu pwerau gwrth-derfysgaeth*

Rydym wedi atgyfnerthu cyfreithiau gwrth-derfysgaeth, gan gynnwys ei gwneud yn haws i atal gwladowlion Prydeinig rhag teithio dramor i ymladd, a rheoli achosion lle mae'r rhai sy'n gwneud yn dychwelyd. Byddwn yn

sicrhau bod dull yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch o gael gafael ar ddata cyfathrebu yn gyfredol - 'pwys, ble, pryd a sut' cyfathrebu, ond nid ei gynnwys. Bydd ein deddfwriaeth newydd ar ddata cyfathrebu yn atgyfnerthu ein gallu i amharu ar gynllwyniau terfysgol, rhwydweithiau troseddol a gangiau cyfundrefnol sy'n meithrin perthynas amhriodol â phlant, hyd yn oed wrth i dechnoleg ddatblygu. Byddwn yn parhau i alluogi'r awdurdodau i ymyrryd â chynhwys cyfathrebu'r sawl a ddrwgdybir tra'n atgyfnerthu'r broses o oruchwyllo'r defnydd o'r pwerau hyn o hyd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol er mwyn trechu terfysgaeth ac eithafiaeth.

*Byddwn yn mynd i'r afael â phob math o eithafiaeth, gan gynnwys eithafiaeth nad yw'n dreisgar*

Rydym eisoes wedi diwygio'r strategaeth Atal fel ei bod yn canolbwytio ar eithafiaeth nad yw'n dreisgar yn ogystal

ag eithafiaeth dreisgar. Nawr byddwn yn mynd hyd yn oed ymhellach. Byddwn yn gwahardd grwpiau sy'n ennyn casineb drwy gyflwyno Gorchmynion Gwahardd newydd ar gyfer sefydliadau eithafol. Gallai'r rhain fod yn gymwys i sefydliadau peryglus nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon gwahardd presennol o dan ddeddfwriaeth terfysgaeth. Er mwyn atal gweithgareddau niweidiol unigolion eithafol, byddwn yn creu Gorchmynion Tarfu ar Eithafiaeth. Gallai'r pwerau newydd hyn, er enghraift, atal y sawl sy'n ceisio radicaleiddio pobl ifanc o Brydain ar-lein rhag defnyddio'r rhyngrwyd neu gyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn datblygu strategaeth i drechu ymdreiddiad eithafwyr yn ein hysgolion a'n gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn atgyfnerthu rôl Ofcom fel bod modd cymryd camau llym yn erbyn sianelau sy'n darlledu cynhwys eithafol. Byddwn yn galluogi cyflogwyr i weld a yw unigolyn yn eithafwr a'i wahardd rhag gweithio gyda phlant. A byddwn yn cymryd camau pellach i sicrhau nad yw colegau na phrifysgolion yn rhoi llwyfan i siaradwyr eithafol.





## Urddas wrth ymddeol

### Ein hymrwymiad i chi:

*Os ydych wedi gweithio'n galed yn ystod eich bywyd, wedi cynilo, wedi talu eich trethi ac wedi gwneud y peth iawn, rydych yn haeddu urddas a sicrwydd wrth ymddeol. Rydym am sicrhau mai Prydain yw'r wlad orau i heneiddio yniddi. Byddwn yn:*

- **sicrhau nad yw cartref y teulu yn destun Treth Etifeddiaeth i bawb ond y mwyaf cyfoethog drwy godi'r trothwy ar gyfer parau priod a phartneriaid sifil i £1 filiwn**
- **parhau i gynyddu Pensiwn y Wladwriaeth drwy ein clo triphlyg, fel ei fod yn cynyddu o leiaf 2.5 y cant, chwyddiant neu enillion, p'un bynnag sydd fwyafrif**
- **gwobrwo cynilo drwy gyflwyno pensiwn haen unigol newydd**
- **rholi'r rhyddid i chi fuddsoddi a gwario eich pensiwn fel y mynnoch – a chaniatáu i chi ei drosglwyddo i'ch anwyliaid yn ddi-dreth**
- **diogelu buddiannau pensiynwyr**
- **sicrhau bod gan Brydain economi gref, er mwyn i ni allu parhau i ddiogelu'r GIG a sicrhau na chaiff unrhyw un ei orfodi i werthu ei gartref i dalu am ofal.**

Ein pensiynwyr yw conglafan y wlad hon, a chredwn, yn gyfnewid am hynny, fod dyled ar genedlaethau ifancach i sicrhau urddas a sicrwydd iddynt yn eu henaint.

Fel llywodraeth, esgeulusodd Llafur yr henoed. Dygodd bensiynau drwy gyflwyno treth lechwraidd gwerth £150 biliwn. Un flwyddyn, dim ond 75 ceiniog bitw y cynyddwyd pensiynau. Ac ni wnaeth unrhyw beth i roi rheolaeth i bobl dros eu cynillion a'u pensiynau, nac i'w hatal rhag gorfol gwerthu eu cartrefi er mwyn talu am ofal. Yn lle'r codiadau pensiwn pitw hyn, rydym wedi cyflwyno'r clo triphlyg: bydd Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth bellach bob amser yn cynyddu'n unol â pha un bynnag sydd uchaf - enillion, chwyddiant neu 2.5 y cant. Hyd yn hyn, mae'r Pensiwn Sylfaenol wedi cynyddu £950. Rydym wedi diddymu'r Oedran Ymddeol Diofyn, fel y gallwch barhau i weithio gyhyd ag y mynnoch. Rydym yn disodli'r Credyd Pensiwn - sef prawf modd mewn gwirionedd - â Phensiwn Haen Unigol newydd: beth bynnag y bydd pobl yn ei gynilo, byddant yn ei gadw. Ac rydym wedi cyflwyno cap ar gostau gofal cymdeithasol: ni fydd yn rhaid i unrhyw un werthu ei gartref er mwyn talu am ofal. Yn ogystal â hyn oll, rydym wedi cael gwared ar flwydd-daliadau gorfodol, gan roi rheolaeth lwyf i

bobl dros eu cronfeydd pensiwn; rydym wedi cadw'r holl buddiannau i bensiynwyr; ac wedi diogelu gwariant y GIG yn Lloegr.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, wrth i'n gwlad wella ac wrth i'n poblogaeth oedrannus dyfu, byddwn yn parhau i sicrhau bod pensiynwyr wrth wraidd ein cynllun economaidd hirdymor.

### Ein cynllun gweithredu:

*Byddwn yn gofalu amdanoch wrth i chi heneiddio*

Byddwn yn rhoi cap ar daliadau am ofal cymdeithasol preswyl ym mis Ebrill 2016 a hefyd yn caniatáu cytundebau taliadau gohiriedig, fel na fydd yn rhaid i unrhyw un werthu ei gartref. Am y tro cyntaf, cyfyngir ar rwymedigaethau unigolion, gan roi tawelwch meddwl i bawb y byddant yn cael y gofal y bydd ei angen arnynt, ac y cânt eu diogelu rhag costau digfyngiad os bydd ganddynt anghenion gofal difrifol iawn - megis dementia.



*Byddwn yn gwarantu eich sicrwydd ariannol  
wrth i chi heneiddio*

Byddwn yn cadw'r system bensiwn clo triphlyg. O fis Ebrill 2016 byddwn yn cyflwyno Pensiwn Haen Unigol; yn y bôn, bydd yn diddymu profion modd mewn perthynas â phensiynau pobl sydd wedi cyfrannu gydol eu hoes. Byddwn yn cynnal yr holl fuddiannau cyfredol i bensiynwyr gan gynnwys Taliadau Tanwydd Gaeaf, teithiau bws am ddim, presgripsiynau am ddim a thrwyddedau teledu am ddim ar gyfer y Senedd nesaf, ac yn gweithredu'r "prawf tymheredd" ar gyfer y Taliad Tanwydd Gaeaf fel na fydd cyn-wladolwyr mewn gwledydd poeth bellach yn ei dderbyn. A byddwn yn galluogi pensiynwyr i gael gafael ar eu cynillion pensiwn ac i benderfynu p'un a ydynt am gael blwydd-daliad ai peidio, er mwyn iddynt allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'u harian eu hunain.

*Byddwn yn eich helpu i gefnogi eich anwyliad*

Rydym wedi gwarantu y gellir nawr trosglwyddo cyfrifon ISA i gymar yn ddi-dreth, fel nad yw, o fis Ebrill eleni, bellach yn destun Treth Incwm na Threth ar Enillion Cyfalaf. Rydym wedi diddymu'r dreth o 55 y cant ar gronfeydd pensiwn, fel mai dim ond y gyfradd Treth Incwm ymylol y bydd yn rhaid i unrhyw fuddiolwr ei thalu - sef 20 y cant fel arfer - pan fydd yn codi'r pensiwn pan fydd yr ymadawedig yn 75 oed neu drosodd. Ac rydym wedi galluogi unrhyw un sy'n marw cyn 75 oed i drosglwyddo ei gronfa bensiwn yn gwbl ddi-dreth, fel na fydd y buddiolwr yn talu unrhyw dreth pan fydd yn etifeddu'r pensiwn, ac na fydd ychwaith yn talu unrhyw dreth ar yr incwm y byddant yn ei gael ohono. A byddwn yn sicrhau nad yw cartref y teulu yn cael ei drethu i bawb ond y mwyaf cyfoethog drwy gynyddu'r trothwy Treth Etifeddiaeth ar gyfer parau priod a phartneriaid sifil i £1 filiwn, gyda phrif breswylfan trosglwyddadwy newydd o £175,000 yr unigolyn. Telir am hyn drwy leihau'r rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn i bobl sy'n ennill mwy na £150,000.



## Yn gryfach gyda'n gilydd: Undeb ar gyfer yr 21ain ganrif

### Ein hymrwymiad i chi:

*Y Deyrnas Unedig yw'r undeb gwleidyddol mwyaf llwyddiannus y mae'r byd erioed wedi'i weld. Credwn fod pobl Cymru yn haeddu setliad datganoli clir sy'n rhoi llais cryf iddynt dros eu materion eu hunain o fewn Teyrnas Unedig gref a llwyddiannus. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:*

- *anrhydeddu ein Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi yn llawn er mwyn cyflawni setliad datganoli cliriach, tecach a chryfach i Gymru*
- *anrhydeddu ein hymrwymiadau i'r Alban yn llawn*
- *parhau i adeiladu Gogledd Iwerddon lle mae gwleidyddiaeth yn gweithio, lle mae'r economi yn tyfu a lle mae cymdeithas yn gryf*
- *rhoi feto i ASau Cymru a Lloegr dros faterion sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr yn unig.*

Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon - ein hundeb ni yw'r undeb mwyaf nodedig o genhedloedd y mae'r byd erioed wedi'i weld. Gyda'n gilydd rydym wedi gwneud cymaint, a gallwn wneud llawer mwy. Y Blaid Geidwadol yw plaid yr Undeb - a byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i gadw ein teulu o genhedloedd gyda'i gilydd.

Rhoddodd y penderfyniad a wnaed gan bobl yr Alban y llynedd i aros yn rhan o'r teulu hwnnw gyfle unigryw i ni ail-lunio a sicrhau dyfodol y DU. Roeddym yn glir ein bod am weld Cymru wrth wraidd y broses honno ac eleni gwnaethom gyflawni'r addewid hwnnw drwy ein Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi sy'n rhoi mwy o bwerau i Gymru.

Mae Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi yn cynrychioli un o'r trosglwyddiadau mwyaf o bŵer yn hanes datganoli yng Nghymru. Mae'n golygu mwy o gyfrifoldeb i Gynulliad Cymru. Mae'n golygu y caiff mwy o benderfyniadau eu cymryd yma yng Nghymru, a bydd mwy o gyfle i bobl Cymru ddwyn eu gwleidyddion i gyfrif. Mae hefyd yn golygu y bydd yn rhaid i'r gwleidyddion sy'n gwario arian trethdalwyr ym Mae Caerdydd fod yn fwy cyfrifol am godi'r arian hwnnw. Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno'r holl bwerau a amlinellwyd yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi. Gyda'i gilydd, mae'r pwerau hyn yn gosod y llwybr ar gyfer creu setliad datganoli cliriach, cryfach a thecach i Gymru.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi profi mai ni yw plaid yr Undeb. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn mynd ymhellach, gan wthio pŵer allan y tu hwnt i San Steffan, Bae Caerdydd, Holyrood a Stormont, er mwyn cadw ein Teyrnas Unedig yn gryf ac yn ddiogel ar gyfer yr hirdymor.

### Ein cynllun gweithredu:

*Byddwn yn datblygu setliad parhaus ar gyfer y Deyrnas Unedig*

Byddwn yn gweithio i sicrhau cyfansoddiad sefydlog sy'n deg i bobl Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn atgyfnerthu ac yn gwella datganoli ar gyfer pob rhan o'n Teyrnas Unedig mewn ffordd sy'n derbyn nad oes un ateb yn addas i bawb: byddwn yn gweithredu Comisiwn Smith a Chytundeb Dydd Gŵyl Dewi neu newidiadau cyfatebol yng ngweddill y DU, gan gynnwys pleidleisiau Cymru a Lloegr ar gyfer deddfau Cymru a Lloegr.

*Byddwn yn anrhydeddu ein hymrwymiadau i Gymru yn llawn*

Byddwn yn sicrhau setliad datganoli cliriach, tecach a chryfach i Gymru. Byddwn yn:

- cyflwyno Bil Cymru newydd pellgyrhaeddol i anrhydeddu ein hymrwymiadau i Broses Dydd Gŵyl Dewi yn llawn.
- sicrhau bod datganoli yng Nghymru yn gliriach, drwy egluro'r pwerau sydd wedi'u rhannu rhwng Cynulliad Cymru yng Nghaerdydd a Llywodraeth y DU yn San Steffan. Byddwn yn gwneud hyn drwy gyflwyno model 'pwerau a gadwyd yn ôl', system a ddefnyddir eisoes ar gyfer Senedd yr Alban.
- sicrhau bod datganoli yng Nghymru yn decach, drwy warantu proses gyllido deg i Gymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy bennu terfyn isaf o ran lefel cyllid cymharol Llywodraeth Cymru, gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn galw refferendwm ar bwerau i godi treth incwm. Byddwn yn cyflwyno mwy o atebolrwydd ariannol i Gynulliad Cymru drwy sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dod yn gyfrifol am godi mwy o'r arian y mae'n ei wario.
- sicrhau bod datganoli yng Nghymru yn gryfach, drwy drosglwyddiad hanesyddol o bwerau i Gynulliad Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rheolaeth dros faterion y Cynulliad ei hun megis enw'r Cynulliad, ei faint a'i system etholiadol, etholiadau ac oedran pleidleisio. Byddwn hefyd yn trosglwyddo pwerau economaidd pwysig dros borthladdoedd, caniatadau ynni a thrwyddedau ffracio.
- mae'r Ceidwadwyr yn credu mewn trosglwyddo pwerau i lawr i gymunedau yng Nghymru, yn hytrach na'u cronni ym Mae Caerdydd. Byddwn yn cefnogi cynigion fel y Cynnig i Ddinasoedd ar gyfer Caerdydd a fydd yn datganoli penderfyniadau ac yn rhoi mwy o bwerau i bobl leol.
- ystyried argymhellion Comisiwn Smith sy'n berthnasol i Gymru.
- parhau i gadw materion plismona a chyflawnder yn ôl i'w penderfynu gan Senedd y DU.

#### *Byddwn yn anrhydeddu ein hymrwymiadau i'r Alban yn llawn*

Bydd Bil newydd yr Alban yn cael ei gynnwys yn arraith gyntaf y Frenhines a chaiff ei gyflwyno yn sesiwn gyntaf y Senedd newydd. Byddwn yn gweithredu argymhellion

Comisiwn Smith er mwyn sicrhau y caiff mwy na 50 y cant o gyllideb Senedd yr Alban ei hariannu o refeniu a godir yn yr Alban a bydd ganddi bwerau lles newydd sylweddol a fydd yn ategu pwerau sydd eisoes wedi'u datganoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Senedd yr Alban yn cael un o'r pecynnau mwyaf helaeth o bwerau trethu a gwario o blith unrhyw ddeddfwrf a ddatganoledig yn y byd. Byddwn yn cadw fformiwla Barnett yn sail dros bennu'r grant i gwmpasu'r rhan honno o gyllideb Senedd yr Alban na chaiff ei hariannu gan refeniu treth a godir yn yr Alban. Byddwn yn cytuno ar reolau newydd gyda Llywodraeth yr Alban ynghylch sut y caiff y grant bloc ei addasu, er mwyn ystyried y pwerau treth a lles datganoledig newydd. A byddwn yn sicrhau, lle mae cyfrifoldeb am drethiant wedi'i ddatganoli, mai dim ond yn y rhan honno o'r wlad y bydd newidiadau mewn treth yn effeithio ar wariant cyhoeddus.

#### *Byddwn yn parhau i adeiladu Gogledd Iwerdon lle mae gwleidyddiaeth yn gweithio, lle mae'r economi yn tyfu a lle mae cymdeithas yn gryf*

Byddwn yn cadw lle Gogledd Iwerdon yn y Deyrnas Unedig ar sail cydsyniad ei phobl. Bydd ein cefnogaeth gref i'r sefydliadau gwleidyddol a sefydlwyd dros y ddau ddegawd diwethaf o ganlyniad i Gytundebau amrywiol yn parhau. Byddwn yn:

- sicrhau mai diogelwch a sicrwydd pobl Gogledd Iwerdon yw ein prif flaenoriaeth. Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu ein strategaeth i wrthsefyll terfysgaeth, gan roi'r cymorth cryfaf posibl i ddynion a menywod dewr Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Iwerdon.
- gweithio i roi Cytundeb hanesyddol Tŷ Stormont ar waith yn llawn ac yn gywir er mwyn sicrhau y gall y broses ddatganoli weithredu'n fwy effeithiol; delio â gwaddol y gorffennol; a gwneud cynydd ar faterion cynhennus fel fflagiau a gorymdeithiau.
- parhau i weithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerdon i gyflawni'r ymrwymiadau yng nghytundeb economaidd 2013 i ailygydwyso'r economi ac adeiladu cymdeithas gryfach a mwy unedig.

- cwblhau'r gwaith o ddatganoli pwerau Treth Gorfforaeth i'r Cynulliad, yn gyson â'r Weithrediaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau ar gyllid, diwygio lles ac arbedion effeithlonrwydd yng Nghytundeb Tŷ Stormont.

#### *Byddwn yn rhoi fetu i ASau Cymru a Lloegr dros faterion sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr yn unig*

Byddwn yn cadw Senedd San Steffan fel y corff sy'n deddfu yn y DU ac yn Lloegr. Ond rydym am i'r Senedd weithio mewn ffordd sy'n sicrhau mai dim ond gyda chydsyniad y mwyaf o ASau sy'n cynrychioli etholaethau yn Lloegr, neu yng Nghymru a Lloegr, y gellir gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar Loegr, neu ar Gymru a Lloegr. Byddwn yn rhoi terfyn ar yr annhegwrch mawr lle y gall yr Alban benderfynu ar ei deddfau ei hun mewn meysydd datganoledig ond lle y gall ASau yr Alban hefyd leisio barn dyngedfennol efallai ar faterion tebyg sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr yn unig. Byddwn yn cynnal uniondeb Senedd y DU drwy sicrhau bod ASau o bob rhan o'r DU yn parhau i drafod a phleidleisio gyda'i gilydd, gan gynnwys i bennu lefelau

gwariant cyffredinol. Bydd ASau Cymru yn parhau i fod yn lleisiau pwerus i Gymru ar faterion sy'n effeithio ar bobl Cymru gan gynnwys materion trawsffiniol. Byddwn yn:

- newid gweithdrefnau seneddol er mwyn sicrhau y caiff manylion deddfwriaeth sy'n effeithio ar Loegr yn unig neu Gymru a Lloegr eu hystyried gan Bwyllgor a bennir yn ôl cryfder y pleidiau yn Lloegr neu yng Nghymru a Lloegr.
- ychwanegu cam newydd i'r broses o ddeddfu ar gyfer Lloegr neu Gymru a Lloegr; ni fyddai unrhyw fil neu ran o fil sy'n ymwneud â Lloegr yn unig neu Gymru a Lloegr yn gallu pasio'r Trydydd Darleniad a dod yn ddeddf heb gymeradwyaeth drwy gynnig cydsyniad deddfwriaethol gan Uwch-bwyllgor sy'n cynnwys ASau o Loegr yn unig, neu ASau o Gymru a Lloegr yn unig.
- ymestyn yr egwyddor o gydsyniad yng Nghymru a Lloegr i faterion ariannol megis sut y caiff gwariant ei ddosbarthu yng Nghymru a Lloegr ac i drethiant.

## Newid gwirioneddol yn ein cydberthynas a'r Undeb Ewropeaidd

### **Ein hymrwymiad i chi:**

*Ers gormod o amser, mae eich barn ar Ewrop wedi'i hanwybyddu. Byddwn yn:*

- ***rholi cyfle i chi ddweud p'un a ddylem aros yn yr UE neu ei adael, gyda refferendwm mewnw-allan erbyn diwedd 2017***
- ***ymrwymo i gadw'r bunt ac aros allan o Ardal yr Ewro***
- ***diwygio'r modd y mae'r UE, sy'n rhy fawr, yn rhy awdurdodol ac yn rhy fiwrocrataidd, yn gweithio***
- ***adennill pŵer o Frwsel ar eich rhan a diogelu buddiannau Prydain yn y Farchnad Sengl***
- ***helpu busnesau i greu swyddi ym Mhrydain drwy gwblhau cytundebau masnach uchelgeisiol a lleihau biwrocratiaeth.***

Mae angen i'r UE newid. Ac mae'n bryd i bobl Prydain - nid gwleidyddion - leisio eu barn. Dim ond y Blaid Geidwadol fydd yn cyflawni newid gwirioneddol ac yn

rhoi dewis gwirioneddol ar Ewrop, gyda refferendwm mewnw-allan erbyn diwedd 2017.

Methodd y Blaid Lafur â rhoi dewis i chi ar yr UE. Gwnaeth drosglwyddo pwerau newydd pwysig i Frwsel heb eich cydsyniad chi, a rhoi £7 biliwn o'r ad-daliad i Brydain i ffwrdd. Rydym wedi cymryd camau yn Ewrop i hyrwyddo eich sicrwydd economaidd. Gwnaethom dorri cyllideb yr UE am y tro cyntaf erioed, gan arbed £8.15 biliwn i drethdalwyr Prydain. Gwnaethom dynnu Prydain allan o becynnau achub Ardal yr Ewro, gan gynnwys y pecyn ar gyfer Gwlad Groeg - y tro cyntaf erioed y mae pwerau wedi'u dychwelyd o Frwsel.

Rhoddodd ein Prif Weinidog foto ar gytuniad newydd ar gyfer yr UE a fyddai wedi niweidio buddiannau Prydain. Ac rydym wedi mynd ar drywydd agenda ddewr, gadarnhaol, sy'n cefnogi busnesau, sy'n rhyddhau'r busnesau lleiaf o fiwrocratiaeth, sy'n hyrwyddo masnach rydd ac sy'n pwysio i ehangu'r Farchnad Sengl i sectorau newydd, fel y sector digidol.

Ond mae llawer mwy i'w wneud. Mae'r UE yn rhy fiwrocrataidd ac yn rhy annemocraidaidd. Mae'n ymyrryd gormod yn ein bywydau bob dydd, ac mae graddau'r mudo a welwyd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf wrth i aelodau newydd ymuno â hi wedi cael effaith wirioneddol ar gymunedau lleol. Rydym yn glir ynglych yr hyn rydym ei eisiau o Ewrop. Dywedwn: ie i'r Farchnad Sengl. Ie i fasnach rydd fyrlymus. Ie i gydweithio lle rydym yn gryfach gyda'n gilydd nag ar ein pen ein hunain. Ie i deulu o genedl-wladwriaethau, pob un yn rhan o Undeb Ewropeaidd - ond, yn hollbwysig, y mae eu buddiannau wedi'u gwarantu p'un a ydynt yn rhan o'r Ewro ai peidio. Na i 'undeb cynyddol agos.' Na i lif cyson o bŵer i Frwsel. Na i ymyrraeth ddiangen. A na, wrth gwrs, i'r Ewro, i fod yn rhan o becynnau achub Ardal yr Ewro neu syniadau fel Byddin Ewropeaidd.

Un o egwyddorion sylfaenol Llywodraeth Geidwadol yn y dyfodol fydd aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd sy'n dibynnu ar gydsyniad pobl Prydain - ac, yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae'r cydsyniad hwnnw wedi gwanhau'n fawr. Dyna pam, ar ôl yr etholiad, y byddwn yn negodi setliad newydd i Brydain yn Ewrop, ac yna'n gofyn i bobl Prydain p'un a ydynt am aros yn yr UE ar y sail ddiwygiedig hon neu ei adael. Mae David Cameron wedi ymrwymo i ond arwain llywodraeth sy'n cynnig refferendwm mewn-allan. Byddwn yn cynnal y refferendwm mewn-allan hwnnw cyn diwedd 2017 ac yn parchu'r canlyniad.

Felly mae'r dewis yn yr etholiad hwn yn glir: ni fydd Llafur na'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi cyfre i chi leisio'ch barn ar yr UE. Ni all UKIP roi'r cyfre hwnnw i chi. Dim ond y Blaid Geidwadol fydd yn sicrhau newid gwirioneddol yn Ewrop - a dim ond y Ceidwadwyr a all ac a fydd yn cynnig refferendwm mewn-allan.

## Ein cynllun gweithredu:

### *Byddwn yn gadael i chi benderfynu p'un a ydych am aros yn yr UE ai peidio*

Byddwn yn deddfu, yn sesiwn gyntaf y Senedd nesaf, i gynnal refferendwm mewn-allan ar aelodaeth Prydain o'r UE cyn diwedd 2017. Byddwn yn negodi setliad newydd i Brydain yn yr UE. Ac yna byddwn yn gofyn i bobl Prydain p'un a ydynt am aros ar y sail hon, neu adael. Byddwn yn anrhydeddu canlyniad y refferendwm, beth bynnag fo hwnnw.

### *Byddwn yn diogelu economi Prydain*

Byddwn yn diogelu ein heonomi rhag unrhyw integreiddio pellach yn Ardal yr Ewro. Mae'r integreiddio yn Ardal yr Ewro wedi codi cwestiynau dwys i wledydd nad ydynt yn rhan o Ardal yr Ewro, fel y Deyrnas Unedig. Rydym yn cael budd o'r Farchnad Sengl ac nid ydym am rwystro Ardal yr Ewro rhag mynd ati i ddatrys ei hanawsterau. Yn wir, o ystyried y fasnach rhwng Prydain a gwledydd Ardal yr Ewro, rydym am weld yr economiâu hyn yn tyfu unwaith eto. Ond ni fyddwn yn gadael i'r integreiddio yn Ardal yr Ewro beryglu uniondeb y Farchnad Sengl na pheri anfantais i'r DU mewn unrhyw ffordd.

### *Byddwn yn adennill pwerau o Frwsel*

Rydym am weld pwerau yn llifo allan o Frwsel, nid i mewn iddi. Rydym eisoes wedi cymryd camau i ddychwelyd tua 100 o bwerau ond rydym am fynd ymhellach. Rydym am i seneddau cenedlaethol allu cydweithio er mwyn atal deddfwriaeth Ewropeaidd ddiangen. Ac rydym am roi terfyn i'n hymrwymiad i 'undeb cynyddol agos', fel sydd wedi'i ymgorffori yn y Cytuniad, y mae'n rhaid i bob un o wledydd yr UE ymrwymo iddo. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau bod ein polisi amddiffyn yn aros o dan reolaeth gadarn Prydain, gan gadw NATO a'r gydberthynas dros yr Iwerydd yn gonglfeini ein polisi amddiffyn a diogelwch.

## *Byddwn yn cael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol*

Byddwn yn cael gwared ar Ddeddf Hawliau Dynol y Blaid Lafur ac yn cyflwyno Bil Hawliau Prydain a fydd yn adfer synnwyr cyffredin wrth gymhwys o hawliau dynol yn y DU. Bydd y Bil yn aros yn dryw i egwyddorion sylfaenol hawliau dynol, y gwnaethom ymrwymo iddynt yn y Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd gwreiddiol. Bydd yn diogelu hawliau sylfaenol, fel yr hawl i dreial teg, a'r hawl i fywyd, sy'n rhan hanfodol o gymdeithas ddemocratiaidd fodern. Ond bydd yn gwrthdroi'r genhadaeth gynyddol sydd wedi golygu bod cyfraith hawliau dynol yn cael ei defnyddio at fwyfwy o ddibenion, ac yn aml heb fawr o ystyriaeth i hawliau cymdeithas yn ehangu. Ymhliith pethau eraill, bydd y Bil yn atal terfysgwyr a throseddwyr difrifol eraill o dramor sy'n bygwth cymdeithas rhag defnyddio dadleuon annilys sy'n ymwneud â hawliau dynol i'w hatal rhag cael eu hallgludo.

## *Byddwn yn cymryd camau yn Ewrop i sicrhau eich bod yn well eich byd*

Rydym am weld UE sy'n helpu Prydain i gamu ymlaen, nid un sy'n ein rhwystro. Rydym eisoes wedi llwyddo i sicrhau y caiff ein busnesau lleiaf eu heithrio rhag rheoliadau newydd yr UE, ac wedi cychwyn trafodaethau ar gyfer cytundeb masnach enfawr rhwng yr UE ac UDA, a allai fod yn werth biliynau o bunnoedd i economi'r DU. Byddwn yn adeiladu ar hyn. Rydym am gadw uniondeb y Farchnad Sengl, drwy fynnu bod y gwledydd hynny sydd wedi cadw eu harian cyfred eu hunain yn cael eu diogelu. Rydym am ehangu'r Farchnad Sengl, gan ddileu'r rhwystrau sy'n weddill i fasnach a sicrhau bod sectorau newydd yn cael eu cyflwyno i gwmniau o Brydain. Rydym am sicrhau bod rheolau newydd yn targedu ymddygiad diegwyddor yn y diwydiant gwasanaethau ariannol, tra'n diogelu Prydain fel canolfan ragoriaeth fyd-eang ym maes cyllid. Felly, byddwn yn gwrthsefyll ymdrechion yr UE i gyfyngu ar weithgareddau diliys gwasanaethau ariannol. Byddwn yn pwysio am lai o wariant gan yr UE, diwygiadau pellach i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chronfeydd Strwythurol, ac i arian yr UE ganolbwytio ar hyrwyddo twf a swyddi.



## Prydain uwch ei bri yn y byd

### Ein hymrwymiad i chi:

*Caiff popeth a wnawn o amgylch y byd ei ysgogi gan benderfyniad i'ch diogelu a'ch helpu i ffynnu. Byddwn yn:*

- *sicrhau bod Prydain yn chwarae rôl hollbwysig ar y llwyfan byd-eang, gan ddefnyddio diplomyddiaeth i ddiogelu eich buddiannau, cynnal gwerthoedd Prydeinig a mynd i'r afael â bygythiadau i'ch diogelwch a'ch ffyniant*
- *helpu i greu cyfleoedd masnach a buddsoddi newydd a swyddi newydd, er eich budd chi a'ch teulu*
- *cynnal Lluoedd Arfog o'r radd flaenaf er mwyn iddynt barhau i warantu eich diogelwch*
- *cyflawni ein hymrwymiad i wario 0.7 y cant o incwm cenedlaethol gros ar ddatblygiad rhyngwladol.*

Mae sicrwydd economaidd a diogelwch cenedlaethol yn ddwy ochr o'r un geiniog. Heb un, allwch chi ddim cael y llall. Mae ein ffyniant yn dibynnu ar Brydain sy'n parhau i fod yn weithredol ac yn flaengar, sy'n ymgysylltu â'r byd yn hytrach nag edrych tuag i mewn. Byddwn yn cynnal y rôl gref y mae Prydain yn ei chwarae ar y llwyfan byd-eang a'n gallu i ymestyn pŵer a gwerthoedd y DU ledled y byd.

Gwnaeth Dirwasgiad Mawr y Blaid Lafur wanhanu Prydain ar y llwyfan byd-eang. Gadawyd twll du o £38 biliwn yn y gyllideb amddiffyn, aeth 12 mlynedd heibio heb gynnal Adolygiad Amddiffyn Strategol ac, ar adegau, methwyd â darparu'r cyfarpar yr oedd ei angen ar ein Lluoedd Arfog yn Affganistan. Caewyd dros 30 o genadaethau diplomyddol Prydeinig, methwyd â chynllunio'n gywir ar gyfer y gwaith o ail-lunio Irac, anwybyddwyd cyfleoedd masnach a buddsoddi dramor, ac esgeuluswyd cydberthnasau hanfodol.

Rydym wedi atgyfnerthu dylanwad Prydain yn y byd. Mae'r Cyngor Diogelwch Cenedlaethol a sefydlwyd gennym yn sicrhau bod penderfyniadau strategol cywir yn cael eu gwneud ar y lefel uchaf o lywodraeth. Rydym wedi hybu allforion i farchnadoedd sy'n datblygu, wedi agor cenadaethau diplomyddol newydd yn Afrika, Asia ac America Ladin, ac wedi arwain y byd o ran hyrwyddo hawliau merched a mynd i'r afael â thrais rhywiol yn ystod gwrthdaro. Rydym wedi cydbwyso'r gyllideb amddiffyn ac

wedi nodi strategaeth glir ar gyfer amddiffyn ein cenedl yn yr hirdymor.

Rydym ni a'n cyngreiriaid yn wynebu heriau mawr: eithafiaeth Islamaidd, Rwsia ymosodgar, ansicrwydd economaidd yn Ardal yr Ewro, lledaeniad arfau niwclear a chlefydau heintus. Bydd Llywodraeth Geidwadol yn mynd i'r afael â'r heriau hyn. Byddwn yn defnyddio ein haelodaeth o NATO, yr UE, y Gymanwlad, ein sedd ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, ein Cydberthynas Arbennig ag UDA, ein hasiantaethau cuddwybodaeth, sefydliadau hanfodol fel BBC World Service a'r British Council, a'r cysylltiadau personol cryf rhwng ein cymunedau ar wasgar a gwledydd eraill, i sicrhau'r gorau i Brydain.

Byddwn yn ategu hyn â phŵer milwrol y DU a chymorth rhyngwladol. Bydd ein cynllun economaidd hirdymor yn sicrhau bod gennym y cryfder economaidd i gynnal Lluoedd Arfog o'r radd flaenaf, sicrhau ein diogelwch cenedlaethol ac ymestyn pŵer yn fydd-eang. Mae cymorth yn helpu gwladwriaethau sydd wedi methu rhag dod yn hafan i derfysgwyr. Mae'n creu marchnadodd hirdymor ar gyfer ein busnesau, drwy hyrwyddo ffyniant byd-eang, ac yn lleihau pwysau mudo. Felly, byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi, gwrthdaro a chlefydau ledled y byd.

## Llais cryfach i'n cenedl ar y llwyfan byd-eang

### *Byddwn yn eich cadw'n ddiogel*

Byddwn yn mynd i'r afael â therfysgaeth fyd-eang ac ideoleg wenwynig eithafiaeth Islamaidd, tra'n atal gwrthdaro a methiannau gwladwriaethau mewn ffordd amyneddgar dros yr hirdymor. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â bygythiadau i ddiogelwch y DU, gan gynnwys lledaeniad arfau niwclear, cemegol a biologol, clefydau pandemig, y fasnach cyffuriau anghyfreithlon, môr-ladrata a throseddu cyfundrefnol. Byddwn yn:

- gweithio i sicrhau heddwch, sefydlogrwydd a setliad cynhwysol yn Syria ac Irac; ac yn gweithredu strategaeth wleidyddol a milwrol gynhwysfawr er mwyn trechu ISIL
- cynnal sofraniaeth, uniondeb a gallu'r Wcráin, a pharhau i wrthod cyfeddiannaeth anghyfreithlon Rwsia o'r Crimea
- sefyll ysgwydd yn ysgwydd â'n cyngreiriaid NATO, gan roi sicrwydd i'w holl aelodau - yn enwedig y rheini sydd agosaf at Rwsia - o'u diogelwch, a pharhau i gefnogi'r llwybr Ewro-Iwerydd ar gyfer cenhedloedd Gorllewin y Balcaniau
- sicrhau bod cyflawniadau sylweddol ein Lluoedd Arfog yn Afganistan yn cael eu cynnal; a helpu Llywodraeth Afganistan i sicrhau bod y wlad yn parhau'n sefydlog ac na ddaw yn hafan i derfysgwr rhwngwladol fyth eto
- cefnogi ateb dwy wladwriaeth i'r gwrthdaro rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid, gan amddiffyn hawl Israel i warchod ei diogelwch yn gadarn, tra'n parhau i gondemni aneddiadau anghyfreithlon sy'n tanseilio'r rhagolygon ar gyfer heddwch
- amddiffyn diogelwch byd-eang drwy helpu i arwain ymdrechion rhwngwladol i atal Iran rhag caffaer arf niwclear; a gweithio i sicrhau bod Gogledd Korea yn dod â'r gwaith o ddatblygu arfau niwclear i ben.

### *Byddwn yn eich helpu i fod yn well eich byd*

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi defnyddio

polisi tramor i hybu ein ffyniant. Mae allforion y DU i Tsieina wedi mwya na dyblu ers 2009. Byddwn yn gwneud mwya, gan ddefnyddio llysgenadaethau a chenadaethau diplomadol newydd a agorwyd gennym, i gysylltu Prydain â'r economiâu sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Byddwn yn pwysu am fasnach fyd-eang fwy rhydd, yn gwneud cytundebau masnach mawr gyda'r UD, India a Japan ac yn ailfwiogi Sefydliad Masnach y Byd. Fel rhan o'n hymdreh i ddenu mwya o fuddsoddiad i'r DU a chynyddu allforion Prydain, byddwn yn:

- adeiladu ar ein cydberthynas gref ag India, yn pwysu am gytundeb masnach uchelgeisiol rhwng yr UE ac India ac yn cefnogi cais India i gael cynrychiolydd parhaol ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig
- atgyfnerthu ein cysylltiadau economaidd â Tsieina, dyblu'r gefnogaeth a roddwn i gwmniau o Brydain sy'n gwerthu nwyddau yno a hyrwyddo cytundeb masnach rhwng yr UE a Tsieina.

### *Byddwn yn sefyll i fyny dros werthoedd Prydeinig*

Mae ein diogelwch a'n ffyniant hirdymor yn dibynnu ar system ryngwladol sefydlog sy'n cynnal ein gwerthoedd. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi sefyll i fyny dros yr hyn rydym yn credu ynddo: ymryryd i atal cyflas yn Libya, arwain y byd o ran mynd i'r afael â thras rhywiol yn ystod gwrthdaro, a helpu merched a phlant sydd wedi ffi rhag trais yn Syria. Byddwn yn parhau â'r arweinyddiaeth hon. Byddwn yn sefyll i fyny dros ryddid pobol o bob crefydd - a phobl anghrefyddol - i arfer eu credoau mewn heddwch a diogelwch, er engraiifft drwy gefnogi Cristnogion sy'n cael eu herlid yn y Dwyrain Canol. Byddwn yn atgyfnerthu ffocws y Gymanwlad ar hyrwyddo gwerthoedd democraidd a datblygiad. Byddwn yn hyrwyddo'r Fenter Atal Trais Rhywiol yn ystod Gwrthdaro. Byddwn yn cefnogi prosesau byd-eang ar reoli arfau. A byddwn yn parhau i gefnogi hawliau dynol cyffredinol. Byddwn yn:

- cynnal ein Cydberthynas Arbennig ag UDA ac yn atgyfnerthu ein cysylltiadau ymhellach â'n cyngreiriaid agos yn y Gymanwlad, Awstralia, Canada a Seland Newydd

- cynnal hawliau democraidd pobl Gibraltar ac Ynysoedd Falkland i aros yn Brydeinig, am gyhyd ag y dymunant, a diogelu ein Tiriogaethau Tramor
- sefyll i fyny dros reol y gyfraith a hawliau dynol yn Zimbabwe
- cefnogi proses drosglwyddo ddemocraidd yn Burma

## Cadw Prydain yn ddiogel

### *Ein cynllun gweithredu:*

#### *Byddwn yn diogelu ein cenedl*

Byddwn yn parhau i gadw ein Lluoedd Arfog yn gryf er mwyn iddynt allu parhau i'ch diogelu. Bydd y Ceidwadwyr yn cynnal ôl troed amddiffyn cryf yng Nghymru ac yn parhau i gydnabod a chefnogi cyfraniad hanesyddol personél y lluoedd yng Nghymru. Byddwn yn cynnal maint y gwasanaethau arfog rheolaidd ac ni fyddwn yn lleihau'r fyddin islaw 82,000. Byddwn yn cadw arf ataliol niwclear yn y môr Trident er mwyn rhoi'r sicrwydd mwyaf posibl o'n diogelwch ac yn adeiladu'r flyd newydd o bedair Llong Danfor Taflegrau Balistic Successor - gan ddiogelu miloedd o swyddi peirianeg hynod fedrus yn y DU. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cyngreiriaid i barhau i atgyfnerthu NATO - gan gefnogi ei lu ymateb cyflym rhwngwladol newydd. Byddwn yn cynnal ein presenoldeb byd-eang, gan atgyfnerthu ein partneriaethau amddiffyn yn y Gwlf ac Asia. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cynnal Adolygiad o'r Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol ac Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

#### *Byddwn yn sicrhau bod y gyllideb amddiffyn yn gytbwys ac yn rhoi'r cyfarpar o'r radd flaenaf sydd ei angen ar ein Lluoedd Arfog*

Dim ond drwy barhau i adeiladu economi gryfach y gallwn sicrhau bod gennym Lluoedd Arfog cryf sydd wedi'u hariannu'n dda. Mae gennym yr ail gyllideb amddiffyn fwyaf yn NATO a'r gyllideb fwyaf yn yr

- hyrwyddo proses gymodi a hawliau dynol yn Sri Lanka, gan gynnwys cefnogi ymchwiliadau'r Cenhedloedd Unedig i droseddu rhyfel, y chwaraeodd y Prif Weinidog ran bwysig yn eu sicrhau yn dilyn ei ymweliad hanesyddol â Jaffna
- cefnogi pobl Cyprus i ganfod setliad heddychlon a pharhaol i ailuno eu hynys.

UE. Rydym yn cyflawni dau darged NATO sef y dylai pob gwlad wario 2 y cant o'i hincwm genedlaethol gros ar amddiffyn ac, o'r gwariant hwnnw, y dylai 20 y cant ohono gael ei wario ar y prif gyfarpar. Rydym wedi ymrwymo i ariannu'r cynllun cyfarpar ar 1 y cant uwchlaw chwyddiant ar gyfer y Senedd nesaf. Rydym yn bwriadu buddsoddi o leiaf £160 biliwn mewn cyfarpar milwrol newydd dros y degawd nesaf: yn ogystal â'n chwe distrywlong Math 45 newydd, byddwn yn adeiladu saith llong danfor Astute ac yn prynu'r Joint Strike Fighter, cerbydau arfog Scout, ffrigadau Math 26 a hofrenyddion ymosod Apache newydd. Bydd ein dau Gludwr Awyrennau newydd - HMS Queen Elizabeth a HMS Prince of Wales, y llongau mwyaf sydd wedi bod ym meddiant y Llynges Frenhinol erioed - yn dod yn rhan o'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod un ohonynt ar gael i'w defnyddio bob amser. Byddwn yn parhau i geisio gwerth am arian ym maes caffael amddiffyn, gan gydnabod y cyfraniad pwysig y mae diwydiant amddiffyn y DU yn ei wneud i'n ffyniant.

#### *Byddwn yn cynnal Lluoedd Arfog cryf a modern*

Mae angen adnoddau cryf wrth gefn ar Lluoedd Arfog modern a hyblyg, yn ogystal â lluoedd rheolaidd cryf. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein lluoedd wrth gefn, a byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad i'w hehangu i 35,000. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein galluoedd amddiffyn seiber. Byddwn hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl dalentog o bob cymuned a chefnidir wasanaethu eu gwlad. Byddwn yn sicrhau nad yw ein Lluoedd Arfog dramor yn agored i honiadau parhaus

ynghylch hawliau dynol sy'n tanseilio eu gallu i wneud eu gwaith.

### *Byddwn yn parhau i anrhydeddu Cyfamod y Lluoedd Arfog*

Rydym wedi anrhydeddu ein hymrwymiad i ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog mewn cyfraith ac wedi gwneud llawer i gefnogi'r dynion a'r merched sy'n gwasanaethu'r wlad. Rydym wedi darparu llety gwell ar gyfer teuluoedd y rhai sy'n gwasanaethu, wedi helpu dynion a merched sy'n gwasanaethu i brynu eu cartrefi eu hunain ac wedi sicrhau bod plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yn cael budd o'r premiwm disgylb. Rydym wedi rhoi cymorth iechyd meddwl priodol i gyn-filwyr ac wedi sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth o ran triniaethau meddygol. Er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n gwasanaethu fwynhau mwy o sicrwydd economaidd, rydym wedi cynyddu lwfansau a rhyddhad treth. Rydym wedi diogelu pensiynau ar gyfer y dynion a'r merched sy'n ein gwasanaethu. Rydym wedi sicrhau y gall dynion a

merched sy'n gwasanaethu a gaiff eu hanafu ddefnyddio'r prostheteg ddiweddaraf a chyfleusterau adsefydlu o'r radd flaenaf. Ac rydym wedi defnyddio £450 miliwn o ddirwyon LIBOR i gefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog. Mae'r arian wedi'i ddefnyddio i gefnogi amrywiaeth eang o elusennau ac achosion da, o ddarparu gwell cyfleusterau chwarae i blant teuluoedd sy'n gwasanaethu, i helpu cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu i adsefydlu drwy chwaraeon. Gwnaethom bwys o gyflwyno medal Seren yr Arctig - ar gyfer cyn-filwyr Confois yr Arctig - a'r clasbyn Rheolaeth Awyrennau Bomio, er mwyn sicrhau bod y rheini a beryglodd eu bywydau er mwyn ein cadw ni'n rhydd yn cael eu cydnabod yn gywir. Byddwn yn adeiladu ar y record falch hon, gan weithredu argymhellion yr Arglywydd Ashcroft ar y ffordd y mae'r genedl yn cyflawni ei rhwymedigaethau i gyn-filwyr. Byddwn yn gweithio i helpu cyn-filwyr sydd wedi colli eu clyw. A byddwn yn parhau i gefnogi arwyr anhysbys y gymuned Lluoedd Arfog; partneriaid a theuluoedd y rhai sy'n gwasanaethu.

difrifol, tra'n helpu gwledydd hefyd i fynd i'r afael ag argyfngau mawr sy'n peryglu eu sefydlogrwydd. Byddwn yn arwain rhaglen fyd-eang fawr newydd i gyflymu'r gwaith o ddatblygu brechlynnau a chyffuriau er mwyn gwaredu clefydau heintus mwyaf marwol y byd, tra'n buddsoddi i achub bywydau rhag malaria a gweithio i atal marwolaethau y gellir eu hosgoi ymhliith mamau a phlant. Byddwn yn ehangu taliadau yn ôl canlyniadau ac yn sicrhau bod yr holl arian a roddir i lywodraethau yn cael ei glustnodi'n glir at ddibenion penodol.

### *Byddwn yn mynd i'r afael ag achosion tlodi*

Byddwn yn pwysu am nodau byd-eang newydd i ddileu tlodi eithafol erbyn 2030 ac yn hyrwyddo datblygiad dynol, cyddradoldeb rhwng y rhywiau a llywodraethu da. Byddwn yn gweithio i atal newid yn yr hinsawdd ac yn helpu'r tlodaf i addasu iddo. Gan fod y llwybr allan o tlodi yn ymwneud â llawer mwy na chymorth, byddwn yn hybu twf a swyddi, gan ei gwneud yn haws i bobl ddechrau busnesau a masnachu'n rhydd gyda'i gilydd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo llinyn euraidd

democratiaeth, rheol y gyfraith, hawliau eiddo, cyfryngau rhydd a sefydliadau agored ac atebol. Byddwn yn hyrwyddo addysg i ferched, yn annog mynediad cyfartal i hawliau eiddo ac yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau cynllunio teulu ar gael i bawb sy'n dymuno eu defnyddio. Byddwn yn parhau i arwain ymdrechion i fynd i'r afael â thras yn erbyn menywod a merched, gwaredu arferion anffurio organau cenhedu benywod a mynd i'r afael â phriodasau cynnar a phriodasau dan orfod, ym Mhrydain a thrarmor.

### *Byddwn yn eich helpu i fynd i'r afael â thlodi*

Mae ein Gwasanaeth Dinas yddion Rhyngwladol wedi rhoi cyfle i filoedd o Brydeinwyr ifanc wirfoddoli dramor. Byddwn yn treblu maint y gwasanaeth hwn. Byddwn hefyd yn dyblu ein cynllun Aid Match llwyddiannus, sy'n cyfateb rhoddion i elusennau o'r gyllideb cymorth. Byddwn yn hybu partneriaethau rhwng sefydliadau yn y DU a'u cymheiriaid yn y byd datblygol, ac yn helpu pobl yn y DU i roi neu fenthyca arian yn uniongyrchol i unigolion ac entrepreneuriaid ledled y byd.

## **Mynd i'r afael â heriau byd-eang er mwyn sicrhau eich bod yn fwy diogel ac yn fwy llewyrchus**

### **Ein cynllun gweithredu:**

#### *Byddwn yn parhau i anrhydeddu ein hymrwymiadau*

Trechu tlodi byd-eang yw'r peth cywir i'w wneud ac mae o fudd i Brydain. Rydym wedi gwireddu ein haddewidion i gyflawni targed y Cenhadloedd Unedig o wario 0.7 y cant o incwm cenedlaethol ar gymorth a'i ymgorffori mewn cyfraith. Byddwn yn parhau i gyflawni'r targed o 0.7 y cant, cynnal Adran Datblygiad Rhyngwladol annibynnol a sicrhau nad yw cymorth yn cael ei glymu. Mae ein cyllideb cymorth yn cydymffurfio â rheolau cymorth OECD, a byddwn yn cymryd rhan mewn trafodaethau rhyngwladol i sicrhau bod y rheolau hyn yn adlewyrchu'n llawn bwysigrwydd heddwch, sefydlogrwydd a sefydliadau effeithiol sy'n lleihau tlodi. Byddwn yn mynnu bod pob llywodraeth a sefydliad a

ariennir gennym yn cyrraedd safonau tryloywder byd-eang yn llawn.

#### *Byddwn yn achub bywydau*

Erbyn 2020, byddwn yn achub bywydau 1.4 miliwn o blant, drwy imiwneiddio 76 miliwn o blant yn erbyn clefydau marwol. Byddwn yn helpu o leiaf 11 miliwn o blant yn y gwledydd tlodaf i gael addysg foddhaol, yn gwella maeth o leiaf 50 miliwn o bobl a fyddai fel arall yn newynu; ac yn helpu o leiaf 60 miliwn o bobl i gael gafael ar ddŵr glan a glanweithdra er mwyn gwaredu clefydau ofnadwy. Byddwn yn parhau i arwain yr ymateb i argyfngau dyngarol ac yn sefydlu ffordd o ymateb yn gyflym i argyfngau. Mae ein rôl arweiniol wrth ymdrin â'r achosion diweddar o Ebola yng Ngorllewin Affrica yn enghraifft dda o'r modd y mae ein rhaglen cymorth yn helpu i ddiogelu Prydain rhag bygythiadau



## *Casgliad*

### **FELLY DYMA EIN CYNLLUN MANWL AR GYFER PRYDAIN.**

Ein cynllun i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed yn ystod y pum mlynedd diwethaf.  
Ein cynllun i chi a'ch teulu, ar bob cam o'ch bywyd.

### **CAIFF EI ATEGU GAN RAI GWERTHOEDD CEIDWADOL SYML.**

Rhaid i'r rheini sy'n gweithio'n galed ac yn gwneud y peth iawn gael eu gwobrwyd. Dylai pawb allu cyflawni eu potensial. Rydym yn mesur ein llwyddiant, nid dim ond o ran y ffordd rydym yn dangos ein cryfder dramor, ond o ran y ffordd rydym yn gofalu am y gwannaf a'r mwyaf agored i niwed gartref.

### **YN ANAD DIM, MAE'R CYNLLUN HWN YN SEILIEDIG AR GRED WIRIONEDDOL YM MHRYDAIN.**

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fel sydd wedi digwydd mor aml yn ystod ein hanes, rydym unwaith eto wedi ateb ein heriau er gwaethaf disgwyliadau'r byd. Caiff cymeriad Prydain ei weld bob dydd yn y miliynau sy'n gweithio'n galed, yn magu eu teuluoedd, yn gofalu am y rheini sydd angen help, yn gwneud y peth iawn – ac sy'n creu'r wlad sydd ohoni.

### **MAE'R MANIFFESTO HWN YN YMWNEUD Â GWELLA BYWYDAU POB UN O'R BOBL HYN.**

Gyda'n gilydd, rydym wedi dod yn bell. Os byddwn yn cadw at ein cynllun hirdymor, gallwn sicrhau dyfodol gwell i chi a'ch teulu. Felly gadewch i ni barhau i symud ymlaen; a gosod ein bryd ar Brydain hyd yn oed yn well.